Rhif 30 | Mawrth 2020 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

Cyhoeddwyd gyda chymorth: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif 30 | Mawrth 2020 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Mari Fflur, Dr Angharad Watkins a Lois McGrath |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru |
| | Yr Athro David Evans, Prifysgol Caerdydd |
| | Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe |
| | Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor |
| | Dr Sioned Vaughan Hughes, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| | Yr Athro Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Carwyn Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| | Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| | Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe |
| | Wyn Thomas, Prifysgol Bangor |
| | Yr Athro Ioan M. Williams |


E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru


Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.
ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*


www.gwerddon.cymru

# Cynnwys


Golygyddol 5

Anwen Jones, 'Perfformio dinasyddiaeth: *Sisters*, cynhyrchiad ar y cyd rhwng *National Theatre Wales* a *Junoon Theatre Mumbai*' 6

Peredur Webb-Davies a Christopher Shank, 'Defnydd hanesyddol a chyfoes o "mynd i" yn y Gymraeg: Astudiaeth o ramadegoli fel newid ieithyddol' 23

Robert Palmer, 'Gwella gwasanaethau gofal iechyd â chymorth cleifion: Casglu PROMs a PREMs ledled Cymru' 40

Dafydd Sills-Jones, 'Gogwydd hanesyddol ar astudiaethau cynhyrchu: ail gyfnod cwmni Teliesyn drwy fframweithiau Cottle, Bourdieu a Berne' 68

Cyfranwyr 84

# Golygyddol

Dr Hywel Griffiths

Braint a phleser unwaith eto yw cael cyflwyno rhagair, a hynny ar gyfer y degfed rhifyn ar hugain o *Gwerddon*. Fel erioed, mae'r cynnwys yn cynrychioli ystod amrywiol o feysydd – byd y theatr, ieithyddiaeth, iechyd, ac astudiaethau cynhyrchu cyfryngau – ac yn arwydd o fywiogrwydd y byd ymchwil cyfrwng Cymraeg. Ar wahân i'w gwerth academaidd a deallusol, yr hyn a'm trawodd am y pedair erthygl a gyflwynir yma yw'r ffordd y maent i gyd, mewn amrywiol ffyrdd, yn cyfrannu at drafodaethau cyhoeddus yng Nghymru, at ein dealltwriaeth ohonom ein hunain fel cenedl a'n profiadau beunyddiol. Dengys y rhifyn hwn mor werthfawr i'r drafodaeth honno yw dadansoddiadau o'r cyfoes a'r hanesyddol fel ei gilydd.

Yn yr erthygl gyntaf, mae Anwen Jones yn archwilio perfformio a chenedligrwydd dinesig trwy ddadansoddi *Sisters* - cynhyrchiad diweddar ar y cyd gan y cwmni drama genedlaethol cyfrwng Saesneg, *National Theatre Wales* a chwmni *Junoon Theatre Mumbai*. Trwy hyn, gofynnir cwestiynau ehangach pwysig a heriol am rôl a natur theatr genedlaethol yn y Gymru, a'r byd, sydd ohoni, ac am y ffordd yr eir ati i astudio cynyrchiadau theatrig.

Tra bod Anwen Jones yn cynnig golwg ar Gymru trwy theatr gyfoes, mae Dafydd Sills-Jones yn bwrw golwg yn ôl ar hanes cwmni cynhyrchu ffilm a theledu annibynnol Teliesyn a sefydlwyd ddechrau'r 1980au. Trwy olrhain yr hanes a'i ddadansoddi trwy lens damcaniaethau astudiaethau cyfryngau, archwilir newidiadau pwysig yn y diwydiant ehangach, a rhydd hyn bersbectif a chyd-destun pwysig ar gyfer trafodaethau ynglŷn â'r cyfryngau cyfoes.

Yn yr un modd, cyniga erthygl Peredur Webb-Davies a Christopher Shank gyd-destun hanesyddol gwerthfawr ar gyfer trafodaethau cyfredol ynglŷn â newidiadau i'r ffordd yr ydym yn siarad Cymraeg. Maent yn dadansoddi data corpws er mwyn astudio sut y datblygodd yr arfer o ddefnyddio berfau symud i gyfleu'r dyfodol yn y Gymraeg – proses a elwir yn ramadegoli. Dangosir i'r broses ddechrau 500 mlynedd yn ôl, a'i bod yn dilyn patrymau ieithoedd ar draws y byd, ond bod y broses yn y Gymraeg wedi dod yn amlycach yn ystod yr ugeinfed ganrif o dan ddylanwad y Saesneg.

Mae erthygl Robert Palmer a'i gyd-weithwyr wedyn yn cynnig trosolwg o'r system gasglu data genedlaethol gyntaf yn y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a ddefnyddiwyd ers 2016, sef Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion. Noda'r awduron fod y 66,000 darn o ddata a gasglwyd dros y tair blynedd ddiwethaf yn awgrymu bod potensial i wella effeithlonrwydd y Gwasanaeth trwy ddefnyddio adolygiadau rhithwir a dangosfyrddau delweddu data, ynghyd â sicrhau llwybr triniaeth gywir. Dyma gyflwyniad i ddatblygiad hynod gyffrous a gwerthfawr i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gan ddiolch i'r cyfranwyr am eu gwaith, gobeithiaf y byddwch chithau yn mwynhau'r rhifyn, ac y'i defnyddir i gyfoethogi trafodaethau cyhoeddus Cymru.

# Perfformio dinasyddiaeth: *Sisters*, cynhyrchiad ar y cyd rhwng *National Theatre Wales* a *Junoon Theatre Mumbai*

Anwen Jones

*Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth*

Cyflwynwyd: 3 Hydref 2019; Derbyniwyd: 27 Ionawr 2020

**Crynodeb**: Prif amcan yr erthygl hon yw gofyn sut mae dinasyddion Cymru fodern yn defnyddio'r adnoddau theatraidd sydd ar gael iddynt er mwyn archwilio a mynegi eu hunaniaethau a'u profiadau cenedlaethol. Man cychwyn y drafodaeth fydd cynhyrchiad o'r enw *Sisters,* prosiect ar y cyd rhwng *National Theatre Wales a Junoon Theatre Mumbai.* Mae *Sisters* yn ysgogi trafodaeth am ddulliau newydd o greu ac o gyfranogi o theatr sydd yn ymateb yn greadigol i heriau cymdeithas fyd-eang, ddigidol ac ôl-gyfalafol yr unfed ganrif ar hugain. Wrth drin a thrafod y cynhyrchiad a'i gyd-destun, defnyddir gweledigaeth gignoeth Johannes Birringer o theatr gyfoes fel gweithgarwch trawsffurfiannol sy'n canolbwyntio ar gyd-greu anhysbys a dadwreiddiedig fel canllaw i fesur llwyddiant ac arwyddocâd *Sisters.* Dadleuir hefyd fod yr union amgylchedd cymdeithasol a ysgogodd weledigaeth Birringer yn rhoi pwysigrwydd ffres ar ddadl Amelia Jones am werth ymateb i gynhyrchiad neu berfformiad trwy gyfrwng tystiolaeth eilaidd, neu falurion, chwedl Matthew Reason.

**Allweddeiriau**: cenedligrwydd, cyfranogi, De-ddwyrain Asia, malurion, trawsffurfiannol.

## Performing citizenship: *Sisters*, a joint production between National Theatr Wales and Junoon Theatre Mumbai

**Abstract**: This article seeks to interrogate the ways in which the citizens of Wales use the theatrical resources at their disposal to investigate and articulate their national identities and experiences. The discussion will take a recent co-production, entitled *Sisters*, between *National Theatre Wales* and *Junoon Theatre Mumbai* as its starting point. *Sisters* stimulates discussion of new ways of creating and participating in theatre that respond creatively to the challenges of a twenty-first century global, digital and post-consumerist society. In discussion, this article will use Johannes Birringer's uncompromising vision of theatre as a transformative activity that focuses on patterns of collaboration between unfamiliar and unrooted individuals, as a measuring yard for the success and significance of *Sisters*. I will also argue that the social conditions that inspired Birringer's vision also give fresh importance to Amelia Jones's argument about the value of responding to a production or performance by means of secondary evidence, or 'detritus', as described by Mathew Reason.

**Key words**: national identity, participation, South-east Asia, detritus, transformative.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Bwriad yr erthygl hon yw archwilio'r berthynas rhwng perfformio a chenedligrwydd dinesig yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain. Y cwestiwn ymchwil canolog yw, sut mae dinasyddion Cymru fodern yn defnyddio'r adnoddau theatraidd sydd ar gael iddynt i archwilio a mynegi eu hunaniaethau a'u profiadau cenedlaethol? Man cychwyn y drafodaeth fydd cynhyrchiad diweddar *Sisters* gan *National Theatre Wales*. Roedd hwn yn berfformiad ar y cyd gan NTW, y cwmni cenedlaethol Saesneg ei iaith, a chwmni *Junoon Theatre Mumbai*, a oedd yn canolbwyntio ar y profiad o fod yn ferch o Dde-ddwyrain Asia yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain. Mae *Sisters* yn gynhyrchiad arwyddocaol yn hanes NTW am ei fod yn ysgogi trafodaeth am ddulliau newydd o greu ac o gyfranogi o theatr sydd yn ymateb yn greadigol i heriau cymdeithas fyd-eang, ddigidol ac ôl-gyfalafiaethol yr unfed ganrif ar hugain. Wrth drin a thrafod y cynhyrchiad a'i gyd-destun, defnyddir gweledigaeth gignoeth Johannes Birringer o theatr gyfoes fel gweithgarwch trawsffurfiannol sy'n canolbwyntio ar gyd-greu anhysbys a dadwreiddiedig fel canllaw i fesur llwyddiant ac arwyddocâd *Sisters*. Dadleuir hefyd bod yr union amgylchedd cymdeithasol a ysgogodd weledigaeth Birringer yn rhoi pwysigrwydd ffres i ddadl Amelia Jones am werth ymateb i gynhyrchiad neu berfformiad trwy gyfrwng tystiolaeth eilaidd, neu falurion, chwedl Matthew Reason.

Yn ei gyfrol, *Performance on the Edge: Transformations of Culture*, mae Johannes Birringer yn diffinio diwedd yr ugeinfed ganrif fel cyfnod neilltuol; '*a 'special period' of growing tension … about our identities, our nationhood and our citizenship in communities at the end of the century*'.[1] Trwy lens cynhyrchiad amlddiwyllianol *Sisters*, bydd yr erthygl hon yn gofyn pa mor berthnasol yw gweledigaeth Birringer i berfformio ac i berfformiadau prif ffrwd yn y Gymru gyfoes ac a oes goblygiadau i'w weledigaeth yng nghyd-destun tirlun theatraidd cenedlaethol Cymru'r dyfodol. Tra bod disgwrs Cymru-benodol megis gwaith J. R. Jones, Saunders Lewis, a chyfraniadau mwy diweddar Gwion Lewis, ar y naill law, a Wynne Thomas, Daniel Williams a Lisa Sheppard, ar y llall, oll yn ymrafael mewn gwahanol ffyrdd â chymhlethdod cenedligrwydd dwy genedl, dwyieithog, mae ysgolheictod diweddar yn y maes wedi ehangu'r drafodaeth mewn modd ysgytwol o gynhwysol. Yng ngwaith ysgolheigion megis Dafydd Rhys Jones a Shirley Egley, codir cwr y llen ar gyfoeth cysyniadau a phrofiadau cenedlaethol cyfoes yng Nghymru. Trafodir profiad Mwslemiaid yn y Gymru wledig yng nghyd-destun amlddiwylliannedd a dinasyddiaeth gynhwysol gan Jones, a thrafodir cymathiad mewnfudwyr Pwyleg i system addysg yng nghyd-destun cysyniadau Cymreig o '*citisenship education*' gan Egley.[2] Mae gwaith ymarferwyr ac ysgolheigion theatr Cymru wedi ei seilio ar ddealltwriaeth eangfrydig o theatr sy'n gyfnewidiol ac yn ddeallus yn ei berthynas â'i amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwaith safle penodol Mike Pearson a Cliff McLucas, ymarfer dawns arbrofol Eddie Ladd, astudiaethau ysgolheigaidd Heike Roms a Lisa Lewis ar gelfyddydau perfformio amgen yng Nghymru,

---

1 Birringer, J. (2000), *Performance on the Edge: Transformations of Culture* (London: Athlone Press), t. 8.

2 Jones, D, R. (2015), 'Mwslemiaid yn y Gymru wledig: datgysylltiad, ffydd a pherthyn', *Gwerddon*, 19, 9–27 ac Egley, S. (2011), 'The experience of Polish Migrant workers' children studying in Welsh schools', *Educational Transactions,* Prifysgol Bangor, 57–76.

cyfrol Roger Owen am werth a chyfraniad theatr yr ugeinfed ganrif yng Nghymru fel ymarfer cenedlaethol answyddogol, ynghyd â phrosiectau ymchwil rhai o'n hymarferwyr ifanc, megis astudiaeth ymarfer fel ymchwil Rhiannon Williams ar ddefodau perfformiadol capel a chymdogaeth, oll yn brawf o'r ehangder sydd yn ganolog i agweddau tuag at y theatr yng Nghymru o'r ugeinfed ganrif ymlaen. Yn wyneb y math hwn o gymhlethdod, neu'n hytrach y math hwn o gyfoeth, mae Birringer yn gweld rôl hanfodol i berfformio ac i berfformiad fel ffurf o ymholiad esthetig sy'n medru cydnabod '*the fissures among cultures and the political implications of contemporary critical discourses of race, gender, authenticity and nation*'.[3] Aiff ymlaen i ddadlau taw'r math o weithgaredd theatraidd sydd wrth wraidd ei weledigaeth yw cyd-greu sy'n derbyn '*alienation as a preface to the experience of working together*'. Mae aelodau ei gwmni, *Alienation Co.* yn byw '*the proliferation of imaginary border spaces and try to meet … in our intermediary collaborations*'.[4] Iddynt hwy, hanfod perfformio yw'r frwydr barhaus i groesawu'r profiad gweddnewidiol.

Yn 2017, penderfynodd y Cyngor Prydeinig a llywodraethau India a Phrydain osod rhaglen o weithgaredd creadigol, celfyddydol, wrth wraidd dathliadau saith deg mlynedd o annibyniaeth i India. Gellid dehongli'r penderfyniad fel arwydd o fuddsoddiad lefel uchel ym mhotensial gweithgaredd celfyddydol, gan gynnwys perfformio, i roi mynegiant deallus i wahaniaethau diwylliannol ac i oblygiadau gwleidyddol disgwrs cyfredol o gylch categorïau cynrychiolaeth megis cenedl a thras. Yn ôl llysgenhadon y prosiect Prydeining, yr hyn a oedd wrth galon y rhaglen oedd yr egwyddor a'r broses o gyfnewid celfyddydol a fyddai, ar ei orau'n cynnig patrwm o gyfathrebu trawsddiwylliannol newydd. Menter adferol oedd hon, felly, a fyddai'n gosod heriau, anawsterau ac anghyfiawnderau'r berthynas rhwng India a Phrydain yn eu priod le; y gorffennol. Yr hyn oedd ar waith oedd ymgais i achub ar botensial gweithgaredd celfyddydol, cymunedol, er mwyn cyflawni gweddnewidiad diwylliannol. Er nad yw'r math hwn o brosiect adferol yn anarferol yng nghyd-destun ymarfer diwylliannol, mae'n cyflwyno nifer o heriau a chwestiynau ynghylch cyfreithlondeb, perchnogaeth a chydraddoldeb. Siawns nad oedd penderfyniad Cymru i ddilyn yn ddeddfol yng nghwys Prydain wrth gynnig fersiwn Cymru/India fel cyfraniad i'r rhaglen ganolog, Prydain/India, yn arwydd o'r math o batrwm gwasaidd, diddychymyg sy'n deillio o fethiant i herio hanes a thraddodiadau gwleiddyddol a diwylliannol y gorffennol.

Ar wefan yr Academi Prydeinig, disgrifir y prosiect fel ymdrech flaengar i egino a meithrin perthynas newydd rhwng Prydain ac India trwy raglen o weithgareddau diwylliannol, cyfochrog, y naill dan arweiniad y Cyngor Prydeining a'r llall dan arweiniad Llywodraeth India:

> India and the UK have a long and rich history. UK/India 2017 will enrich relationships at all levels of society, their institutions and government, building a shared future for generations to come.

[3] Birringer, J., *Performance on the Edge*, tt. 4–5.
[4] Ibid., t. 6.

> 2017 will see an incredible programme of cultural events and activities in India organised by the British Council, and a similar programme in the UK organised by the Government of India. We believe that by experiencing the most innovative and exciting creative work from both countries and exploring our joint history, people will want to know more about each other's countries and build deeper connections.[5]

Mae'r cyfarchion agoriadol a gynigir gan Meera Syal a'r Gwir Anrhydeddus Farwnes Prashar yn fframio'r prosiect creadigol hwn yng nghyd-destun rhaglen o gyfnewid diwylliannol a chyfartal ffurfiol, ynghyd â fel math o femorandwm dealltwriaeth artistig. Mae yma egni a brwdfrydedd yn ogystal ag ymwybyddiaeth o gymhlethdod hanesyddol y berthynas rhwng Prydain ac India. Cyfeiria Syal yn gynnil at hanes perthynas '*complicated, long and passionate*', tra bod y Farwnes yn pwysleisio nad mater o atgyfodi perthynas hanesyddol mo hwn ond yn hytrach gyfle am berthynas newydd; '*put on a different footing, and establishing stronger links*'.[6]

Un o gyfraniadau allweddol Cymru i bair y dadeni diwylliannol hwn oedd *Sisters.* Roedd hwn yn gyfle euraid i gyfrannwyr o India, Cymru a'r Deyrnas Unedig (DU) ddod at ei gilydd i rannu cyfle '*to come together … and share their stories … taking control of them and determining what it is that you want to say and how you want to say it*'.[7] Roedd y penderfyniad i wneud hynny ar lwyfan ac mewn lle cenedlaethol ag iddo gysylltiadau amlwg â chenedligrwydd sydd wedi ei fframio gan fecanweithiau'r wladwriaeth, yn heriol. Ar un wedd, roedd hi'n rhesymegol ddigon i gyflwyno *Sisters* ar lwyfan cenedlaethol; *National Theatre Wales.* Roedd ymdeimlad corfforaethol prosiect rhyngwladol India/DU yn galw am lwyfan gweladwy, llwyfan o statws a allai hawlio lle blaengar nid yn unig yn ymwybyddiaeth artistig y genedl, ond hefyd, drwy gydgysylltiad â rhwydwaith o theatrau cenedlaethol eraill ym Mhrydain, yn ymwybyddiaeth artistig y DU. Roedd *National Theatre Wales* yn llwyfan cymwys ar gyfer prosiect ag iddo ethos moesegol a chadarn fel rhan o brosiect i gynnig model newydd o gyfathrebu trawsddiwylliannol a fyddai'n arloesol yng nghyd-destun hanes ôl-drefedigaethol y cyfnewid diwylliannol a'i rhagflaenodd. Ar wedd arall, mae llwyfannu gwaith a oedd yn archwilio cymhlethdod hunaniaethau amlgenedlaethol mewn theatr genedlaethol o unrhyw fath yn codi cwestiynau crafog.

Yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, rydym yn buddsoddi mewn theatr, a hynny am ein bod yn gweld bod iddi werth. Cafwyd trafodaeth gyson drwy gydol yr ugeinfed ganrif am yr angen i sefydlu a sefydlogi llwyfannau cenedlaethol i'r theatr yng Nghymru. Yn negawd gynta'r unfed ganrif ar hugain, gwelwyd ariannu Theatr Genedlaethol Cymru a *National Theatre Wales* yn llewyrch llwyddiant trawiadol *National Theatre of Scotland; Theatre without Walls.* Yng Nghymru, mae ein theatrau cenedlaethol yn fodern i'r graddau eu bod

---

[5] <https://www.britishcouncil.in/programmes/uk-india-2017/about> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

[6] Ibid.

[7] <https://www.walesartsreveiw.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

yn ymwrthod â chysyniadau hanesyddol a thraddodiadol o lwyfan fel lle neu leoliad ag iddo ffiniau a therfynau penodol, dynodedig. Mae llwyfannau ein theatrau cenedlaethol yn eang. Ys dywed NTW, '*the nation of Wales is our stage*'.[8] Mae datganiad y chwaer gwmni Cymraeg ei iaith yn fwy gwyliadwrus ond yn cyfleu'r un ysfa i ddatgan ei wreiddioldeb, ei ryddid a'i fersiwn arbennig o gynrychiolaeth wladwriaethol sy'n darparu cynnyrch celfyddydol a safonol ac eto'n ymwrthod â chysyniadau o ddyletswydd yng nghyd-destun disgwyliadau hanesyddol o'r llwyfan cenedlaethol fel lle neu leoliad penodol, cydnabyddedig:

> Rydym yn creu profiadau theatraidd beiddgar, uchelgeisiol a chynhwysol, a chofiadwy wrth galon ein cymunedau mewn canolfannau theatr traddodiadol a lleoliadau annisgwyl ledled Cymru a thu hwnt.[9]

Er gwaethaf yr huawdledd hwn, nid oes dwywaith nad oes gan theatr genedlaethol gefndir a chyd-destun penodol sy'n gysylltiedig â chwestiynau am gyfreithlondeb ac awdurdod modelau o genedligrwydd sy'n canoli ar y wladwriaeth. Yn yr un modd ag y mae '*[c]hanging patterns of mobility and connectivity, migration and transnational cultural interconnections*'[10] oll yn siglo seiliau dinasyddiaeth a wreiddir yn y wladwriaeth, mae arferion perfformio sy'n canolbwyntio ar fodel theatr genedlaethol yn agored i gyhuddiadau o fethiant i gynrychioli realiti lluosog yn llawn, yn hyblyg ac yn eangfrydig. Mae sylwadau Morgan a Per Brask, yn eu trafodaeth o'r berthynas rhwng theatr a defod yn berthnasol yma. Man cychwyn eu trafodaeth yw'r ffaith bod modd dirnad y berthynas rhwng defod a theatr, '*by viewing the major structural and functional attributes of theatre (associated with state level societies) as evolutionary transformations of homologous elements of communal ritual found in non-state societies*'.[11] Maen nhw'n nodi dwy nodwedd amlwg (er nad ydynt yn gwbl gyson) theatr fel ffurf ar gelfyddyd, '*with particular reference to its various times and places of origin, theatre has as a major function the conditioning of the thought of state level societies in support of the existing social order*'. Ymhellach, mae'r ddau'n dadlau bod theatr, '*notably, the dramatic theatre, addresses the validation of cultural institutions, societal hierarchies and values*'.[12]

Os ydym am amddiffyn theatr genedlaethol, gellid herio perspectifau Morgan a Brask gan ddadlau bod eu hastudiaeth yn un hanesyddol sy'n canolbwyntio'n ormodol ar ddyfodiad theatr i Groeg hynafol. Gellid ychwanegu bod gwir gymhlethdod y berthynas rhwng theatr a chymdeithas gyfoes wedi ei adlewyrchu yn natblygiad ffurfiau newydd ar theatr sy'n ymwrthod â thestun, lleoliad a chynnyrch ac yn difreinio a disodli'r berthynas rhwng yr

---

[8] <https://www.nationaltheatrewales.org/cy/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].
[9] <http://theatr.cymru/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].
[10] Birringer, J. (2000), *Performance on the Edge*, t. 8.
[11] Morgan, W., a Brask, P. (1988), 'Towards a Conceptual Understanding of the Transformation from Ritual to Theatre', *Anthropologica*, 30 (2), 176.
[12] Morgan, W., a Brask, P., 'Towards a Conceptual Understanding of the Transformation from Ritual to Theatre', 178.

hyn a gyflwynir a'r gynulleidfa. Efallai ei bod hi'n amserol gofyn a yw theatr fodern, felly, wedi chwalu'r gyfnewidfa awdurdodol a/neu addysgiadol rhwng dinesydd a gwladwriaeth? Nid oes dwywaith i theatr esblygu a thrawsffurfio yn y cyfnod modern a ddadansoddir mor dreiddgar yng ngwaith beirniaid megis Raymond Williams, Gareth Evans ac Erika Fischer-Lichte. Ystyriwch y 'troeon celfyddydol' ar hyd y daith o'r gyfnewidfa uniongyrchol a nodweddwyd gan arferion perfformio realaidd a naturiolaidd, at yr epig, y dirfodol, yr ôl-fodernaidd a'r ôl-ddramataidd. Bu'n andros o daith wrth i'r theatr frasgamu oddi ar y llwyfan i ganol ein byd a'n profiad, gan gyfnewid gair am ystum, cynrychiolaeth am weithgarwch, a digwyddiad am weithred, boed hynny trwy aflonyddu ar y broses o gyfnewid celfyddydol neu trwy ei atgyfnerthu. Wrth reswm, mae theatr yn amrywiol ac yn fyw. Mae'n gyfrwng sy'n ymroi i fynegi profiadau a chanfyddiadau cyfoes ond nid yw amrywiaeth y dyfeisgarwch a ddefnyddir i gyrraedd y cyfryw nod yn gwadu'r ffaith fod y broses o gyfathrebu sydd wrth wraidd ac wrth galon theatr yn ddibynnol ar gyfnewid cymdeithasol, a bod hynny, yn ei dro, yn greiddiol i lewyrch dynoliaeth. Ar y llaw arall, mae'n amhosibl peidio â chydnabod bod natur y gyfnewidfa'n gynyddol heriol mewn cymdeithas sy'n canfod y profiad dynol yn gynyddol fel un hybrid, cynhwysfawr, anghyflawn, amhenodol a di-ffin, yn ddaearyddol ac yn gysyniadol.

Wrth gyfiawnhau ei ymroddiad parhaus i berfformio, mae Johannes Birringer yn esbonio nad yw am ysgrifennu llyfr arall am theatr ac ôl-foderniaeth ond y bydd, yn hytrach, yn newid ei osgo ysgolheigaidd ac yn ysgrifennu am berfformio, '*as a fundamental dimension of culture and its transformation*'.[13] Mae llyfr, meddai Birringer, yn dadleoli'r themâu mwyaf pwysig am hunaniaeth a diwylliant yn y byd cyfoes o'u cyd-destun academaidd, naturiol, sef ymarfer diwylliannol, celfyddydol ac esblygiadol. Wrth drafod ei daflwybr proffesiynol, mae'n sôn am berfformiad penodol a fu'n drobwynt wrth iddo chwilio am ymarfer celfyddydol a oedd yn driw i'w brofiad o genedligrwydd briw, brau, cymhleth ac anghyson. Cyfeiria at berfformiad ar y ffin rhwng y Rio Grande a'r Rio Bravo, ger pentref San Ygnacio. Yn ystod y perfformiad, wedi gorymdaith seremonïol, gwthiwyd croes fawr, *Cruz: La Pasíon* i'r afon ac fe'i llosgwyd yno. Dywed Birringer i'r digwyddiad adael ei olion ar ei ddychymyg a'i ymwybyddiaeth gynyddol o ffiniau a diwylliannau ar ffiniau. Wrth iddo ymhelaethu, daw'n amlwg i'r perfformiad fod yn brofiad anodd, heriol ac annymunol lle y canfu ei fod yn gaeth:

> In the no man's land between performance and ritual, political demonstration and aesthetic masturbation.[14]

Yr hyn a ddaeth yn amlwg iddo oedd y ceid her ddeublyg waelodol ynghlwm wrth yr ymgais i fynegi natur gyfansawdd, gymhleth a briwiedig cenedligrwydd cyfoes yn ogystal ag i gwestiynu a gwerthuso gallu a gwerth gweithgaredd celfyddydol fel modd o fynegi'r math hwn o gymhlethdod. Ateb Birringer i'r argyfwng hwn yw dinoethi a dadwreiddio'r weithred

---

[13] Birringer, J. (2000), *Performance on the Edge*, t. 21.
[14] Ibid., t. 3.

greadigol fel bod ffocws yr holl gyfranogwyr, boed artistiaid neu gynulleidfa, ar y weithred ei hun yn hytrach na'i chyd-destun. Mae Birringer yn dod â grŵp o artistiaid amrywiol at ei gilydd er mwyn creu gwaith, ar y cyd, mewn gwagle anhysbys, lle nad oes nod celfyddydol y tu hwnt i'r creu ei hun. A oes yma felly fodel a fyddai'n ateb heriau penodol *Sisters* gan ochrgamu fframwaith awdurdodol theatr a theatrau cenedlaethol a chanfod modd o ailgyfeirio'r ffocws perfformiadol sy'n grymuso'r weithred o gyd-greu?

Ymddengys y glasbrint a gynigir gan Birringer fel model cynhyrchiol yng nghyd-destun amcan canolog y cyfranwyr i ddadlennu cymhlethdod cenedligrwydd amlweddus ac anghydlynus. Os ydym yn derbyn ei fan cychwyn creadigol, gan gydnabod arwahanrwydd fel elfen gyffredin ym mhrofiad y sawl sy'n cyfrannu at brosiect theatraidd cymunedol, trawsffurfiannol, yna ceir canllaw cynhyrchiol ar gyfer archwilio cymhlethdod amlweddus hunaniaethau cenedlaethol, cyfoes, lluosog eu naws. O ystyried yr heriau rydym eisoes wedi eu cydnabod yng nghyd-destun deinameg y pŵer hanesyddol rhwng Prydain ac India a'r modd y mae sefydliadau celfyddydol, cenedlaethol, yn ymgorffori grym gwladwriaethol, yn gysyniadol ac yn ymarferol, gallem ddisgwyl i *Sisters* achub ar botensial creadigol cyd-greu cymunedol er mwyn tarfu ar y tirlun sefydliadol, corfforaethol, a oedd yn gefnlen i'r cynhyrchiad. Yn wir, mae rhai o'r sylwadau a wneir gan ddau o gyfranwyr allweddol y prosiect, ar bodlediad ar wefan NTW*,* yn dadlennu ymdeimlad o anniddigrwydd yng nghyd-destun y berthynas rhwng y cwmni cenedlaethol, fel man egino a meithrin *Sisters*, ac uchelgais celfyddydol a diwylliannol y prosiect. Mae gobaith Seemar, sef y bydd '*all the different artists involved will find different ways of making use of material whether or not NTW is involved moving forward*',[15] yn arddel ymwybyddiaeth o theatr genedlaethol fel gofod heriol ac yn awgrymu na ddiwallodd *Sisters* lawn botensial y cyfraniad na'r cyfranogwyr.

Mae'n bwysig cydnabod i NTW sefydlu egwyddor o groesawu a datblygu perfformiadau safle penodol ac awyr agored o'r cychwyn cyntaf ac nad yw perthynas y theatr genedlaethol â gofod yn un a gyfyngwyd neu a wreiddiwyd mewn modd clawstroffobig. Eto, gellid dadlau bod y penderfyniad i lwyfannu *Sisters* oddi mewn i bedair wal Theatr y Sherman yn gwrthweithio yn erbyn y cysyniad o berfformio fel gwedd hanfodol ar drawsffurfiad diwylliannol a hynny am ei fod yn angori'r perfformiad mewn amgylchfyd statig ac awdurdodol. Wrth reswm, mae celfyddyd yn anodd, yn gyfrwys, yn greadigol ac yn ddyfeisgar ac mae modd herio grym o safle cydymffurfiol. A oedd agweddau eraill ar *Sisters* a oedd, o bosibl, yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymdrech gwaelodol Birringer i groesawu'r gweddnewidiol? Mae disgrifiad un o'r prif gyfranwyr, Sameera, o'r broses greadigol, berfformiadol, fel, '*a celebration and learning process with expansion of horizons … and an opportunity for a focused discussion*',[16] yn cyd-daro'n berffaith â gobeithion y Cyngor Prydeinig y byddai'r cyd-greu diwylliannol yn fodd o ddeffro cywreinrwydd am hanes cymunedol. Ar yr un pryd, diddorol

[15] <https://www.walesartsreview.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

[16] Ibid.

yw nodi pa mor fyw yw'r cyfnewid a ddisgrifir gan awduron a pherfformwyr *Sisters* wrth iddynt sôn am sut y bu i'r cydweithio alluogi cyfnewid uniongyrchol, lleol, sef y cyfnewid rhwng grŵp o ferched a'u hunaniaethau diwylliannol, niferus ac amlochrog hwy eu hunain. Efallai bod sylw gan gyfranwraig arall, Sapan, yn crisialu union natur bersonol, agos atoch, y cyfnewid hwn:

> there are not that many spaces where you reveal yourself as a woman in an introspective manner and get a chance as a collective to address that.[17]

A oes yma gnewllyn gweledigaeth am hunaniaeth gyfoes grŵp a rannai nodweddion ar sail rhyw ond a feddai ar brofiadau lluosog ac unigryw a oedd yn deillio o hunaniaethau cenedlaethol hybrid ac amlweddus? Mae'r cyfuniad o'r termau 'mewnsyllgar' a 'chyfunol' yn awgrymu y ceir yma agenda ddiwylliannol, gyfoes, sy'n agor y profiad unigol i fynegiant gan y lliaws mewn modd anarferol. A oedd *Sisters* efallai yn closio at weledigaeth Hildebrandt a Peters o ddinasyddiaeth gyfredol fel profiad a berthynai'n agos i'r arfer o berfformio?

> New articulations of citizenship emerge in citizen's and non-citizen's practices and struggles, and they often do so in conjunction with artistic practices. In these artistic practices, citizenship is embodied and changed; a new form of togetherness, new strategies to claim rights and new civic roles are tested and rehearsed ... present[ing] insights ... into how citizenship is performed and thereby changed.[18]

Mae'r weledigaeth hon yn cefnogi gweledigaeth Birringer o bŵer a pherthnasedd perfformio fel modd cadarnhaol o archwilio tensiynau cyfredol o gylch hunaniaethau diwylliannnol, cymdeithasol a gwleidyddol. Efallai mai hyn felly yw cyfraniad arwyddocaol *Sisters* i'r ymdrech gyfoes i symud heibio i'r cyfnod arbennig o densiwn cynyddol am ein hunaniaethau, ein cenedligrwydd a'n dinasyddiaeth mewn cymunedau ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif?

Pa fath o gynhyrchiad a gafwyd felly? Mae *Sisters* yn cyflwyno agweddau gwahanol ar brofiadau lliaws o gymeriadau a glymir ynghyd gan y cysyniad o hunaniaeth genedlaethol. Er nad oes yma ddilyniant llinynnol rhwng un cipolwg ar brofiad a'r cipolwg nesaf, ceir naratif storïol, cadarn ac mae'r cynhyrchiad yn defnyddio geiriau, testun ac iaith lafar ac ysgrifenedig fel conglfaen y creu. Y cwestiwn cyntaf sy'n dod i'r meddwl wrth ymateb i'r cynhyrchiad yw, pam nad yw'n fwy radical, yn fwy beiddgar ac arbrofol yng nghyd-destun ei fethodoleg gyflwyniadol? Mae dadansoddiad Birringer o botensial celfyddyd i fynegi canfyddiad cyfoes o genedligrwydd fel profiad cadarnhaol o ddieithrwch a fynegir 'ar y cyrion' mewn cyd-destun daearyddol, corfforol a chymunedol yn fan cychwyn beiddgar sy'n cynnig ac yn galw am ddulliau cyflwyniadol newydd. Pam felly y bu i *Sisters* ddefnyddio

[17] Ibid.

[18] Hildebrandt, P., et al. (2019), *Performing Citizenship: Bodies, Agencies, Limitations* (Hamburg: Palgrave Macmillan), t. 1.

dulliau syndod o gonfensiynol er mwyn mynegi cymhlethdod ac ehangder profiadau diwylliannol ei chyfranogwyr? Pam y ddibyniaeth ar eiriau ac ar destun, a pham cyfyngu'r cyflwyno i *repertoire* traddodiadol o ystumio corfforol, edafedd storïol, llinynnol ac i ddehongliad gofodol, cynrychioladol, syml? Os taw profiad cyfoes, rhywle y tu hwnt a thu draw i gyfeirbwynt ôl-fodernaidd oedd y dechreubwynt yma, sut y bodlonwyd ar fethodoleg gyflwyniadol fodernaidd ei naws a'i hanfod?

Mae'r cynhyrchiad yn gyfuniad o ddarnau dramataidd sy'n cynnwys monologau, cerddi dramataidd, darnau deialog, a darn agoriadol lle y clywir llais unigol ar gefnlen sylwebaeth gorws. Mae'r ffocws a'r pwyslais ar ddatgan, darbwyllo a dadlau a'r prif gyfrwng heb os nac oni bai yw'r sgript. Agorir y cynhyrchiad gyda datganiad bachog a chrafog sy'n heriol yng nghyd-destun rhai o'r cwestiynau a ofynnir gan y *Chai Wali*, sef llais benywaidd, deallus a doniol:

> So, how did we get here tonight you must be wondering? Once upon a time there was a Queen of England whose subjects went all over the world to trade. They sent back the treasures from our land and realized that if they wanted more swag they would have to rule over the people and loot the country seemingly legitimately. This they cleverly managed to do for several hundred years ... Then 70 years ago they decided they were leaving and drew a line on the map and divided the country they had colonised; setting peoples of different religions against each other. Millions died, many travelled here to rebuild this small island from the ravages of the big wars ... But this ... [m]erely the back drop of how my Sisters have been separated and now come together ... to have this big conversation.[19]

Wrth i'r cynhyrchiad ddatblygu, aiff y lleisiau'n fwynach. Mae *Mumbai Tid bits* yn glytwaith o ddeialog ffraeth sy'n canolbwyntio ar fwyta a choginio fel mynegiant dramataidd o wahaniaethau a ffiniau dosbarth, heriau o gylch symudedd byd-eang a thwristiaeth ddiwylliannol. Hefyd, ceir yma rywfaint o drafodaeth ynghylch natur ac anhawster creadigrwydd wedi ei fframio'n ddifyr yng nghyd-destun gofynion y cydweithio celfyddydol ffurfiol rhwng *Junoon Theatre Mumbai* a'r Cyngor Prydeinig a Llywodraeth India wrth iddynt gyd-ddathlu 70 mlynedd o annibyniaeth i India.

> **Choiti** (to **Sapan**): So saali when are you giving script? Nothing you have done?
>
> **Sameera:** Kully said to give them freedom. In India you have to give people deadlines!
>
> **Sudha:** We do have a deadline. We've missed it several times!

[19] Ym mhob achos, dyfynnir o ddeunydd sgript a adawyd yn sgil y perfformiad ac a fenthycwyd i'r awdur gan NTW. Awduron y sgript yw Sudha Bhuchar, Sapan Saran a gweddill aelodau'r cwmni.

> **Choiti:** You should ask me. I'll write it for you.
>
> **Sudha:** So, tell me about your 'object' theatre. How does it work?
>
> **Choiti:** Pay me na ... then I can do for you!
>
> **Sapan:** (meaning Sudha) She'll give na ... She's the Angrez! Loaded!

Ceir yma flas diwylliannol pendant a drosglwyddir yn gymaint trwy thema'r '*pot luck lunch*'; '*different daals, two types of paneer sabzi, rice and kadhi and fresh chappatis/ and on*' â'r ieithwedd unigryw sydd yn fratiaith Saesneg, gymalog, hoenus. Daw'r ddrama o ryngweithio'r cymeriadau, ar lafar, ac o'u bywiogrwydd a'u brwydro dros eu safbwyntiau diwylliannol a chelfyddydol gwahanol, ond ni cheir yma ddim byd ar droed o safbwynt theatraidd; dim byd mwy na hogi ychydig bach ar lafn yr ymryson geiriol.

Mae *Welsh Monologues* yn fath ar gerdd neu ymson a aiff i'r afael ag arwahanrwydd a chymuned ar yr un pryd, gan gynnig datganiad o blaid hunaniaeth hylifol. Mae'r fethodoleg fewnol, hunangyfeiriannol yn wahanol iawn i ffraethineb byw, rhyngweithiol *Mumbai Tid bits* a gallai gynnig cyfle i ddadlennu agweddau mwy dirgel o'r profiad benywaidd dan sylw. Ond moment yn unig o fewnwelediad a gynigir ac anodd gweld bod hynny'n ddigon o sbardun i ysgogi naill ai gyd-berfformwyr neu gynulleidfa i, '*get a chance as a collective to address that*'. Ceir cyfuniad diddorol o ieithweddau gwrthgyferbyniol yn adran *Lessons on Otherness*, lle y cyfunir adroddiadau a dehongliadau technegol ac athronyddol o brif themâu megis arwahanrwydd, arallrwydd a hunaniaethau cymdeithasol, ochr yn ochr â drama am bwyllgora sy'n chwalu'r cysyniad bod gorthrwm yn beth a berthyn i'r mewnfudwr neu'r gwladychwr:

> **Sapan**: So, here I am. It's Sunday morning. I've just woken up. I have a performance this evening. But here I am looking for a kurta that I can wear to the meeting ...
>
> So what is a society meeting? Typically a room full of men – heads of families, no less, and two or three women ... mostly middle aged. They sit around on plastic chairs in a 10 ft by 10 ft room and discuss ... Problems.
> Electricity problems.
> Water problems ...
> Perrrrfect.
> My no cleavage – no legs look.
>
> You don't want to piss anyone off. You just want to get your house done. I'll just walk down – smile ... be nice ... polite ... hello, hi, I'm Sapan ... from 733?
>
> I can deal with the men staring. It's the women!! Arghhhhh the looks they give.

Mae'r gwahanol leisiau a'r dulliau o fynegiant dramataidd yn cydweithio i greu darlun cyfoethog ond nid un sy'n ysgytwol nac yn heriol mewn cyd-destun testunol na chwaith un methodolegol. Er nad oes amheuaeth bod cyfranogwyr *Sisters* yn dra ymwybodol o heriau moesol achlysur y dathlu (cofnodi 70 mlynedd o annibyniaeth i India ar y naill law, a'r prosiect partneriaeth rhwng NTW a *Junoon Theatre Mumbai* ar y llall) nid oes dim i awgrymu bod *Sisters* yn gweithredu ar egwyddorion creadigol cyfoes Johannes Birringer.

Wedi dweud hynny, mae un agwedd ar y cynhyrchiad yn ysgytwol ac unigryw i'r graddau ei bod yn cyfnewid methodolegau dramataidd, disgyrsiol, y cyfanwaith am ddulliau theatraidd, trawsffurfiannol nad ydynt yn gyson nac yn draddodiadol o ran amser na gofod. Mewn adran a elwir yn *Anon*, cyflwynir digwyddiad trawsffurfiannol sy'n dychryn cyfranogwyr a chynulleidfa fel ei gilydd. Mae'r adran hon o'r clytwaith yn cychwyn yn ddigon nodweddiadol gyda thrafodaeth Pirandellaidd am gynrychiolaeth ac awdurdod wrth greu:

> **Writer**: (*To the audience*) For most of history 'Anonymous' was a woman.
>
> *The WRITER is waiting. An ASSISTANT brings a chair.*
>
> **Writer**: (*To the Assistant*) Ah thank you. Excuse me. How much time?
>
> *Assistant gestures "5-10 minutes"*
>
> **Writer**: 'For most of history "Anonymous" was a woman' said Virginia Woolf.
>
> I am here for an interview on Marathi female writers writing in English ...
> I thought I would open the conversation with Virginia Woolf. But I can't choose between her and Maya Angelou.
> You know Baba sahib? I want to quote him but my husband said you should do something different in this interview. Quote English writers.

Ond yn sydyn iawn, mae'r rhythm dramataidd, cyson wedi ei gyfnewid am ruthr o weithgaredd theatraidd wrth i bâr ifanc feddiannu'r llwyfan gyda'u hofn, eu hunigedd, eu nwyd a'u hangen. Maent ar ffo ac yn ceisio lloches mewn tŷ bach. Yn sŵn eu trafod, dadlennir byd diamser, diofod lle y rhyddheir geiriau i ganfod a chyrraedd mynegiant arall, cymhleth, amlhaenog:

> Seema: I have known you only for 27 days.
> Varun: 28. If you count the rally day.
>
> *Silence.*
>
> Seema: I miss Ma's food ... Koshimbeer
> You know she made it so well ... she got the curd just right ..! Just the right amount of water and salt.

> Varun: I miss Daalimbichi Usal
> Seema: Bajra-Thecha ... ummm ...
> Varun: Shrikhand poori
> Seema: Dahi-bhaat
> Varun: Varan
> Seema: Kurdya ... Ohhhh ...
> Varun: Ukadi che Modak
> Seema: Everyday?
> Varun: What?
> Seema: Do you eat them everyday?
> Varun: Modak? ... Aai serves them everyday... they are always on the dining table ... You?

Tra bod thema'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y profiad synhwyrus o flasu a mwynhau bwyd, mae'r pwyslais ar ynganu rhythmau a chreu cymalau o gytseiniaid a llafariaid oddi mewn a rhwng brawddegau yn herio'r broses arferol o ganfod, cyfleu a deall ystyr trwy iaith, gan ein cyfeirio at fath arall o lythrennedd sy'n ddibynnol ar gyd-sawru a chyd-brofi. Tamaid i aros pryd efallai! Os felly, go annisgwyl yw'r pryd a gyflwynir wrth i synhwyrusrwydd annwyl y berthynas garu rhwng y ddau ifanc, Varun sy'n Brahmin a Seema sy'n Dalit, ddatblygu'n hunllef. Wrth i'r olygfa ddatblygu, mae'n gynyddol aneglur pwy sy'n rheoli realiti'r presennol. Wrth i'r awdur/ysgrifennwr ddadlau â Seema er mwyn ei hachub rhag y tranc sy'n prysur agosáu, daw'n glir ei bod yn colli gafael ar awennau'r digwydd yn ara' deg;

> **Seema**: I love Baba Saheb as much as you do. But I don't think he would want me to remember him by forgetting myself.
>
> Or wait ... is it you?
>
> **W**
>
> **Seema**: Is it you who feels uncomfortable writing about your sexual desires? Because a dalit woman can only write about Babasaheb and the dalit movement?
>
> *The writer is stunned into silence ...*
>
> **Writer** (*withdrawing from the conversation*): You have run out of time. They will be here any moment.

Wrth i'r awdur ymddieithrio o'r digwydd, gan gilio i gysur gwael y farwnad y gall ganu i'r ferch ifanc yn wyneb gorthrwm ciaidd y drefn gymdeithasol, gadewir y gynulleidfa yn ddiamddiffyn rhag uniongyrchedd y profiad deallusol a synhwyrus o'u blaenau:

**Writer**:
They are four of them.
All men.
An axe, A knife.
Two sticks, A sickle.
They break the door open.
You are on the floor: naked and in giggles.

...
The first blow comes with a sound.
Thud !
Your right knee is broken without a word.
Attacks from a large rock come third and fourth.
Both legs. Immobile now.
You crawl. Somehow.

The axe comes next. Three times.
Slashes the arms.
Chops the left breast then right.
Three times.

And finally the turn of the damned *cunt*
A rod thrust all the way to the base of the spine.
You're done.
You are now alive only in the head.
Lying on your dismantled body bed.

You die ... slowly ... bit by bit ...
Bones breasts blood gore meat.

They leave.

Wrth i'r trais ddod i ben, daw Seema i gysuro'r awdur/ysgrifennwr ac yr ydym ninnau'n methu â chanfod man diogel a fyddai'n lloches i'n hymdrechion i leoli a rheoli'r digwyddiad:

*Seema exits smiling gently.*
*Writer collapses.*

Fe'n gadewir yn gofyn, pwy sy'n perchnogi'r digwyddiad, pwy sy'n dioddef ac yn derbyn ei ganlyniadau? Os nad Seema ei hun, os nad yr awdur chwaith, yna pa dystion sy'n weddill a beth yw gwir ystod cyfrifoldeb eu swyddogaeth fel tystion? Os ydyw *Sisters* yn cyflwyno

profiad gweddnewidiol yng nghyd-destun y cysyniad o theatr fel modd o symud o un cyflwr i gyflwr arall, neu'r cysyniad o berfformio fel 'lle' lle y gall gweddnewidiad ddigwydd, yna dyma lle y cyflawnir hynny.

Wedi bwrw ati i drafod swmp a sylwedd y cynhyrchiad fel hyn, dylid nodi mai unwaith yn unig y'i perfformiwyd, ar un achlysur yng Nghaerdydd, ar nos Wener, 4 Ebrill 2018. Yng ngeiriau un o'r cyfranogwyr:

> There's only 1 performance ... I know. What a waste ... But something more will come out of it.[20]

A dweud y gwir, ni lwyddais i fynd i achlysur ynysig y perfformiad ac felly mae fy ymateb iddo wedi ei gynnull o blith casgliad o dystiolaeth ddarniog, sef fideo o'r cynhyrchiad, yr hyn o'r sgript a oedd ar gael wedi'r cynhyrchiad, dogfennau yn cofnodi trafodaethau cyfranwyr wedi'r cynhyrchiad, rhaglen y cynhyrchiad a datganiadau cenadwri a wnaethpwyd wrth fynd ati i gyhoeddi a lansio'r prosiect. Wrth reswm, mae gwefr benodol ynghlwm wrth berfformiad byw ac mae'n anodd, os nad yn amhosibl, i ail-greu uniongyrchedd y berthynas rhwng cynulleidfa a digwyddiad byw. Eto i gyd, wrth drafod '*the problematic of a person ... doing work on performances you have not seen [in person]*',[21] mae Amelia Jones yn dadlau'n gryf o blaid dichonolrwydd ymateb eilaidd. Yn y bôn, mae'n gwrthod yr honiad fod modd i berfformio fod yn wirioneddol uniongyrchol, ac yn haeru nad oes y fath beth â pherthynas freintiedig, ddilys â gwirionedd hanesyddol unrhyw berfformiad. Mae Jones yn rhoi gwerth cyfwerth ar arbenigedd gwybodaeth sy'n dellio o'r broses archifol o gynnull tystiolaeth am berfformiad a'r gwybodaeth a gesglir trwy dystiolaethu i berfformiad, neu gyfrannu'n gorfforol ato:

> Although I am respectful of the specificity of knowledges gained from participating in a live performance situation, I will argue here that this specificity should not be privileged over the specificity of knowledges that develop in relation to the documentary traces of such an event.[22]

Mae sylwadau Jones yn berthnasol i'm trafodaeth innau o *Sisters* ar lefel gwbl bragmataidd, a hynny am na welais i mo'r perfformiad a lwyfannwyd yn Theatr y Sherman, 4 Ebrill 2018. Ond nid cyhuddiadau o ddiffyg cywirdeb (moesol neu gelfyddydol!) sydd o'r pwys pennaf yng nghyd-destun dadl Jones, ond yn hytrach ei chyflwyniad o statws diamheuol y wybodaeth sy'n deillio o berthynas archifol â pherfformiad yng nghyd-destun ei gyfraniad at ddatblygiad cysyniad o berfformio a pherfformiad ôl-fodernaidd. Yr hyn a ddadleua Jones

[20] <https://www.walesartsreview.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].
[21] Jones, A. (1997), '"Presence" in Absentia: Experiencing Performance as Documentation', *Art Journal*, 56 (4), gaeaf, 11.
[22] Ibid., 12.

yw bod celfyddyd gyfoes (celfyddyd y corff neu gelfyddyd berfformiadol yn benodol) yn chwalu'r syniad fod yr hunan goddrychol yn endid cadarn, llonydd, modernaidd. Wrth sôn am weledigaeth ddirdynnol Antonin Artaud o theatr arloesol, radical a fyddai'n ymwrthod ag egwyddorion gofodol theatr realaidd ac yn bathu perthynas agos ac uniongyrchol, rhwng cynulleidfa a pherfformiad byw, dywed Jones:

> I return ... to Artaud's vibrant text, radical in its own time, to stress the point that such a desire for immediacy is, precisely, a modernist (if in this case also clearly avant-garde) dream. In this fin-de-millennium age of multinational capitalism, virtual realities, postcolonialism, and cyborg identity politics ... such a dream must be viewed as historically specific rather than epistemologically secure.[23]

Mae ffocws Jones ar botensial perfformio i fynegi ac ymgorffori '[the] *dispersed, multiplied, specific subjectivities of the late, capitalist, postcolonial modern era*' yn rhinwedd ei fethiant cynhenid i osgoi'r profiad eilaidd, naill ai, drwy wylio perfformiad neu drwy ail-fyw/ail-greu perfformiad. Ei haeriad sylfaenol yw bod '*the intersubjectivity of the interpretative exchange*' yn agwedd anorfod ar unrhyw gelfyddyd neu berfformiad corfforol a bod modd i hynny agor cil y drws ar fframweithiau newydd o oruchafiaeth a fyddai'n disodli'r '*modernist assumption of authorial plenitude*',[24] lle y mae corff y perfformiwr (yn hytrach na'r berfformwraig) yn enghreifftio'r perfformiad a *vice versa.*

Yng nghyd-destun *Sisters*, mae dadl Jones yn dilysu fy sefyllfa i fel un sy'n cynnig tystiolaeth achlust, ail law, am berfformiad nas gwelwyd yn fyw, ond yn bwysicach fyth, mae'n cynnig modd o ddarllen a dehongli archif y perfformiad o safbwynt ôl-fodernaidd, ôl-genedlaetholgar ac ôl-drefedigaethol. Mae methodoleg ddadansoddiadol Jones, sydd wedi ei gwreiddio yn yr egwyddor o benodrwydd amlryw, amlwedd ac amlberson yn adleisio canfyddiad Birringer o botensial celfyddyd i fynegi profiad cadarnhaol o ddieithrwch sy'n digwydd 'ar y cyrion' mewn cyd-destun daearyddol, corfforol a chymunedol. At hyn, mae gweledigaeth Jones hefyd yn cynnig perspectif benywaidd/ffeministaidd ar y weithred berfformiadol gyfoes, gan gychwyn rhyddhau un edefyn mewn pelen dynn a chyhyrog o hunaniaethau a fframweithiau goruchafiaethol, llonydd, cadarn a gwrywaidd. A oes yma allwedd i ddehongli olion archaeolegol *Sisters* yng nghyd-destun sylw Sapaan; '*there are not that many spaces where you reveal yourself as a woman in an introspective manner and get a chance ... as a collective to address that*'?[25] Os oes yma berspectif benywaidd sy'n mynegi safbwynt **arall** oddi mewn i fframwaith sydd wedi ei gynllunio ac yn gweithredu o berspectif gwrywaidd yn wleidyddol ac yn gelfyddydol, yna ceir yma wyro oddi ar y llwybr cyson i ddadlennu profiadau lluosog. Mae'r cysyniad o ddadlennu profiad mewnol, a hynny

---

23 Ibid., 17.
24 Ibid., 14.
25 <https://www.walesartsreview.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

heb unrhyw ymgais i gyfiawnhau dilysrwydd neu gyfreithlondeb cymunedol y profiad hwnnw, hefyd yn wyriad. I ddychwelyd at sylw Seemar efallai: '*All of the different artists that have been involved will find different ways of using the material they have encountered whether or not NTW is involved moving forward*'.[26] Mae ei sylwadau yn atgyfnerthu'r ffaith nad oedd *Sisters* yn waith gorffenedig nac yn waith a orffennwyd. Os felly, gall archwiliad o'r perfformiad o safbwynt eiladd, safbwynt sy'n ddibynnol ar dystiolaeth archifol, ddarniog, gynnig y modd mwyaf cymwys o gloriannu ei ddylanwad a'i gyfraniad at weledigaeth gyfoes o berfformio fel '*a conceptual structure of operations for projects that did not necessarily take place in one location nor need to be identified with the same members*'.[27]

'[W]ork-in-progress performance'[28] oedd *Sisters* a'r hyn a wnaeth oedd gwrthdroi rhai o gonfensiynau gwaelodol theatr a'r wladwriaeth genedlaethol; statws y sefydliad theatr genedlaethol, awdurdod y testun dramataidd yn ogystal â fersiwn arall o oruchafiaeth theatraidd, sef grym y corff a'r ystum ym maes perfformio safle penodol, arbrofol. Efallai nad oedd *Sisters* yr hyn a ddisgwyliem ar lwyfan cenedlaethol, neu, efallai, nad oes arnom angen llwyfan genedlaethol ar hyn o bryd – o leiaf, nid yng nghyd-destun nac ar wedd draddodiadol. Tybed ai un o negeseuon *Sisters* oedd nad ydym ni bellach yn brwydro yn erbyn y '*static past – we are not static, we are nobody's past – we are as much our present as everybody else has their present*'.[29] Credaf y gellir haeru bod *Sisters* yn cyflwyno math o berfformio ac o berfformiad nad yw'n fwy na'r weithred o fod yn 'bresennol'; gweithgarwch theatraidd sy'n troi gwerthoedd sylfaenol, traddodiadol cynhyrchu a chynyrchiadau ar eu pennau. Yr hyn a gynigiodd NTW i *Sisters*, neu'r hyn a gyflawnodd *Sisters* ar ran NTW, oedd rhoi llais, lliw a llun i symudiad neu dro cysyniadol. Cyflwynwyd symudiad ymaith rhag dinasyddiaeth a fframiwyd ac a feithriniwyd gan '*the nation state as a framework of constitutional rights and obligation enforced by law and related institutions*' tuag at ddinasyddiaeth, '*in the making … across thresholds of legal and political institutions … social conventions, disciplinary competences and discourses and attributions of race, class, culture and gender*'.[30]

---

[26] Ibid.

[27] Birringer, J. (2000), *Performance on the Edge: Transformations of Culture*, t. 6.

[28] <https://cdn.nationaltheatrewales.org/wp-content/uploads/2018/02/NationalTheatreWales_Sisters_Programme_ART-copy.pdf> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

[29] <https://www.walesartsreview.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

[30] Hildebrandt, P., et al. (2019), *Performing Citizenship: Bodies, Agencies, Limitations*, t. 3.

## Llyfryddiaeth

Birringer, J. (2000), *Performance on the Edge: Transformations of Culture* (London: Athlone Press).

Egley, S. (2011), 'The experience of Polish Migrant workers' children studying in Welsh schools', *Educational Transactions*, Prifysgol Bangor, 57–76.

Evans, G. (2013), 'Theatr Ôl-ddramataidd', yn Jones, A., a Lewis, L. (goln), *Ysgrifau ar Theatr a Pherfformio* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Fisher-Lichte, E. (2002), Cyfieithiad Jo Riley, *History of European Drama and Theatre*, (London: Routledge).

Hildebrandt, P., et al. (2019), *Performing Citizenship: Bodies, Agencies, Limitations* (Hamburg: Palgrave Macmillan).

Jones, A. (1997), '"Presence" in Absentia: Experiencing Performance as Documentation', *Art Journal*, 56 (4), gaeaf, 11–18.

Jones, D. R. (2015), 'Mwslemiaid yn y Gymru wledig: datgysylltiad, ffydd a pherthyn', *Gwerddon*, 19, 9–27.

Lewis, Lisa (2018), *Performing Wales: People, Memory and Place* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lewis, L. (2019), 'O'r ddrama gymdeithasol i'r pasiant: theatr yn y gyfnewidfa ddiwylliannol rhwng Cymru a gogledd-ddwyrain India', *Gwerddon*, 29, 28–58.

Morgan, W., a Brask, P. (1988), 'Towards a Conceptual Understanding of the Transformation from Ritual to Theatre', *Anthropologica*, 30 (2), 175–202.

Owen, Roger (2003), *Ar Wasgar: Theatr a Chenedligrwydd yn y Gymru Gymraeg 1979–1997* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Roms, H. (2008), *What's Welsh for Performance: An Oral History of Performance Art in Wales 1968–2008* (Berlin: OpenMute Press).

Williams, R. (1887), *Drama from Ibsen to Brecht* (London: Hogarth Press).

## Gwefannau a deunyddiau digidol

'About UK – India Year 2017' (2017), <https://www.britishcouncil.in/programmes/uk-india-2017/about> [Cyrchwyd: 16 Ebrill 2019].

'Behind the Scenes at NTW's "Sisters"' (2018), <https://www.walesartsreview.org/podcast-behind-the-scenes-at-ntws-sisters/> [Cyrchwyd: 27 Ionawr 2020].

'Meera Syal on the UK/India Year of Culture' (2017), <https://www.britishcouncil.in/programmes/uk-india-2017/about> [Cyrchwyd: 22 Ebrill 2019].

<https://cdn.nationaltheatrewales.org/wp-content/uploads/2018/02/NationalTheatreWales_Sisters_Programme_ART-copy.pdf> [Cyrchwyd: 2 Mai 2019].

<https://www.nationaltheatrewales.org/cy/> [Cyrchwyd: 5 Mai 2019].

<http://theatr.cymru/> [Cyrchwyd: 14 Mehefin 2019].

# Defnydd hanesyddol a chyfoes o 'mynd i' yn y Gymraeg: Astudiaeth o ramadegoli fel newid ieithyddol

Peredur Webb-Davies a Christopher Shank

*Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Iaith Saesneg, Prifysgol Bangor*

Cyflwynwyd: 22 Chwefror 2018; Derbyniwyd: 3 Medi 2019

**Crynodeb:** Adwaenir y defnydd o ferfau symud i gyfleu'r dyfodol yn drawsieithyddol fel enghraifft o ramadegoli (*grammaticalization*), sef lle bo strwythur yn newid dros amser i fod yn llai diriaethol ac yn fwy gramadegol. Dadansoddir nifer o gorpora hanesyddol a chyfoes o'r Gymraeg mewn modd ansoddol er mwyn adnabod datblygiad diacronig o 'mynd i' er mwyn cyfleu'r dyfodol yn yr iaith Gymraeg. Gwelir rhai enghreifftiau o'r ffurf ramadegoledig o 'mynd i' mewn testunau o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg, gan ddangos bod y broses o ramadegoli wedi dechrau o leiaf 500 mlynedd yn ôl, ond ni ddaeth y strwythur yn flaenllaw tan yr ugeinfed ganrif. Dadleuir bod hyn yn enghraifft o ddylanwad gramadeg y Saesneg, sydd â'r ymadrodd *BE + going to* a fu hefyd drwy broses o ramadegoli hanesyddol, ac y bu cynnydd mewn dwyieithrwydd yn ystod yr ugeinfed ganrif yng Nghymru yn ffactor yn y broses o normaleiddio'r ffurf wedi ei ramadegoli. Trafodir sut mae sefyllfa'r strwythur Cymraeg hwn yn datblygu ein gwybodaeth o effaith cydgyffwrdd ieithyddol (*language contact*) ar ramadegoli.

**Allweddeiriau**: Cymraeg, ieithyddiaeth, gramadegoli, newid ieithyddol, dwyieithrwydd.

## Historical and contemporary use of *mynd i* (go to) in Welsh: A study of grammaticalization as language change

**Abstract**: The use of verbs of motion to express futurity is recognized cross-linguistically as an example of grammaticalization, whereby a construction changes over time to be less concrete and more grammatical. A number of historical and contemporary Welsh corpora are qualitatively analysed in order to identify the diachronic development of *mynd i* (going to) to express the future in Welsh. Some examples of the grammaticalized form of *mynd i* are found in texts from the sixteenth and seventeenth century, indicating that the grammaticalization process started at least 500 years ago, but the construction does not become prominent until the twentieth century. It is argued that this is an example of the influence of English grammar, where 'BE + going to' has also historically gone through a process of grammaticalization,

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

and that an increase in bilingualism in Wales in the twentieth century has been a factor in normalising the grammaticalized form. A discussion is provided of how the situation of this Welsh construction informs our knowledge of the effect of language contact on grammaticalization.

**Key words**: Welsh, linguistics, grammaticalization, language change, bilingualism.

## 1. Cyflwyniad

Math o newid ieithyddol sydd i'w weld ar draws ieithoedd y byd yw gramadegoli (*grammatialization*), lle bo gair neu ymadrodd yn newid dros amser o gael ystyr diriaethol, geiriol, i gael ystyr mwy gramadegol. Yn yr erthygl hon, ystyrir achos o ramadegoli yn y Gymraeg, sef newid diacronig yn nefnydd 'mynd i' + berfenw o olygu dim ond symudiad drwy ofod i allu mynegi'r amser dyfodol hefyd.

Ceisir ateb y cwestiwn hwn drwy olrhain hanes yr ymadrodd hwn ar draws gwahanol gorpora o ddata ysgrifenedig Cymraeg sy'n rhedeg o'r Cyfnod Modern Cynnar (1500au) hyd at yr unfed ganrif ar hugain. Yna, defnyddir dull ansoddol er mwyn datrys sut y digwyddodd y newid hwn ar draws amser, gan ystyried i ba raddau y bu cydgyffwrdd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg – a oedd wedi mynd drwy newid tebyg ei hun, fel yr amlinellir isod – yn ffactor y tu ôl i'r newid hwn yn y Gymraeg.

Gellir defnyddio 'mynd i' mewn Cymraeg cyfoes i gyfleu sawl gwahanol ystyr: SYMUD TUAG AT RYW NOD, BWRIAD neu'r AMSER DYFODOL. Mae'r brawddegau dyfeisiedig yn (1)–(3) isod yn enghreifftiau o'r gwahanol ystyron hyn.

(1) Dw i'n mynd i Gaernarfon – SYMUD TUAG AT RYW NOD
(2) Dw i'n mynd i brynu bara – BWRIAD
(3) Dw i'n mynd i farw – AMSER DYFODOL

Ym mrawddeg (1), mae'r strwythur yn cynnwys yr ymadrodd 'mynd i' sy'n cael ei ddilyn gan enw (Gaernarfon), a'r unig ystyr sydd gan y frawddeg hon yw 'rydw i'n symud i gyfeiriad Caernarfon'. Yn (2), mae 'mynd i' yn cael ei ddilyn gan y ferfenw *siopa*, a gellir dehongli'r frawddeg fel 'rydw i'n bwriadu mynd i brynu bara', gyda'r ystyr ychwanegol posibl o symud tuag at y siop er mwyn prynu bara. Mae 'mynd i' yn (3) yn cael ei ddilyn gan y ferfenw 'marw', ond mae'n amlwg nad oes modd dehongli'r ystyr o symud yma, gan mai gweithred ddisymud yw marw, a hefyd mae'n annhebygol fod rhywun yn bwriadu marw. Felly, yr unig beth sy'n cael ei gyfleu gan 'mynd i' yn (3) yw bydd y weithred yn digwydd yn y dyfodol.[1]

Fel y gwelir yn enghraifft (2), mae'n anodd gwahanu'r ystyr o fwriad oddi wrth yr amser dyfodol yn achos rhai berfenwau, gan fod bwriad i wneud rhywbeth yn y dyfodol yn aml yn

[1] Mae ffyrdd eraill, wrth gwrs, o gyfleu'r amser dyfodol mewn Cymraeg, megis ***byddaf*** *yn marw*.

mynd law yn llaw â gwneud y weithred honno, ond gall hyn ddibynnu ar y goddrych a/neu'r weithred: e.e. mewn brawddeg fel 'mae'r car yn mynd i redeg allan o betrol', mae'n eglur nad oes gan y car unrhyw fwriad i redeg allan o betrol, felly nid oes modd cael dehongliad o fwriad yma, dim ond y bydd y weithred yn digwydd rywbryd yn y dyfodol.[2]

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ymchwil manwl o'r newid yn ystyr 'mynd i' yn y Gymraeg. Ceir un diffiniad yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru (GPC) o 'mynd' + 'i' yn dynodi 'bwriad, tebygolrwydd, dechrau gweithred', a rhoddir enghreifftiau o Gymraeg Canol Cynnar o'r ferfenw 'myn(e)d' (neu ffurf gryno ar y ferf honno) + 'i' o flaen berfenw er mwyn cyfleu bwriad (hyd eithaf ein dehongliad ni). Rhoir enghreifftiau fel 'pan **elei** dy dat **e** helya' [h.y. 'elai ... i hela'] (Llyfr Aneirin 22:14, trydydd ganrif ar ddeg) ac 'A'r eryr a erchis idi **vynet y** echwynna pluf' [h.y. 'iddi fynd i echwynna' ('benthyg')] (Chwedlau Odo 1, c.1400). Enghreifftiau o symud drwy ofod – gan wneud gweithred – yw'r rhain: maent yn bwysig fel tystiolaeth bod 'mynd i' yn cael ei ddefnyddio o gyfnod cynnar yn hanes y Gymraeg mewn cyd-destunau berfol, gan mai datblygiad o'r defnydd hwn sydd wrth wraidd y defnydd ohono i gyfleu'r dyfodol. Hyd y gwelir, ni cheir unrhyw enghreifftiau yn GPC o 'mynd i' yn cyfleu'r dyfodol cyn 1500, ac yn wir nid yw GPC yn ystyried bod 'mynd i' yn cyfleu'r dyfodol fel y cyfryw. Mewn disgrifiadau ieithyddol o Gymraeg cyfoes, nid yw'r defnydd o 'mynd i' er mwyn cyfleu bwriad neu'r dyfodol yn tueddu i gael ei grybwyll (e.e. nid oes cyfeiriad ato yn Thomas 1996; Borsley et al. 2007).

Mae'r gwahanol ddefnydd ystyrol o ferfau symud i'w gweld mewn ieithoedd eraill. Mae'r strwythur *BE + going to* yn y Saesneg, er enghraifft, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ystyron tebyg i'r rhai Cymraeg uchod, fel a welir yn y brawddegau (4)–(6) isod, a luniwyd gan yr awduron:

(4) I am going to Caernarfon – SYMUD TUAG AT RYW NOD
(5) I am going to buy bread – BWRIAD
(6) I am going to die – DYFODOL

Mae nifer o awduron eisoes wedi adnabod nad oedd y tri defnydd hyn wastad yn bodoli yn y Saesneg. Mae Mair (2004) yn nodi nad oedd unrhyw ystyr i *BE + going to* heblaw SYMUD (TUAG AT RYW NOD) yng nghyfnod cynnar yr iaith Saesneg. Mae Mair yn nodi bod yr enghraifft gynharaf o ddefnydd o *go(ing) to* gyda berf yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfleu BWRIAD/DYFODOL yn ymddangos yn y bymthegfed ganrif yn ôl yr *Oxford English Dictionary* (OED), gyda'r defnydd yn dechrau dod yn gyffredin (yn dros hanner yr enghreifftiau y mae Mair yn eu dadansoddi) erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg ac yn parhau i ddod fwyfwy cyffredin dros y canrifoedd canlynol, gyda'r ffurf gywasgedig lafar *gonna* yn gyffredin. Ystyrir bod brawddegau fel *the tree is gonna lose its leaves* (Bybee et al. 1994) yn gwbl

[2] Ystyrir y gellir defnyddio gwahanol ymadroddion adferfol yma er mwyn mireinio'r ystyr – e.e. 'mae'r car yn 'mynd i' redeg allan o betrol **mewn munud/yfory/mewn saith niwrnod'** – felly nid yw'r ferf ar ei phen ei hun yn awgrymu pa mor bell i'r dyfodol y bydd y weithred yn digwydd.

dderbyniol mewn Saesneg cyfoes, er nad oes modd i goeden fwriadu colli ei dail, felly cyfleu'r amser dyfodol yn unig mae *going to* (*gonna*) mewn enghreifftiau o'r fath.

Noda Bybee (2006) fod y datblygiad hwn o newid mewn ystyr berfau ar y patrwm SYMUD (TUAG AT RYW NOD) > BWRIAD > DYFODOL wedi ei adnabod mewn sawl iaith (gweler isod) a'i fod felly'n '*universal*' neu'n gyffredin ar draws ieithoedd y byd. Yn sgil hyn, gellid dadlau ei fod yn newid rhagweladwy ym mhob iaith – h.y. os yw iaith yn arddangos defnydd o ferf 'mynd' gyda berf, yna mae'n debygol y bydd yn y pen draw yn cael ei defnyddio i gyfleu'r dyfodol hefyd.

Mae'r broses o newid uchod yn cael ei galw'n GRAMADEGOLI (*grammaticalization* neu weithiau *grammaticization*), sy'n broses o newid ieithyddol lle y mae gair neu strwythur yn troi dros amser o fod ag ystyr diriaethol a geiriol i gael statws fwy gramadegol a llai diriaethol (Traugott a König 1991). Yn achos *BE + going to* yn y Saesneg, cafwyd newid o gael ystyr llythrennol o SYMUD yn unig i gael ystyron ychwanegol o FWRIAD ag AMSER DYFODOL, er bod yr ystyr gwreiddiol o symud yn unig yn parhau fel opsiwn. Un cwestiwn ymchwil i ni felly yw: o ystyried y tebygrwydd rhwng beth sydd wedi digwydd i *BE + going to* yn Saesneg a'r opsiynau ar gyfer 'mynd i' yn y Gymraeg, ai gramadegoli sydd wedi digwydd i 'mynd i' yn y Gymraeg? Yr ail gwestiwn yw, os gramadegoli sydd yma, a oes modd esbonio pam fod hynny wedi digwydd?

## 2. Trosolwg o ramadegoli a chydgyffwrdd ieithyddol

Diffinnir gramadegoli fel a ganlyn:

> [T]he dynamic, unidirectional historical process whereby lexical items in the course of time acquire a new status as grammatical, morphosyntactic forms, and in the process come to code relations that either were not coded before or were coded differently. (Traugott a König 1991: t. 189)

Yng ngeiriau Heine a Kuteva (2005), mae gramadegoli'n broses sy'n arwain '*from lexical to grammatical and from grammatical to more grammatical forms*' (2005: t. 14). Hynny yw, dros amser mae rhyw air neu ymadrodd yn newid i gael defnydd mwy gramadegol neu systemaidd, a thrwy hynny'n symud y tu hwnt i'w ystyr llythrennol gwreiddiol. Mae strwythurau sy'n mynd drwy broses o ramadegoli'n tueddu i rannu nodweddion tebyg i'w gilydd (Heine a Kuteva 2005), gan gynnwys ehangu ystyr (gan greu ystyron newydd), lleihau ystyr (*semantic bleaching* yw'r term Saesneg, sy'n cynnwys colli manylder ystyr a/neu gyffredinoli ystyr), newid mewn categorïau gramadegol a lleihau seinegol (e.e. *going to > gonna*). Cam allweddol ar ddechrau'r broses yw bod rhyw ymadrodd yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun newydd (Heine a Kuteva 2005) – e.e. *going to* yn cael ei ddefnyddio cyn berf yn ogystal â chyn enw yn y Saesneg – sy'n sbarduno'r newid ystyr diacronig.

Mae gramadegoli'n broses sydd wedi cael ei harsylwi ar draws ieithoedd y byd. Enghraifft

gyffredin a roir yw datblygiad y gair *pas* yn Ffrangeg i fod yn forffem negyddol, fel yn y frawddeg *je ne sais pas* (dydw i ddim yn gwybod). Ystyr llythrennol gwreiddiol *pas* oedd 'cam', ac fe'i defnyddiwyd mewn brawddegau fel *je ne marche* ***pas*** (dydw i ddim yn cerdded **cam**) o gyfnod cynnar yn hanes y Ffrangeg. Ond dros amser, dechreuodd *pas* gael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau lle nad oedd modd dehongli'r ystyr 'cam', mewn brawddegau fel *je ne mange pas* (dydw i ddim yn bwyta), lle nad yw'r dehongliad (*dydw i ddim yn bwyta cam) yn bosibl. Gellir gweld enghreifftiau o brosesau gramadegoli cyffelyb ar draws gwahanol ieithoedd; e.e. ceir enghreifftiau o air am 'un' yn datblygu'n fannod mewn ieithoedd fel Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Groeg a Hebraeg tafodieithol (Bybee 2006). Un esboniad o hyn yw bod un iaith wedi dylanwadu ar y llall ym mhob achos, ond go brin bod Saesneg, er enghraifft, wedi effeithio ar Hwngareg yn y cyfnod hanesyddol dan sylw, felly mae'n rhaid gochel rhag cymryd yn ganiataol mai cydgyffwrdd ieithyddol yw'r rheswm.

Esboniad gwahanol yw bod y rhain yn brosesau sydd rywsut yn cyfleu tueddiadau cyffredinol (*universal*) ym mhob iaith (cf. Bybee 2006), lle bo newidiadau fel y rhai uchod i'w disgwyl mewn unrhyw iaith. Crybwylla Bybee fod gramadegoli cyffredinol yn dilyn llwybrau penodedig, lle bo un newid yn arwain yn naturiol ac yn rhagweladwy at newid arall. Mae Bybee yn trafod sawl llwybr posibl, gan gynnwys y Llwybr Symud (*Movement Path*). Mae newid yn dechrau ar y Llwybr Symud pan fo berf sy'n golygu 'symud tuag at rywle neu rywbeth' yn dechrau cael ei defnyddio gyda berf arall yn ogystal ag enw, e.e. nid yn unig *I am going to Wales* ond hefyd *I am going to travel*. Yn yr ail frawddeg, gellir dehongli bod rhyw fath o fwriad yma, h.y. bod y siaradwr yn bwriadu teithio. Os yw'r ystyr o fwriad yn dod yn ganolog i'r defnydd berfol hwn, yna'r cam nesaf ar y Llwybr Symud yw iddo gael ei ddehongli fel cyfleu'r dyfodol, gan fod cysylltiad clir rhwng y bwriad o wneud rhywbeth a'r dyfodol. Pan fo hynny'n digwydd, gellir dweud bod y broses o ramadegoli wedi ei chwblhau, ac y ceir ffurf ramadegoledig (*grammaticalized form*).

Gall gramadegoli felly fod yn broses o newid mewnol mewn iaith, sy'n digwydd oherwydd ailstrwythuro o ryw fath yng ngramadeg siaradwyr yr iaith dros gyfnod o amser. Ar y llaw arall, ceir rhywfaint o drafod yn y maes (e.e. Matras 2010; Heine a Kuteva 2005, 2010) ar ramadegoli sy'n deillio o – neu sy'n cael ei effeithio gan – gydgyffwrdd ieithyddol (Thomason 2001). O safbwynt y Gymraeg, mae'r iaith hon wedi bod mewn cydgyffyrddiad ieithyddol ag ieithoedd eraill, gan gynnwys Lladin, Ffrangeg a Saesneg, ers llawer o ganrifoedd. Ystyriwn y cydgyffyrddiad ieithyddol rhwng y Saesneg a'r Gymraeg yn enwedig (gw. e.e. Davies 2007): mewn sefyllfa ôl-drefedigaethol fel Cymru, lle mai'r iaith Saesneg oedd â'r bri hanesyddol a'i siaradwyr â'r grym cymdeithasol, gwelir heddiw bod yr holl siaradwyr Cymraeg yn ddwyieithog a bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol, a gellid disgrifio'r cyd-destun ieithyddol yn nhermau Thomason a Kaufman (1988) fel un o gydgyffyrddiad dwys lle y gall newidiadau iaith sylweddol ddigwydd oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol.

Mae Heine a Kuteva (2010) yn cyfeirio at ramadegoli a ddigwyddodd mewn sawl iaith megis Basgeg, Twrceg Falcanaidd (*Balkan*), a Pipil, iaith Astecaidd yn El Salvador, sef bod gair cwestiwn yn dechrau cael ei ddefnyddio fel morffem ramadegol i gyflwyno isgymal. Mae'r strwythur hwnnw yn gyffredin mewn nifer o ieithoedd Indo-Ewropeaidd (e.e. Cymraeg: mae

Huw'n gwybod **pwy** ddaeth; Saesneg: *Joe knows **who** came*) ac mae'r ieithoedd uchod mewn cydgyffyrddiad ieithyddol agos ag ieithoedd o'r teulu ieithyddol hwnnw: Basgeg gyda Sbaeneg, Gascon gyda Ffrangeg, Twrceg Falcanaidd gydag ieithoedd Balcanaidd eraill, Pipil gyda Sbaeneg. Meddai Heine a Kuteva, '*it is unlikely that a process from interrogative to subordination marker would have happened without language contact*' (2010: t. 90), ac felly bod angen cydgyffyrddiad ieithyddol rhwng un iaith ac iaith arall a oedd eisoes yn cynnwys y strwythur gramadegol hwn cyn i'r gramadegoli allu digwydd. Maent yn cyferbynnu rhwng dau wahanol fath o ramadegoli dan ddylanwad cydgyffwrdd ieithyddol, sef cydgyffwrdd ieithyddol fel sbardun (*propelling contact grammaticalization*) a chydgyffwrdd ieithyddol fel cyflymiad (*accelerating contact grammaticalization*). Yn y math cyntaf, cydgyffwrdd ieithyddol yw'r *sine qua non* am y gramadegoli; h.y. pe na bai cydgyffwrdd ieithyddol, yna ni fyddai newid wedi gallu digwydd. Yr ail fath yw lle bo cydgyffwrdd ieithyddol yn cyflymu proses ramadegoli a oedd eisoes ar y gweill mewn iaith arall gyfagos. Mae enghreifftiau o'r math hwn yn anos i'w canfod na'r math cyntaf yn ôl Heine a Kuteva (2010: t. 90), ond maent yn awgrymu bod enghraifft i'w chael yn y datblygiad o gyfleu graddau cymhariaeth ansoddeiriau yn y Saesneg mewn modd cwmpasog yn hytrach na rhai synthetig, e.e. ffurfiau fel *more beautiful* yn hytrach na **beautifuler*, er mai ffurfiau fel yr ail un a oedd yn gynhenid i'r iaith Saesneg. Dywed Danchev (1989) bod ffurfiau cwmpasog Saesneg fel hyn yn brin yn nhafodieithoedd gogledd Lloegr yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg, tra eu bod yn fwy cyffredin yn nhafodieithoedd de Lloegr yn ystod yr un cyfnod, a hynny efallai am fod Saesneg y de mewn cydgyffyrddiad ieithyddol agosach â'r Ffrangeg, a oedd eisoes yn iaith a oedd wedi datblygu ffurfiau cwmpasog. Hynny yw, roedd datblygu ffurfiau cwmpasog o raddau cymhariaeth mewn ansoddeiriau ar y gweill yn y Saesneg yn ystod y cyfnod hwnnw, ond bod cydgyffwrdd ieithyddol â'r Ffrangeg wedi ei gyflymu mewn rhai tafodieithoedd.

Fel a drafodwyd uchod, digwyddodd y broses o ramadegoli *BE* + *going to* yn y Saesneg rhwng diwedd y bymthegfed ganrif a'r cyfnod modern (Mair 2004). Mae gramadegoli berfau symud er mwyn cyfleu'r dyfodol wedi cael ei gofnodi yn achos nifer o ieithoedd y byd; e.e. yn Ffrangeg, gramadegolwyd y ferf *aller* (mynd) yn yr un modd, gan y gellir dweud *je VAIS regarder le télé* (dw i'n MYND I wylio'r teledu). Er hyn, nid oes arwydd bod y Ffrangeg, er enghraifft, wedi cael ei dylanwadu gan gydgyffyrddiad ieithyddol â'r iaith Saesneg yn hyn o beth, nac i'r gwrthwyneb. Gellid dehongli y newid yn y Saesneg a'r newid yn y Ffrangeg fel prosesau gramadegoli ar hyd y Llwybr Symud, fel yn namcaniaeth Bybee (2006). Oherwydd hyn, wrth edrych ar y ffenomen yn y Gymraeg, mae angen datrys pa un ai bod unrhyw enghraifft neilltuol o ramadegoli berf 'mynd' i gyfleu'r dyfodol yn newid yn digwydd oherwydd cydgyffyrddiad ieithyddol, ynteu fel proses fewnol a fuasai wedi digwydd beth bynnag oherwydd tueddiadau cyffredinol mewn iaith.

Yn achos y Gymraeg, mae astudiaethau o ramadegoli hanesyddol yn awgrymu mai prosesau mewnol ydynt, e.e. daw 'sef < ys ef' (ef yw) yn hanesyddol (Borsley et al. 2007); mae'r geiryn negyddol 'ddim' yn deillio o air a oedd yn wreiddiol yn golygu 'rhywbeth', a ddilynodd broses o ramadegoli i fod yn eiryn negyddol ar batrwm newid cyffelyb a ddigwyddodd mewn ieithoedd eraill ar draws y byd (Willis 2008). Ar y llaw arall, mae

enghreifftiau lu (yn hanesyddol a chyfoes) o ddylanwad Saesneg ar ramadeg y Gymraeg, e.e. benthyg geiriau (Parry-Williams 1923), symleiddio'r system ansoddeiriol (Thomas 1982), dileu'r ferf gynorthwyol (Davies 2016), symleiddio'r system dreiglo (Jones 1998), a.y.b. Yn yr erthygl hon, trafodir a oes modd datgan bod proses ramadegoli o 'mynd i' wedi digwydd oherwydd proses gyffredinol neu oherwydd dylanwad cydgyffwrdd ieithyddol â'r Saesneg.

## 3. Dull

Defnyddiwyd dull ieithyddiaeth corpws ar gyfer yr astudiaeth. Chwilir am docynnau penodol mewn ystod o gorpora gan ystyried eu cyd-destun geiriol, brawddegol a disgyrsiol. Gellir defnyddio dull meintiol er mwyn dadansoddi data corpws neu gellir dadansoddi mewn ffordd ansoddol sy'n trafod tocynnau yn eu cyd-destun ehangach er mwyn adnabod patrymau a thueddiadau. Byddwn yn defnyddio dull ansoddol er mwyn rhoi trosolwg o'r datblygiad yn nefnydd 'mynd i' + berfenw yn y Gymraeg dros y pum canrif ddiwethaf.

Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd nifer o gorpora Cymraeg o wahanol gyfnodau amser. Rhestrir y corpora isod, gan nodi pa mor fawr yw pob corpws yn ôl nifer y geiriau sydd ynddo:[3]

- Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg (1500–1850)[4] – tua 420,000 o eiriau
- Corpws o Feibl Cymraeg William Morgan (1588)[5] – tua 750,000 o eiriau
- Corpws o iaith papurau newydd Cymraeg o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–18)[6] – tua 21,000,000 o eiriau
- Cronfa Electroneg o Gymraeg (CEG) (o ddiwedd yr ugeinfed ganrif)[7] – tua 1,000,000 o eiriau

---

[3] Diolch i Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor – yn enwedig Delyth Prys, Gruffudd Prys a Dewi Bryn Jones – am eu cymorth wrth ddarparu data corpws i ni mewn ffordd chwiliadwy, ac am rannu eu corpora anghyhoeddedig â ni ar gyfer dibenion ein dadansoddiad.

[4] Mae Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg 1500–1850 (Mittendorff a Willis 2004) yn adnodd sy'n casglu testunau rhyddiaith a barddonol o'r cyfnod hwn o Gymraeg Modern Cynnar, gyda samplau o destunau o wahanol arddulliau a chan awduron o wahanol ranbarthau. Ceir y corpws ar-lein ar <http://people.ds.cam.ac.uk/dwew2/hcwl/menu.htm>.

[5] Daw'r data hyn o fersiwn electronig Beibl 1588 sydd ar yr *Oxford Data Archive*: <http://ota.ox.ac.uk/id/B00772>.

[6] Casglwyd data o bapurau newydd o gyfnod cyn ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae delweddau o'r papurau newydd ar eu gwefan: <http://cymru1914.org/cy/browse/newspapers>. Cawsom gymorth gan Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, i drosi'r data hyn i ffurf ddadansoddadwy; data'n benodol o'r cyfnod 1914–18 a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn.

[7] Disgrifir CEG (Ellis et al. 2001) fel 'Casgliad 1 miliwn o eiriau Cymraeg wedi eu casglu o 500 o samplau o destun 2000 o eiriau o ryddiaith gyfoes amrywiol' (http://corpws.cymru/ceg/). Mae'r data'n cynnwys rhyddiaith Gymraeg, yn bennaf o'r cyfnod 1970 a 2001. Cedwir CEG ar Borth Corpora Cenedlaethol Cymru (<http://corpws.cymru/>) ynghyd â chorpora Cymraeg eraill hanesyddol a chyfredol.

- Cysill Ar-Lein (o ddechrau'r unfed ganrif ar hugain)[8] – tua 14,000,000 o eiriau.

Daw'r data i gyd o iaith ysgrifenedig (gan gynnwys y data diweddar, er mwyn cael cysondeb). Chwiliwyd nid yn unig am docynnau o 'mynd i' a'r fersiwn dreigledig 'fynd i', ond hefyd 'myned i' a 'fyned i', sef y ffurfiau ysgrifenedig gwreiddiol y mae 'mynd'/'fynd i' yn eu disodli erbyn y cyfnod cyfoes.[9] Er eglurdeb, yng ngweddill y papur byddwn yn defnyddio 'mynd i' yn y testun er mwyn cynrychioli unrhyw un o'r ffurfiau hyn heb wahaniaethu rhyngddynt.

Edrychwyd ar y tocynnau o bob cyfnod er mwyn gweld pa enghreifftiau o ddefnydd o 'mynd i' + berfenw oedd i'w gweld, ac yna edrychwyd ar gyd-destun enghreifftiau o'r fath er mwyn adnabod a oeddent yn awgrymu dim ond symudiad i le er mwyn cyflawni rhywbeth, neu fwriad i wneud rhywbeth, neu ystyr dyfodol eglur, er mwyn adnabod patrwm diacronig gramadegoli. Yn y drafodaeth sy'n dilyn rhoir hefyd argraff o ba mor gyffredin yw ffurfiau gramadegoledig ym mhob cyfnod, gan gydnabod y byddai angen dadansoddiad meintiol llawn er mwyn adnabod gwir gynnydd mewn amlder.

## 4. Defnydd hanesyddol o 'mynd i' yn y corpora

Isod mae enghreifftiau o'r corpora wedi eu dethol er mwyn rhoi argraff o'r amrywiaeth a welir yn hanesyddol.[10] Defnyddir testun trwm ar gyfer 'mynd i' ym mhob enghraifft, er eglurder.

Yn y cyfnod cynharaf a astudiwyd, sef yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, ceir defnydd cyffredin iawn o 'myned i' + enw, fel yn enghreifftiau (7) ac (8). Ystyr llythrennol o symud sydd yma.

(7) ... ac 'n hyfach eilchwel, i **fyned i 'rr mor** ... (1595, *Perl mewn adfyd neu, Perl ysbrydawl &c.*, Rhydychen, Huw Lewys.)

(8) Di ai gadewaist hi yn Llandderfel, / yngwystl cwrw wrth **fynd i rhyfel**. (Ar ôl 1660, *Y Rhyfel Cartrefol,* llawysgrif Cwrtmawr 42, ?Huw Morys)

---

[8] Crëwyd corpws Cysill Ar-Lein (gw. Prys et al. 2016) gan ddefnyddio data a fewnbynnwyd gan ddefnyddwyr gwefan Cysill Ar-Lein (<http://www.cysgliad.com/cysill/arlein/>) gan yr Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Mae'n gorpws monitor, sy'n golygu ei fod yn tyfu drwy'r amser wrth iddo gasglu mwy a mwy o ddata. Er enghraifft, erbyn 2015 roedd y corpws yn cynnwys dros 31m o eiriau (Prys et al. 2016), ond ar gyfer ein dibenion ni y dadansoddwyd cyfran o'r data hynny.

[9] Mae'n werth manteisio ar y cyfle i nodi beth yw patrwm diacronig y defnydd o'r ffurf (p'run ai'r sillafiad neu'r ynganiad) 'mynd' o'i gymharu â 'myned' yn y data ar draws hanes, er nad yw hyn yn ymddangos yn ffactor yng nghyd-destun gramadegoli. Gwelir mai 'myned (i)' ar y cyfan yw'r ffurf fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd tan ddechrau'r ugeinfed ganrif, ac eithrio cyfnod yn ystod ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif lle y gwelwyd mwy o ddefnydd o'r ffurf 'mynd (i)' na 'myned (i)'. Diflannodd 'myned' i bob pwrpas yn ystod yr ugeinfed ganrif ac mae'n absennol o ddata'r unfed ganrif ar hugain. Fel y nodir isod, ceir enghreifftiau o ramadegoli yn y data gyda'r ffurfiau 'myned i' a 'mynd i'.

[10] Cedwir y sillafu gwreiddiol, lle y bo modd. Noder bod y corpws Cysill Ar-lein yn cynnwys rhywfaint o ddata sydd â gwallau sillafu/gramadegol gan mai ffynhonnell ydyw o destunau yr oedd yr awduron eisiau eu gwirio.

Ceir enghreifftiau o 'mynd i' + berfenw er mwyn cyfleu symud yn (9) i (12) isod, sy'n ymddangos mewn testunau o'r unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, gan ddangos bod 'mynd i' + enw a 'mynd' + berfenw ill dau yn cyd-fodoli yn y cyfnod hwn.

(9) ... ag idd wyd ti yn awr / yn **myned i oresgyn** yr jndia vawr ... (cyn 1561, *Ystoria y gŵr moel o Sythia*, llawysgrif Llanover B17)

(10) A phan welodd Saul Ddafydd yn **myned i gyfarfod** a'r Philistiad, efe a ddywedodd wrth Abner ... (1588, *Y Beibl Cysegr-Lân,* Hen Destament)

(11) ac ynddi y kyfarvu y tri brenin / oedd yn **mynd i offrymmu** / gynt i'r arglwydd Iessu. (c.1605–10, *Teithie Syr Sion Mandefil,* llawysgrif Peniarth 218)

(12) Gweithiwr tylawd sy **mynd i gloddio**. (Ar ôl 1660, *Y Rhyfel Cartrefol,* llawysgrif Cwrtmawr 42, ?Huw Morys)

Yn yr enghreifftiau hyn defnyddir 'mynd i' + berfenw er mwyn cynrychioli'r gweithredydd yn 'mynd i' rywle arall er mwyn cyflawni gweithred (h.y. goresgyn, cyfarfod, offrymu, cloddio), ac mae ystyr o symud daearyddol eglur (i India, at y Philistiad, at yr Iesu, i rywle i gloddio). Gan nad oes modd cyflawni gweithred mewn lle penodol cyn cyrraedd y lle hwnnw, gellid dehongli'r enghreifftiau hyn fel cynrychioli'r dyfodol mewn modd cyffredinol, ond prif ystyr 'mynd i' yn yr enghreifftiau uchod yw symud llythrennol.

Cymherir y defnydd iaith hwnnw â'r iaith yn (13) isod, sy'n fwy prin yn y data cynnar.

(13) dduw kymer fy mharti / llvdd fi rrag **mynd i boeni**. (c.1550, *Y Gwr Kadarn*, llawysgrif Caerdydd 6)

Ceir dehongliad llai eglur o symud daearyddol yn (13). Nid oes ystyr amlwg o fynd i rywle 'i boeni' gan y siaradwr yn *Y Gwr Kadarn*, ond yn hytrach, ceir argraff o'r posibilrwydd o boeni yn y dyfodol. Dehonglwn yr iaith (13) felly yn enghraifft sydd ar y trywydd gramadegoli, gan ei bod yn arddangos y dyfodol heb ystyr angenrheidiol o symud.

Cawn ambell enghraifft yn y cyfnod hwn o ddefnydd o 'myned i' + berfenw lle y gellir dehongli bwriad yn eglur, fel a welir yn (14) i (16), sydd i gyd o Feibl 1588.

(14) A dywedodd Esau, 'Wele fi yn **myned i farw**, a pha les a wna'r enedigaeth-fraint hon i mi?' (1588, *Y Beibl Cysegr-Lân,* Hen Destament, Genesis 25:32)

(15) Dywedodd Simon Pedr wrthynt, 'Yr wyf fi yn **myned i bysgota**.' Dywedasant wrtho, 'Yr ydym ninnau hefyd yn dyfod gyda thi.' (1588, *Y Beibl Cysegr-Lân*, Testament Newydd, Ioan 21:3)

(16) 'Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfannau: a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn **myned i baratoi** lle i chwi. Ac

os myfi a af, ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun ...' (1588, *Y Beibl Cysegr-Lân*, Testament Newydd, Ioan 14: 2–3)

Yn stori Esau a Jacob (o le y daw (14)), mae Esau'n gofyn i Jacob am rannu ei gawl, gan ddweud y bydd yn marw os na chaiff fwyta. Nid oes rheswm i ddehongli 'myned i farw' fel 'mynd i rywle er mwyn marw' yma, ac nid oes rheswm chwaith dros ystyried bod Esau yn bwriadu marw, felly mae'r defnydd hwn o 'mynd i' yn enghraifft gynnar o gyfleu'r dyfodol yn unig.[11] Mae Simon Pedr yn (15) yn mynegi symud at y llyn i bysgota, a atgyfnerthir gan y ferf 'dyfod' (= dod) yn y frawddeg nesaf, ond gellir dehongli bwriad yn eglur yma, h.y. bod gan Pedr fwriad i bysgota. Yn (16), wrth ddweud y bydd yn 'myned i baratoi lle i chwi' yn y nefoedd, mae Iesu Grist yn amlwg yn cyfeirio at rywbeth yn y dyfodol (gan fod yr adnod yn dod cyn y croeshoeliad) a gellir hefyd dehongli'r bwriad ganddo o neilltuo lle breintiedig i'w ddisgyblion. Mae hefyd yn eglur bod Iesu yn golygu mynd yn llythrennol i'r nefoedd er mwyn cyflawni'r weithred o baratoi (cymh. 'os myfi a af ... mi a ddeuaf drachefn'). Mae (15) ac (16) yn edrych fel eu bod ar drywydd gramadegoli.

Roedd cyfleu'r dyfodol gan ddefnyddio 'mynd i' felly yn bosibl mewn Cymraeg Modern Cynnar (a hynny mewn Cymraeg ysgrifenedig o'r statws uchaf, h.y. o'r Beibl), ond mai'r defnydd arferol oedd symud llythrennol daearyddol gydag efallai ystyr ychwanegol o fwriad. Y ffurf arferol o gyfleu'r dyfodol yng Nghymraeg y cyfnod oedd i ddefnyddio ffurf gryno ar ferf, fel a ddangosir yn (17) i (19).

(17) Ac wedi hynny **edrychaf** yn ei wyneb ef, onid antur **efe a dderbyn** fy wyneb inne. (*Y Beibl Cysegr-Lân*, Hen Destament, Genesis 32:20)
(18) Canys **my a yrraf** y cenhedloedd allan o'th flaen di, ac a **helaethaf** dy frô di ... (*Y Beibl Cysegr-Lân*, Hen Destament, Exodus 34:24)
(19) A **mi a'u dygaf** hwynt, fel y preswyliont yng nghanol Jerwsalem ... (*Y Beibl Cysegr-Lân*, Hen Destament, Sechareia 8:8)

Wedi sefydlu y gallai 'mynd i' gael ei ddefnyddio i gyfleu'r dyfodol yng Nghymraeg yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, ond fod yr enghreifftiau'n brin, symudir at ddata o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; gweler enghreifftiau o (20) hyd at (23).

(20) Ond gan eich bod cymmaint yn llyfreu'r Pâp, cewch **fynd i gyweirio** 'i wely ef at y Pâp oedd o'i flaen ... (1703, *Gweledigaetheu y Bardd Cwsc*, Ellis Wynne)
(21) Yr oedd rhai ar ol i cinio **yn mynd i ganu a dounsio**... (1700au [dim dyddiad penodol], baled gan Hugh Jones Llangwm)

---

[11] Ystyrir mai'r cyfieithiad Saesneg a geir ym Meibl y Brenin Iago yw "*I am at the point to die*", ac "*I am about to die*" yn y *New International Version*, h.y. cyfieithiadau o'r gwreiddiol sy'n mynegi rhywbeth a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

(22) Mae pob tylawd fel gwr bonheddig / Bwyta a chodi Gwneud ychydig / Mwya pleser yr holl langcie / Tobaco a chwrw a **mynd i chware**. (1761, baled gan Hugh Jones Llangwm)

(23) fel ag mae rhai yn **myned i foddi**, eraill yn torri eu gyddfau, neu'n taflu eu hunain dros greigiau uchel ... (1799, *Hanes holl grefyddau'r byd &c.*, Mathew Williams)

Mae ystyr o symud yn (20), (21) a (22), a gellir dehongli symud yn (23) os yw'r unigolion yn mynd i rywle i foddi eu hunain. Mae dehongliad o'r dyfodol yn bosibl ym mhob enghraifft, yn bennaf oherwydd mai symud o un lle i'r llall er mwyn cyflawni'r weithred a geir. Gellir trin enghreifftiau o'r fath, ac efallai o'r cyfnod hwn yn gyffredinol, fel camau graddol ar hyd trywydd gramadegoli, lle bo ystyr y dyfodol yn bosibl ond bod yr ystyr o symud hefyd yn cael ei gadw. Ar y cyfan, mae'r enghreifftiau o 'mynd i' a welir drwy'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn debyg i'r defnydd a welwyd yn y data cynharaf.

Isod, mae enghreifftiau (24) hyd (26) o gorpora o ddechrau'r ugeinfed ganrif, o bapurau newydd Cymraeg cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–18). Dyma'r cyfnod lle y gwelir yn gyntaf enghreifftiau niferus o 'mynd i' nad ydynt yn cyfleu unrhyw symudiad drwy ofod, ac y gellir eu dehongli fel eu bod wedi eu gramadegoli'n gyflawn.

(24) Mae'n **mynd i ddweyd** wrth yr Almaen yr un ffunud ... (Corpws Papurau Newydd 1914–18)

(25) Ai dirwestwyr sy'n **mynd i wrthwynebu**, am nad yw'r waredigaeth yn dod yn ôl ein plan bach ni? (Corpws Papurau Newydd 1914–18)

(26) Y mae eisieu undeb os ydym yn **mynd i ennill** y rhyfel, ac nid trwy ymrannu yr ydym yn **mynd i wneyd hyny**. (Corpws Papurau Newydd 1914–18)

Mae enghreifftiau (27) hyd at (31) o'r cyfnod diweddar, sef CEG o'r ugeinfed ganrif a Cysill Ar-Lein o'r unfed ganrif ar hugain.

(27) Dwi'n **mynd i gael** babi. (1970–93, CEG)

(28) Mi roedd y rhan fwya'n **mynd i aros** yno nes y bydden nhw'n cael y rhyddid yr oedden nhw'n gwybod fyddai'n dod. (1970–93, CEG)

(29) fel tasa dal i sbio'n **mynd i ddileu**'r geiriau ... (1970–93, CEG)

(30) Eu breuddwyd nhw yw bod Heledd yn **mynd i lwyddo** yn y Brifysgol ... (2000au, Cysill Ar-Lein)

(31) Dwi'n **mynd i feddwl** am lawer o gwahanol ffordd o gwneud ymchwil ... (2000au, Cysill Ar-Lein)

Mae'r defnydd o 'mynd i' + berfenw yma yn gallu cyfleu'r dyfodol heb ystyr angenrheidiol o symud, sy'n arwydd eu bod wedi cyrraedd pen draw'r broses ramadegoli – ystyrir, er enghraifft, nad oes symud os yw rhywun yn 'mynd i aros' (28) neu 'mynd i ddileu' (29).

Erbyn yr ugeinfed ganrif, mae'n gyffredin iawn i weld 'mynd i' + berfenw yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfleu'r dyfodol gyda goddrych anfyw. Rhoir enghreifftiau isod, lle bo'r mwyafrif yn ddiweddar ond daw (32) o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg – ymddengys mai prin yw goddrychau anfyw yn y cyd-destun hwn mewn testunau cyn yr ugeinfed ganrif.

(32) Yr arwydd oreu fod llong yn **myned i hwylio** yn ddioed, ydyw, pan y byddo wedi ei llwytho ... (1840, *Yr American &c.*, Benjamin Williams, Chidlaw)
(33) gan fod pob arwydd fod addysg yn **mynd i wneud** camrau breision ymlaen yn y blynyddoedd nesaf ... (Corpws Papurau Newydd 1914–18)
(34) ynghyd ag hen arferion sydd wedi **mynd i golli**. (Corpws Papurau Newydd 1914–18)
(35) gellid meddwl fod pethau'n **mynd i wella** ... (1970–93, CEG)
(36) Mae'r gweithgareddau hyn yn **mynd i hybu** dysgu'r plentyn yn yr ysgol neu adref. (2000au, Cysill Ar-Lein)

Ystyrir nad oes modd i arferion (34) neu weithgareddau (36) ewyllysio i gyflawni gweithred nag i symud i unrhyw le i gyflawni gweithred. Mae'r enghreifftiau uchod yn dystiolaeth bod pen draw'r Llwybr Symud (Bybee 2006) wedi cael ei gyrraedd ar gyfer y newid hwn yn y Gymraeg erbyn o leiaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn amlwg erbyn yr ugeinfed ganrif.

## 5. Trafodaeth

O ddychwelyd at y paramedrau a nodwyd gan Heine a Kuteva (2005) ar gyfer gramadegoli (gw. adran 2 uchod), gellir bod yn hyderus bod 'mynd i' wedi datblygu drwy'r broses hon yn ystod y cyfnod a archwiliwyd. Bu iddo ehangu i fod yn ymadrodd sy'n gallu cael ei gyflenwi gan ferf neu gan enw, a hefyd gwelir ei ddefnydd gyda gweithredoedd lle nad yw symud llythrennol yn ddehongliad synhwyrol, ac felly mae 'mynd i' wedi colli ei ystyr gwreiddiol (sef symud) mewn enghreifftiau o'r fath, sy'n arwydd o golled categorïol, h.y. nid oes ystyr llythrennol, geiriol ar gyfer y 'mynd i' dyfodol, na chwaith ystyr o fwriad, dim ond ystyr ferfol, amserol. Mae hyn yn dangos bod y gramadegoli hwn wedi cyrraedd pen y Llwybr Symud (Bybee 2006).[12]

Os ystyrir bod y data uchod yn cynrychioli iaith y cyfnod, yna gellir dehongli bod y data hyn yn dangos newid yn nefnydd 'mynd i' rhwng c.1500 a'r unfed ganrif ar hugain, tra bod ystyr newydd i 'mynd i' wedi ymddangos yn y cyfnod modern cynnar, ac i'r ystyr hwnnw

[12] Mewn Cymraeg cyfoes, nid yw *mynd i* yn arddangos newid seinegol a symleiddiwyd fel a welwyd yn e.e. *going to* > *gonna* yn y Saesneg, neu mewn enghreifftiau eraill o ramadegoli Cymraeg, fel 'ys ef' > 'sef', ac eithrio 'myned' > 'mynd' (a ddigwyddodd ym mhob ffurf o'r gair).

ddod yn fwyfwy cyffredin o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen. Mae'r amrywiaeth a welir rhwng y gwahanol gorpora yn adlewyrchu'r newid yn nefnydd 'mynd i' dros amser. Mae'n haws, er enghraifft, cael hyd i enghreifftiau pendant o ramadegoli cyflawn yn y data mwy diweddar, sef yng nghorpws dechrau'r ugeinfed ganrif, CEG a Cysill Ar-Lein. Hefyd, gellir nodi bod enghreifftiau sydd ar y llwybr gramadegoli yn y testunau Cymraeg mwyaf ffurfiol, megis Beibl William Morgan (1588), yn ogystal â mewn testunau sydd â chynulleidfaoedd mwy anffurfiol, megis baledi Hugh Jones Llangwm o'r ddeunawfed ganrif, yn awgrym bod y defnydd hwn o 'mynd i' + berfenw yn dderbyniol ymysg cynulleidfaoedd Cymraeg y cyfnod.

Un o fwriadau'r astudiaeth hon oedd gweld a oedd modd dadlau bod y gramadegoli o 'mynd i' a welir yn enghraifft o ramadegoli oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol ynteu'n broses annibynnol, fewnol, o newid. Os ystyrir yr hyn a adroddir yn Mair (2004) am ramadegoli diacronig *BE + going to* yn Saesneg, gwelir bod y gramadegoli hwnnw yn cael ei weld yn gyntaf ar ddiwedd y bymthegfed ganrif, ond na ddaeth yn gyffredin yn yr iaith yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac iddo ddod yn gyffredin tu hwnt erbyn yr ugeinfed ganrif – yn wir, y norm ar gyfer cyfleu'r dyfodol, mae'n debygol. Yn y Gymraeg, gwelwyd yn y data hyn bod ffurfiau wedi eu gramadegoli yn cael eu gweld mor bell yn ôl â chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, ond na ddaethant yn niferus yn y testunau tan ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Un esboniad yw bod y cynnydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y Saesneg wedi dylanwadu ar ddefnydd gramadegoledig 'mynd i' yn y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif, a oedd yn gyfnod lle y bu cynnydd eithriadol mewn dwyieithrwydd yng Nghymru.[13] Byddai hyn yn cyd-fynd â damcaniaethau Thomason a Kaufman (1988) o gydgyffwrdd ieithyddol, lle y gelwir sefyllfa fel hon yn un o gydgyffwrdd dwys (*intense contact*), lle y gellir gweld newid ieithyddol sylweddol ac eang oherwydd y cydgyffwrdd hwn.

Uchod, trafodwyd syniadau Heine a Kuteva (2010) fod dau fath o ramadegoli drwy gydgyffwrdd ieithyddol: cydgyffwrdd fel sbardun a chydgyffwrdd fel cyflymiad. Mae enghreifftiau o ffurfiau wedi eu gramadegoli o 'mynd i' i'w canfod, er nad oes llawer ohonynt, yn y corpora cynharaf a ddadansoddwyd, mewn cyfnod lle nad oedd y cydgyffwrdd â'r Saesneg mor ddwys yng Nghymru ag yr oedd yn y cyfnod diweddarach. Yr argraff yw bod gramadegoli o 'mynd i' wedi cynyddu yn y Gymraeg yn agos at y cyfnod lle y gwelir gramadegoli o *BE + going to* yn y Saesneg. Un esboniad o hyn fyddai mai datblygiad mewnol yn y Gymraeg oedd y cychwyn yng ngramadegoli 'mynd i', o ystyried bod y ffenomen yn bodoli yn y Gymraeg ers o leiaf gyfnod enghraifft (13) uchod, gan ddilyn damcaniaethau Bybee (2006) am y Llwybr Symud, ond bod newid yn y berthynas gymdeithasol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ganrifoedd wedyn, a amlygodd siaradwyr y Gymraeg fwyfwy i'r patrwm gramadegol cyffelyb Saesneg *going to*, wedi cyflymu'r gramadegoli o 'mynd i' – h.y. wedi ei sbarduno i ledaenu drwy iaith mwy o siaradwyr, nes iddo gael ei normaleiddio yn y Gymraeg erbyn heddiw.

[13] Mae canlyniadau'r Cyfrifiad ers dechrau'r ugeinfed ganrif wedi dangos lleihad yn y nifer sy'n uniaith Gymraeg, nes bod dim ohonynt erbyn 1961 (Davies 2010). Mae pob siaradwr Cymraeg felly'n siarad Saesneg hefyd.

Dylid nodi bod arwyddion bod patrwm tebyg i ramadegoli 'mynd i' yn bodoli mewn ieithoedd Celtaidd eraill, er nad oes astudiaethau trylwyr yn bodoli o'r strwythur mewn ieithoedd eraill, hyd y gwyddys. Mae modd defnyddio'r strwythur '*ag goil*' ('yn mynd') mewn Gwyddeleg cyfoes er mwyn cyfleu yr hyn y mae Ó Siadhail (1989: t. 279) yn ei ddisgrifio fel '*going (with the prospect of doing)*', o leiaf mewn rhai tafodieithoedd (megis iaith Connacht), e.e. *níl sé* ***ag goil ag*** *déanamh leas do thada* ('nid yw'n mynd i wneud unrhyw dda i unrhyw beth') (Ó Siadhail 1989: t. 278), sy'n ymddangos fel enghraifft arall o broses ramadegoli. Mae siaradwyr cyfoes Llydaweg – iaith sy'n perthyn yn agos i'r Gymraeg – hefyd yn arddangos defnydd wedi ei ramadegoli o'r ferf 'symud', sef 'bod' + *mont da* + berfenw, e.e. *ar paotr a zo* ***vont da azezañ*** ('mae'r bachgen yn mynd i eistedd') (iaith plentyn 8 oed); *ur plac'h yaouank eo sur a zo* ***hont d'ober*** *un tamm deus ar gwastell a zo aze* 'merch ifanc sy'n mynd i dorri darn o'r gacen yn fan'na' (iaith oedolyn 71 oed) (Holly Kennard, cyfathrebiad personol yn dyfynnu data Llydaweg a gasglwyd ganddi). Mae'r ffaith fod y defnydd o ferf symud i gyfleu'r dyfodol yn bodoli ar draws rhai o'r ieithoedd Celtaidd yn arwydd naill ai fod y duedd ramadegoli gyffredinol hon wedi digwydd yn y tair iaith yn annibynnol, neu bod y newid wedi dechrau'n gynnar iawn yn hanesyddol.

Gan fod y defnydd o 'mynd i' i gyfleu'r dyfodol yn ymddangos fel ei fod yn absennol mewn Cymraeg Canol, cymerir mai prosesau annibynnol a fu wrthi yn y gwahanol ieithoedd Celtaidd, yn hytrach na'i fod yn ffurf 'Geltaidd' frodorol. Noder y bu cydgyffwrdd dwys rhwng pob un o'r ieithoedd Celtaidd cyfoes â ieithoedd eraill, megis â'r Saesneg yn Iwerddon ac â'r Ffrangeg yn Llydaw, sydd hefyd wedi arddangos gramadegoli tebyg. Hwyrach fod hynny wedi achosi neu gyflymu newid ieithyddol mewn Gwyddeleg a/neu Lydaweg, er enghraifft. Byddai angen astudio'r datblygiad cyffelyb yn yr ieithoedd hynny ymhellach er mwyn cadarnhau hyn.

## 6. Casgliadau

Bwriad yr astudiaeth hon oedd adnabod datblygiad y defnydd o 'mynd i' + berf i gyfleu'r dyfodol yn hanes ieithyddol y Gymraeg, sy'n enghraifft o ramadegoli a welir ar draws ieithoedd y byd. Drwy ddefnyddio dull corpws er mwyn archwilio gwahanol ddefnydd o 'mynd i' mewn data ysgrifenedig Cymraeg o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd heddiw, darganfuwyd bod ffurf wedi ei ramadegoli o 'mynd i' + berfenw ar gyfer cyfleu'r amser dyfodol yn bodoli yn y Gymraeg ers yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r enghreifftiau gramadegoledig hyn yn fwy prin yn y cyfnod cynnar na'r cyfnod diweddarach, a cheir yr argraff nad yw'r ffordd hon o fynegi'r dyfodol yn dod yn flaenllaw tan ddechrau'r ugeinfed ganrif. Y ddadl a gyflwynir yn yr erthygl hon yw bod cydgyffwrdd cymdeithasol dwys â chymdeithas Saesneg ei hiaith yn ystod y cyfnod diweddar wedi cyfrannu at gyflymu'r newid a oedd eisoes ar droed, tra bod y newid gwreiddiol yn debygol o fod yn un mewnol ar drywydd cyffredinol Llwybr Symud (Bybee 2006). Mae casgliadau'r astudiaeth hon yn cyfrannu at y llenyddiaeth ar ieithyddiaeth cydgyffwrdd ieithyddol, gan atgyfnerthu damcaniaethau Heine a Kuteva (2005) ar ramadegoli.

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau sydd eisoes yn bodoli ar newid ieithyddol yn y Gymraeg oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol yn canolbwyntio ar achosion lle y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio ffurf sydd eisoes yn bodoli yn y Saesneg fel patrwm ar gyfer ffurfiau tebyg yn eu Cymraeg hwy, ond nid yw astudiaethau'n aml yn canolbwyntio – hyd y gwyddys – ar ddylanwad *newid* mewn iaith arall ar *newid* yn y Gymraeg (hwyrach bod astudiaeth Willis [2008] ar eiriau negyddol yn un enghraifft). Mae'r cwestiynau y gallai astudiaethau yn y dyfodol eu hystyried yn cynnwys i ba raddau mae pa mor ddiweddar yw'r newid yn yr iaith fwyafrifol yn ffactor berthnasol yn natur y newid yn yr iaith leiafrifol, a pha un ai yw maint y newid yn yr iaith fwyafrifol yn effeithio ar faint ac amlder y newid tebyg yn yr iaith leiafrifol, ac ati.

Astudiaeth ansoddol oedd hon, er mwyn adnabod natur y datblygiad yn nefnydd 'mynd i' + berfenw yn y Gymraeg o'r Cyfnod Modern Cynnar ymlaen. Byddai angen defnyddio dull meintiol er mwyn cadarnhau pa gynnydd a fu yn nefnydd y strwythur hwn er mwyn cyfleu'r dyfodol ar draws y gwahanol gorpora, gan gymharu unrhyw gynnydd fel hwnnw â newidiadau mewn ffyrdd eraill o gyfleu'r dyfodol.

Un broblem gyda defnyddio testunau ysgrifenedig hanesyddol er mwyn olrhain newid ieithyddol yw bod iaith ysgrifenedig yn aml yn geidwadol ac nid o reidrwydd yn cynrychioli'r iaith fel yr oedd yn cael ei siarad yn y cyfnod. Nid oes, wrth gwrs, ffordd amgen o ddadansoddi hanes y newid heblaw drwy ddefnyddio testunau hanesyddol, ond rhywbeth na wnaethwyd yn yr astudiaeth hon oedd dadansoddi iaith lafar gyfoes. Byddai dadansoddi'r iaith mewn corpws llafar Cymraeg fel *Siarad*[14] yn caniatáu i ni adnabod amrywiaeth sosioieithyddol yn nefnydd 'mynd i' mewn Cymraeg llafar heddiw, a fyddai'n galluogi i ni weld a oes gwahaniaeth ym mhatrwm y strwythur rhwng yr iaith ysgrifenedig a'r iaith lafar.

Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod y Gymraeg wedi datblygu ffordd newydd o gyfleu'r dyfodol yn ystod y canrifoedd diwethaf, a hynny, mae'n ymddangos, gan ddilyn patrymau a welir ar draws ieithoedd y byd, ond bod ei pherthynas cymdeithasol unigryw â'r Saesneg wedi dylanwadu ar ystod a maint y newid yn y cyfnod diweddar. Bydd parhau i ymchwilio i'r gramadegoli hwn yn ein galluogi i ddarganfod mwy am natur newid o fewn y Gymraeg ac o fewn ieithoedd lleiafrifol eraill.

[14] <http://www.siarad.org.uk> Dyma gorpws 40 awr o sgyrsiau anffurfiol rhwng pobl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, wedi ei drawsgrifio a'i baratoi ar gyfer dadansoddi ieithyddol. Casglwyd y corpws gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor rhwng 2005 a 2008 fel rhan o brosiect ar ddwyieithrwydd a ariannwyd gan yr ESRC. Gw. Deuchar, Webb-Davies, a Donnelly (2018) am fwy o wybodaeth am y corpws hwn a'i ddata.

## Llyfryddiaeth

Borsley, R. D., Tallerman, M., a Willis, D. (2007), *The syntax of Welsh* (Cambridge: Cambridge University Press).

Bybee, J. (2006), 'Diachronic linguistics', yn Geeraerts, Dirk, a Cuyckens, Hubert (goln), *Cognitive Linguistics* (Oxford: Oxford University Press), tt. 945–87.

Bybee, J., Perkins, R., a Pagliuca, W. (1994), *The Evolution of Grmmar: Tense, Aspect and Modality in the Languages of the World* (Chicago: University of Chicago Press).

Danchev, A. (1989), 'Language change typology and adjectival comparison in contact situations', *Folia Linguistica Historica*, 9 (2), 161–74.

Davies, J. (2007), *A History of Wales* (London: Penguin).

Davies, P., 'Identifying word-order convergence in the speech of Welsh-English bilinguals', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2010.

Davies, P. (2016), 'Age variation and language change in Welsh: Auxiliary deletion and possessive constructions', yn Durham, Mercedes, a Morris, Jonathan (goln), *Sociolinguistics in Wales* (London: Palgrave Macmillan), tt. 31–59.

Deuchar, M., Webb-Davies, P. a Donnelly, K. (2018), *Building and using the Siarad corpus of spoken Welsh: Bilingual conversations in Welsh and English* (Amsterdam: John Benjamins).

Ellis, N. C., et al. (2001), *Cronfa Electroneg o Gymraeg (CEG): A 1 million word lexical database and frequency count for Welsh*, <http://corpws.cymru/ceg/> [Cyrchwyd: 16 Chwefror 2018).

Heine, B., a Kuteva, T. (2005), *Language Contact and Grammatical Change* (Cambridge: Cambridge University Press).

Heine, B., a Kuteva, T. (2010), 'Contact and grammaticalization', yn Hickey, Raymond (gol.), *The Handbook of Language Contact* (Malden, MA: Blackwell), tt. 81–99.

Jones, M. C. (1998), *Language obsolescence and revitalization: Linguistic change in two sociolinguistically contrasting Welsh communities* (Oxford: Oxford University Press).

Mair, C. (2004), 'Corpus Linguistics and grammaticalization theory: Statistics, frequencies and beyond', yn Lindquist, Hans, a Mair, Christian (goln), *Corpus Approaches to Grammaticalization in English* (Amsterdam: John Benjamins), tt. 121–50.

Matras, Y. (2010), 'Contact, convergence, and typology', yn Hickey, Raymond (gol.), *The Handbook of Language Contact* (Malden, MA: Blackwell), tt. 63–80.

Mittendorf, I., a Willis, D. (2004), *Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg 1500–1850/A Historical Corpus of the Welsh Language 1500–1850* (Cambridge University, adnodd electronig), <http://lion.ling.cam.ac.uk/david/hcwl/menu.htm> [Cyrchwyd: 21 Chwefror 2020].

Ó Siadhail, M. (1989), *Modern Irish: Grammatical structure and variation* (Cambridge: Cambridge University Press).

Parry-Williams, T. H. (1923), *The English element in Welsh: a study of English loan-words in Welsh* (London: Honourable Society of Cymmrodorion).

Prys, D., Prys, G., a Jones, D. B. (2016), 'Cysill Ar-Lein: a corpus of written contemporary Welsh compiled from an on-line spelling and grammar checker', yn Calzolari, Nicoletta; Choukri, Khalid; Declerck, Thierry; Goggi, Sara; Grobelnik, Marko; Maegaard, Bente; Mariani, Joseph; Mazo, Helene; Moreno, Asuncion; Odijk, Jan; Piperidis, Stelios (goln), *Proceedings of the Tenth International Conference on Language Resources and Evaluation (LREC 2016)* (Paris, Ffrainc: European Language Resources Association), <http://dblp.org/rec/conf/lrec/PrysPJ16> [Cyrchwyd: 9 Ionawr 2020].

Thomas, A. R. (1982), 'Change and decay in language', yn Crystal, David (gol.), *Linguistic controversies: Essays in linguistic theory and practice in honour of F. R. Palmer* (London: Edward Arnold), tt. 209–19.

Thomas, P. W. (1996), *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Thomason, S. G. (2001), *Language contact: An introduction* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

Thomason, S. G., a Kaufman, T. (1988), *Language contact, creolization, and genetic linguistics* (Berkeley, CA: University of California Press).

Traugott, E. C., a König, E. (1991), 'The semantics-pragmatics of grammaticalization revisited', yn Traugott, Elizabeth Closs, a Heine, Bernd (goln), *Approaches to Grammaticalization* (Amsterdam: John Benjamins), tt. 189–218.

Willis, D. (2008), 'English-Welsh language contact in the realm of negation', papur a gyflwynwyd yn *Transmission and Diffusion Congress* ym Mhrifysgol Radboud yn Nijmegen, Ionawr 2008.

# Gwella gwasanaethau gofal iechyd â chymorth cleifion: Casglu PROMs a PREMs ledled Cymru

Robert Ieuan Palmer,[1] Kathleen Withers,[1] Amanda Willacott[2] a Grace Carolan-Rees[1]

[1]*Cedar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, GIG Cymru (<[www.cedar.wales.nhs.uk](http://www.cedar.wales.nhs.uk)>)*

[2]*Rhaglen Value-Based Health Care, GIG Cymru*

Cyflwynwyd: 9 Awst 2019; Derbyniwyd: 10 Ionawr 2020

**Crynodeb**: Golyga pwysau ar Wasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) Cymru fod angen ffyrdd newydd o ddarparu safonau uchel o ofal gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Un dull yw gweithio'n agosach â chleifion, gan gasglu Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Outcome Measures*) (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Experience Measures*) (PREMs). Gobeithir y bydd casglu data o'r fath yn helpu wrth geisio darparu gofal iechyd darbodus. Rhy'r erthygl hon arolwg o ddatblygu'r system gasglu genedlaethol gyntaf yng Nghymru. Casglodd y system 66,000 PROMs a PREMs gan 25,000 claf dros dair blynedd, a dengys defnydd cynnar o'r data hyn y potensial i wella gwasanaethau. Y bwriad hir-dymor yw gwneud casglu data o'r fath yn rhan reolaidd o ofal iechyd eilaidd yng Nghymru.

**Allweddeiriau**: Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion, PROMs, Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion, PREMs, GIG Cymru.

## Improving healthcare services with patients' help: Collecting PROMs and PREMs throughout Wales

**Abstract:** Pressures on NHS Wales means that we need to adopt new ways of providing high standards of care using available resources. One method is to work closely with patients by collecting Patient Reported Outcome Measures (PROMs) and Patient Reported Experience Measures (PREMs). It is hoped that collecting such data will help achieve prudent healthcare. This article provides an overview of the development of the first national collection system in Wales. Over 3 years the system has collected 66,000 PROMs and PREMs from 25,000 patients, and early uses of this data have shown the potential to improve services. The long-term aim is to make such data collection a routine part of secondary care in Wales.

**Key words:** Patient Reported Outcome Measures, PROMs, Patient Reported Experience Measures, PREMs, NHS Wales.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

### Byrfoddau

BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol

GGGC: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

GIG: Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol

HIPO: *Health Improvement and Patient Outcome*

HODaR: *Health Outcomes Data Repository*

PPEP: Rhaglen PROMs, PREMs ac Effeithiolrwydd (*PROMs, PREMs and Effectiveness Programme*)

PREMs: Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Experience Measures*)

PROMs: Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Outcome Measures*)

QALY: Blwyddyn Bywyd a Addasir gan Ansawdd (*Quality Adjusted Life Year*)

SGCC: System Gweinyddu Cleifion Cymru

VBHC: *Value-Based Health Care*

## Beth yw PROMs a PREMs?

Faint bynnag a wariwn ar wasanaethau gofal iechyd, yn anffodus mae'n ymddangos na fydd byth yn ddigon oherwydd ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, amserau aros hir neu driniaethau newydd sy'n codi costau. O ganlyniad, mae angen gweithredu dulliau newydd o ddyrchafu effeithlonrwydd wrth gynnal safonau uchel o ofal. Ymddengys damcaniaeth gofal iechyd darbodus (hynny yw, gwneud y lleiafswm sydd ei angen er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y budd mwyaf) fel ffordd o gyflawni hyn. Un dull o gyrraedd y nod hwn yw caniatáu i gleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol weithio gyda'i gilydd yn gyfartal er mwyn gwneud penderfyniadau gofal iechyd (Batalden et al. 2016, Leng et al. 2017), gan mai cleifion sy'n aml fwyaf cymwys i asesu agweddau ar eu gofal iechyd (Darzi et al. 2008). Yn y mwyafrif o systemau gofal iechyd, cesglir data clinigol fel canlyniadau profion a meddyginiaethau a weinyddir yn gyson. Serch hynny, ni roddir llawer o gyfleoedd i gleifion roi eu canfyddiadau eu hunain o'u canlyniadau, eu symptomau, eu blaenoriaethau, a'u profiadau. Awgrymir bod holiaduron cleifion yn un ffordd o ddatrys hyn, trwy gasglu data o'r enw Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Outcome Measures*) (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (*Patient Reported Experience Measures*) (PREMs) (National Institute for Health and Care Excellence 2012). Mae PROMs yn cyfeirio at y data a gesglir gan holiaduron PROMs, tra defnyddir yr acronym PREMs er mwyn cyfeirio at y data a gesglir gan holiaduron PREMs.

Casgla holiaduron PROMs ddata ar ganlyniadau cleifion, gyda chwestiynau'n cyfeirio at symptomau ac ansawdd bywyd. Cesglir hwy fel arfer cyn i'r claf dderbyn triniaeth ac eto ar ôl triniaeth er mwyn mesur unrhyw newidiadau. Datblygwyd nifer fawr o holiaduron PROMs gan grwpiau ymchwil ar draws y byd. Mae dylunio, profi a dilysu holiadur perthnasol yn sicrhau bod cwestiynau'n addas ar gyfer y claf a'u bod yn allbynnu canlyniadau cywir a dibynadwy (Weldring et al. 2013). Proses wyddonol sy'n gofyn amser yw'r broses ddilysu

(Rothrock et al. 2011), ac mae angen arbenigedd gan glinigwyr a chleifion. Yn fras, mae dau fath o PROMs: PROMs cyflwr-benodol a PROMs cyffredinol.

Fel yr awgrymir gan yr enw, casgla holiaduron PROMs cyflwr-benodol ddata ar symptomau ac ansawdd bywyd cleifion o ganlyniad i gyflwr penodol. Hynny yw, gofynna holiadur yn benodol ar gyfer y glun am symptomau neu anawsterau sy'n ymwneud â'r glun, tra gofynna holiadur yn benodol ar gyfer cataractau am faterion sy'n ymwneud â'r llygaid. Mae enghreifftiau o holiaduron PROMs cyflwr-benodol yn cynnwys Sgôr Clun Rhydychen ar gyfer cyflyrau'r glun (Dawson et al. 1996b), Sgôr Pen-glin Rhydychen ar gyfer cyflyrau'r pen-glin (Dawson et al., 1998), y Cat-PROM 5 ar gyfer cataractau (Sparrow et al., 2018), a'r QLQ-LC13 ar gyfer canser yr ysgyfaint (Bergman et al. 1994). Ar y llaw arall, casgla holiaduron PROMs cyffredinol ddata ar iechyd cyffredinol cleifion, ac nid ydynt yn arbenigo mewn unrhyw gyflwr penodol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys yr EQ-5D-5L (Herdman et al. 2011) a'r SF-36 (Ware Jr et al. 1992). Dengys Tabl 1 y Cat-PROM 5, sef enghraifft o holiadur PROMs cyflwr-benodol, tra dangosa Tabl 2 yr EQ-5D-5L, sef enghraifft o holiadur PROMs cyffredinol sy'n addas ar gyfer pob claf.

| | **Cat-PROM 5** | |
|---|---|---|
| | Meddyliwch am eich golwg yn ystod y mis diwethaf. | |
| | **Cwestiynau** | **Atebion** |
| 1. | Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi teimlo bod eich llygad wael yn effeithio ar eich golwg yn gyffredinol neu'n amharu arno? | • Na, byth<br>• Ydw, weithiau<br>• Ydw, y rhan fwyaf o'r amser<br>• Ydw, drwy'r amser |
| 2. | Yn ystod y mis diwethaf, faint mae eich golwg wedi amharu ar eich bywyd yn gyffredinol | • Dim o gwbl<br>• Braidd ddim<br>• Ychydig bach<br>• Tipyn<br>• Llawer<br>• Llawer iawn |
| 3. | Sut fyddech chi'n disgrifio eich golwg yn gyffredinol yn ystod y mis diwethaf – gyda'r ddwy lygad ar agor, yn gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd os ydych yn gwneud hynny fel arfer? | • Rhagorol<br>• Da iawn<br>• Eithaf da<br>• Cymedrol<br>• Eithaf gwael<br>• Gwael iawn<br>• Difrifol |
| 4. | Yn ystod y mis diwethaf, pa mor aml mae eich golwg wedi eich rhwystro rhag gwneud y pethau yr hoffech eu gwneud? | • Dim o gwbl<br>• Weithiau<br>• Y rhan fwyaf o'r amser<br>• Drwy'r amser |
| 5. | Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi cael anhawster yn darllen print arferol mewn llyfrau neu bapurau newydd oherwydd y drafferth yr ydych yn ei gael gyda'ch golwg? | • Dim anhawster<br>• Ydw, ychydig o anhawster<br>• Ydw, rhywfaint o anhawster<br>• Ydw, cryn dipyn o anhawster<br>• Nid wyf yn gallu darllen bellach oherwydd fy ngolwg<br>• Ni allaf ddarllen am resymau eraill |

Tabl 1: Y Cat-PROM 5 (Sparrow et al. 2018), sef holiadur PROMs cyflwr-benodol (Cyfieithwyd gan Cedar, BIP Caerdydd a'r Fro)

| EQ-5D-5L | | |
|---|---|---|
| | Dewisiwch un ateb sy'n disgrifio orau sut mae eich iechyd chi heddiw. | |
| | **Cwestiynau** | **Atebion** |
| 1. | Symudedd | • Dydw i ddim yn cael anhawster wrth gerdded o gwmpas<br>• Rydw i'n cael ychydig o anhawster wrth gerdded o gwmpas<br>• Rydw i'n cael anhawster cymedrol wrth gerdded o gwmpas<br>• Rydw i'n cael anhawster difrifol wrth gerdded o gwmpas<br>• Dydw i ddim yn gallu cerdded o gwmpas |
| 2. | Hunan-ofal | • Dydw i ddim yn cael anhawster yn ymolchi neu wisgo amdanaf<br>• Rydw i'n cael ychydig o anhawster ymolchi neu wisgo amdanaf<br>• Rydw i'n cael anhawster cymedrol ymolchi neu wisgo amdanaf<br>• Rydw i'n cael anhwaster difrifol ymolchi neu wisgo amdanaf<br>• Dydw i ddim yn gallu ymolchi neu wisgo amdanaf |
| 3. | Gweithgareddau arferol (e.e. gwaith, astudio, gwaith tŷ, gweithgareddau teuluol neu hamdden) | • Dydw i ddim yn cael anhawster gwneud fy ngweithgareddau arferol<br>• Rydw i'n cael ychydig o anhawster gwneud fy ngweithgareddau arferol<br>• Rydw i'n cael anhawster cymedrol gwneud fy ngweithgareddau arferol<br>• Rydw i'n cael anhawster difrifol gwneud fy ngweithgareddau arferol<br>• Dydw i ddim yn gallu gwneud fy ngweithgareddau arferol |
| 4. | Poen/anghysur (e.e. teimlo'n anghyfforddus) | • Does gen i ddim poen nac anghysur<br>• Mae gen i ychydig o boen neu anghysur<br>• Mae gen i boen neu anghysur cymedrol<br>• Mae gen i boen neu anghysur difrifol<br>• Mae gen i boen neu anghysur eithafol |
| 5. | Pryder/iselder | • Dydw i ddim yn teimlo'n bryderus nac yn isel<br>• Rydw i'n teimlo ychydig yn bryderus neu isel<br>• Rydw i'n teimlo'n gymedrol o bryderus neu isel<br>• Rydw i'n teimlo'n ddifrifol o bryderus neu isel<br>• Rydw i'n teimlo'n eithafol o bryderus neu isel |

Tabl 2: Yr EQ-5D-5L (Herdman et al. 2011), sef holiadur PROMs cyffredinol (Cyfieithwyd gan EuroQol (EuroQol. 2020))

Fel rheol, cwestiynau amlddewis sydd mewn holiaduron PROMs, ac maent fel arfer hefyd yn cynnwys system sgorio sy'n trawsnewid atebion i sgôr unigol. Er enghraifft, mae'r Cat-PROM 5 yn cynnwys pum cwestiwn, a thrawsnewidia ei system sgorio'r pum ateb yn un sgôr rhwng -9.18 (iechyd gorau posibl) a 7.45 (iechyd gwaethaf posibl), tra trawsnewidia system sgorio'r EQ-5D-5L ei bum ateb yn un sgôr rhwng -0.594 (iechyd sy'n waeth na marwolaeth) ac 1 (iechyd gorau posibl), ble mae 0 yn cyfateb i iechyd sy'n cyfateb i farwolaeth. Gall pob holiadur gael nifer gwahanol o gwestiynau a system sgorio wahanol, gyda phob ateb yn cyfrannu'n wahanol at y sgôr terfynol yn dibynnu ar eu perthnasedd. Mae sgoriau cyfunol yn ymddwyn fel crynodeb o'r atebion a roddwyd yn yr holiadur, sy'n gwneud dadansoddi data yn broses haws.

Gan nad yw PROMs cyffredinol yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw gyflwr penodol, mae'n bosib cymharu sgoriau cleifion sydd â gwahanol gyflyrau. Er enghraifft, gellir cymharu sgoriau cleifion clun newydd â sgoriau cleifion sy'n dioddef o fethiant y galon. Gwna hyn PROMs cyffredinol yn boblogaidd ymysg penderfynwyr er mwyn cymharu canlyniadau

triniaethau gwahanol. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn gyda PROMs cyflwr-benodol. Er enghraifft, gellir cymharu sgoriau Sgôr Clun Rhydychen yn achos cleifion y glun yn unig. Serch hynny, mae'r manylion sydd ar gael trwy gasglu PROMs cyflwr-benodol yn eu gwneud yn arbennig o ddefnyddiol i glinigwyr er mwyn deall problemau eu cleifion yn well, ac i ganfod beth sy'n bwysig iddynt.

Tra canolbwyntia holiaduron PROMs ar ganlyniadau triniaeth, casgla holiaduron PREMs ddata ar brofiadau cleifion o safbwynt y cleifion eu hunain. Cyfeiria cwestiynau at ffactorau fel amseroedd aros, glendid, proffesiynoldeb staff ac urddas, a chesglir hwy ar ôl i'r claf dderbyn gofal neu driniaeth. Fel rheol, nid oes gan yr holiaduron hyn system sgorio, ac maent yn aml yn cynnwys lle i'r cleifion ysgrifennu eu hatebion yn llawn yn hytrach na dewis o blith atebion amlddewis, a hynny er mwyn casglu data mwy ansoddol.

## Sut gall PROMs a PREMs wella gwasanaethau gofal iechyd?


Mae gan ddata a adroddir gan gleifion amrywiaeth eang o ddefnydd er mwyn gwella gwasanaethau gofal iechyd. Gellir eu defnyddio er mwyn gwella trafodaeth rhwng cleifion a chlinigwyr yn y clinig, er mwyn rheoli disgwyliadau cleifion am y driniaeth y maent am ei derbyn, ac er mwyn hysbysu'r cyhoedd am yr effeithiau y gall dewisiadau ffordd o fyw (*lifestyle choices*) gael ar eu hiechyd cyn ac ar ôl triniaeth. Gellir hefyd eu defnyddio ar gyfer adolygiadau rhithwir (*virtual reviews*) ac ar gyfer dadansoddi effeithiolrwydd cost triniaethau. Amlyga weddill yr adran hon rai enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r data hyn er mwyn gwella gwasanaethau gofal iechyd.

Yn gyntaf, gellir defnyddio PROMs ar lefel y claf, h.y. wrth edrych ar ymatebion holiaduron claf unigol, o bosib ar nifer o adegau gwahanol yn ystod eu triniaeth. Mae hefyd yn bosibl cymharu ymatebion y claf ag ymatebion cyfartalog a roddwyd gan gleifion sydd â'r un cyflwr, sy'n derbyn yr un driniaeth neu sydd o'r un cefndir. Gall clinigwyr a chleifion weld y data hyn yn ystod yr apwyntiad clinig, a all annog a gwella sgyrsiau trwy – o bosibl – dynnu sylw at faterion a amlygir gan PROMs na fyddent yn cael eu hamlygu fel arall. Gall gweld y data yn y clinig hefyd helpu cleifion i chwarae mwy o ran yn y broses o benderfynu camau nesaf eu triniaeth, sy'n newid y cydbwysedd pŵer rhwng y claf a'r clinigwr.

Gellir hefyd eu defnyddio er mwyn asesu iechyd hir-dymor cleifion ar ôl triniaeth. Wrth edrych ar PROMs claf ar nifer o adegau gwahanol, gellir asesu cynnydd a symptomau'r claf heb orfod cael apwyntiad wyneb yn wyneb. Gall yr adolygiadau rhithwir hyn ganfod y cleifion sy'n gwneud yn dda, nad oes angen eu gweld yn y clinig. Gall hyn, o bosibl, arbed arian a rhyddhau amser clinig, lle y bydd staff, cleifion a'r GIG ei hun yn elwa wrth beidio â gofyn i rai cleifion fynychu apwyntiadau clinig diangen.

Nid ar gyfer lefel claf unigol yn unig y gellir defnyddio PROMs. Gellir hefyd eu defnyddio i helpu cleifion a chlinigwyr i ddeall y lefelau iechyd cyfartalog cyn ac ar ôl triniaeth, ac i ddangos tueddiadau a phatrymau iechyd poblogaethau gwahanol. Cyfuna Ffigwr 1 ymatebion nifer o sgoriau Sgôr Clun Rhydychen â phwysau cleifion. Er mai data o sampl o boblogaeth cleifion arthroplasti yng Nghymru yn unig yw hyn, dangosir yn yr enghraifft


hon nad yw cleifion gordew iawn yn tueddu i gyrraedd yr un lefel iechyd â chleifion sydd â phwysau iach. Cyflwyna'r math hwn o ddadansoddiad wybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, ac o bosibl, gall annog cleifion i newid eu dewisiadau ffordd o fyw cyn derbyn triniaeth. Er enghraifft, efallai y defnyddia claf y math hwn o wybodaeth er mwyn penderfynu ceisio colli pwysau cyn derbyn clun newydd, a fydd yn arwain at gael mwy o wellhad yn dilyn y driniaeth.




Ffigwr 1: Canolrif Sgôr Clun Rhydychen fesul categori pwysau, cyn ac ar ôl triniaeth

Yn yr un modd, gall edrych ar PROMs cyfartalog cyn ac ar ôl triniaeth annog trafodaethau mwy agored am y mathau o ganlyniadau y gall cleifion eu disgwyl ar ôl triniaeth. Wrth edrych ar gwestiynau unigol Sgôr Pen-glin Rhydychen, dangosa Ffigwr 2 fod cleifion yn dal i dueddu i gael problemau difrifol wrth benlinio hyd yn oed ar ôl derbyn pen-glin newydd. Er enghraifft, gall claf sydd â'r nod pendant o allu penlinio er mwyn gweithio yn yr ardd ar ôl cael pen-glin newydd edrych ar y wybodaeth hon a phenderfynu peidio â chael y llawdriniaeth o gwbl os na fyddai'n gallu penlinio beth bynnag. Os penderfynir parhau â'r llawdriniaeth, bydd y claf yn ymwybodol ymlaen llaw nad yw'n debygol y bydd y llawdriniaeth yn galluogi iddo benlinio. Gall y math hwn o ddadansoddiad fod yn ddefnyddiol iawn i glinigwyr wrth geisio rheoli disgwyliadau cleifion.


**Ymatebion Sgôr Pen-glin Rhydychen gan gleifion arthroplasti'r pen-glin**




Ffigwr 2: Canolbwynt yr ymatebion i gwestiynau Sgôr Pen-glin Rhydychen cyn, a 12 mis ar ôl triniaeth

Gall cydgasglu data a adroddir gan gleifion hefyd ein helpu i ddeall canlyniadau cleifion ac ansawdd eu bywydau ar ôl derbyn triniaeth. Er enghraifft, wrth gymharu ymatebion cyfartalog holiaduron PROMs rhwng cleifion o wahanol glinigau, clinigwyr, adrannau, ysbytai neu fyrddau iechyd, gellir adnabod unrhyw ardaloedd sy'n eu hamlygu eu hunain, er gwell neu er gwaeth. O ganlyniad, anogir cyd-ddysgu wrth ganiatáu i ardaloedd â chanlyniadau gwael i ddysgu oddi wrth yr ardaloedd sy'n gwneud yn well. Gall y mathau hyn o gymariaethu hefyd fod yn berthnasol i PREMs, gydag ardaloedd yn dysgu oddi wrth ei gilydd sut i wella materion fel amseroedd aros, parcio ceir neu gwrteisi staff.

Fel y soniwyd ynghynt, mae PROMs cyflwr-benodol yn addas ar gyfer cymharu cleifion sydd â'r un cyflwr, ond gellir cymharu PROMs cyffredinol rhwng cleifion sydd â chyflyrau gwahanol. O wybod hyn, yn aml gall cyfuno PROMs â data costau a gasglwyd yn gyson ganiatáu cymariaethau pellach rhwng triniaethau. Mae Ffigwr 3 yn enghraifft o ddefnyddio PROMs cyflwr-benodol er mwyn cymharu agweddau triniaethau ar gyfer yr un cyflwr. Wrth gyfuno canlyniadau a adroddir gan gleifion â data clinigol, dangosir bod modd cymharu perfformiadau cyfartalog gwahanol fathau o brosthesis a ddefnyddiwyd mewn llawdriniaethau pen-glin newydd. Gall hyn helpu clinigwyr i benderfynu pa fewnblaniad, os o gwbl, yw'r un gorau ar gyfer eu claf.




Ffigwr 3: Plot twndis o gymedr y cynnydd a gyfrifwyd gan Sgôr Pen-glin Rhydychen fesul mathau o brosthesis (mae'r llinellau sy'n diffinio'r rhanbarthau cysgodol y tu fas i'r twndis yn cyfateb i +/- 2 a 3 gwyriad safonol y cymedr (Department of Health 2011))

Mae'r enghraifft hon yn cymharu triniaethau o safbwynt y claf. Pan gysylltir y wybodaeth hon â data ar gostau, gall dadansoddiad o'r fath helpu cyrff llywodraethu i benderfynu pa driniaethau i'w blaenoriaethu. Mae hyn yn enwedig o wir am PROMs cyffredinol, ac yn benodol yr holiadur EQ-5D. Gan ei fod yn addas ar gyfer creu cymhariaeth rhwng pob math o gleifion, gellir trawsnewid ei sgôr cyfunol i Flwyddyn Bywyd a Addaswyd gan Ansawdd (*Quality Adjusted Life Year*) (QALY). Yn syml, mae QALY yn fesur sy'n gallu cymharu buddion iechyd o driniaethau gwahanol dros amser (Weinstein et al., 2009). Pan fo costau'r triniaethau hefyd ar gael, gellir cyfrifo'r gost fesul QALY. QALY a chost fesul QALY yw'r ffordd decaf ar hyn o bryd o gymharu effeithiolrwydd cost triniaethau ar gyfer cyflyrau gwahanol, a defnyddir hwy mewn economeg iechyd yn rheolaidd. Yn wir, defnyddia'r *National Institute for Health and Care Excellence* yr EQ-5D i gyfrifo'r QALY a chost fesul QALY yn rheolaidd er mwyn gwneud eu hargymhellion iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig (National Institute for Health and Care Excellence 2013). Defnyddir yr argymhellion hyn gan ddarparwyr gofal er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarparir wedi ei seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Dengys yr enghreifftiau hyn y budd posibl o gasglu data a adroddir gan gleifion a sut y gallant gefnogi gofal iechyd darbodus. Nid yw casglu PROMs a PREMs yn gysyniad newydd, ac eisoes cesglir PROMs yn gyson mewn nifer o wledydd ar draws y byd ar gyfer

nifer o gyflyrau gwahanol, gan gynnwys yr Iseldiroedd ac Unol Daleithiau America (Van Der Wees et al. 2014). Ceir nifer o fentrau ar y gweill i'w casglu yn y Deyrnas Unedig hefyd. Yn GIG Lloegr, er enghraifft, lansiwyd rhaglen genedlaethol i gasglu PROMs gan gleifion clun a phen-glin newydd ar draws y wlad ers 2009 (Department of Health 2008, Devlin et al. 2010), a hyd yn hyn derbyniwyd PROMs gan gannoedd o filoedd o gleifion (NHS Digital 2019a). Yn ogystal, adroddwyd i'r gronfa hon gael llawer o ddefnydd ers i'r fenter ddechrau (Basser 2015). Mae esiamplau yn cynnwys *Circle Bath*, sef darparwr iechyd a gofal sy'n trin cleifion preifat, a GIG Lloegr, a ddefnyddiodd y data cenedlaethol hyn er mwyn dylanwadu ar nifer o ffactorau yn y gofal a ddarparwyd. Un esiampl oedd canfod y mathau o fewnblaniadau'r (*implants*) glun a'r pen-glin a oedd yn arwain at y cynnydd mwyaf i gleifion o ran eu hansawdd bywyd. Wrth archebu'r mewnblaniadau hyn yn unig, gostyngwyd y gost oherwydd y gallu i brynu mewn swmp, tra bod ansawdd bywyd cleifion yn elwa (Basser 2015). Gan ddefnyddio dulliau tebyg, penderfynodd Northumbria NHS Trust hefyd i newid eu mewnblaniadau (Baker et al. 2012), ac i beidio ag ailwynebu'r *patella* (*patella resurfacing*) oherwydd darganfuwyd nad oedd yn gost-effeithiol (Baker et al. 2014).

Er yr holl waith addawol hwn, bu'n broses araf i ymestyn casgliad cenedlaethol PROMs i gyflyrau eraill yn Lloegr (Calvert et al. 2015).

## PROMs a PREMs yng Nghymru

Er mwyn bodloni anghenion gofal iechyd y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, gwnaeth Comisiwn Bevan, sef grŵp sy'n darparu cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru, gynghori'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio tuag at ofal iechyd darbodus, ac amlygodd PROMs a PREMs fel elfennau allweddol (Aylward et al. 2013, Bevan Commision 2015a, Bevan Commision 2015b). Casglwyd y data hyn am nifer o flynyddoedd er mwyn gwneud gwaith ymchwil ac er mwyn gwella gwasanaethau mewn adrannau unigol, ac mae adnoddau ar gael i gynorthwyo casglu yn y Saesneg a'r Gymraeg (MI-Cym 2019, Prifysgol Bangor 2019). Serch hynny, yn draddodiadol, casglwyd data ar bapur, lle yr oedd angen staff i ddanfon, derbyn a mewnbynnu'r data ar gyfrifiadur. Er bod rhai wedi dechrau defnyddio systemau electronig a grëwyd gan gwmnïau preifat (Amplitude Clinical Outcomes 2019, Patients Know Best 2019), mae hyn wedi atal casglu data ar raddfa eang yn hanesyddol, ac yn un o'r rhesymau pam y cyfyngwyd casglu data yng Nghymru i gynlluniau bach lleol.

Un enghraifft nodedig o gasglu PROMs ar raddfa ehangach yw'r prosiect *Health Improvement and Patient Outcome* (HIPO), a sefydlwyd yn 2002 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro (Quality and Safety Commitee 2010). Pwrpas y prosiect oedd casglu PROMs gan gleifion o Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Prifysgol Llandochau, Ysbyty Rookwood ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Danfonwyd holiaduron papur yn y post i bob claf mewnol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, tra danfonwyd holiaduron papur i gleifion allanol ar ôl iddynt fynd i'r clinig. O ganlyniad, crëwyd cronfa ddata newydd o'r enw *Health Outcomes Data Repository* (HODaR), a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith ymchwil ac archwilio (*audit*) (Currie

et al. 2005). Roedd y prosiect yn llwyddiannus iawn a chyflawnwyd nifer o ddarnau o waith pwysig o ganlyniad. Wrth gyfuno'r data hyn â data clinigol, cymharodd ymchwilwyr ansawdd bywyd cleifion diabetes â chydglefydeddau (*comorbidities*) gwahanol (Morgan et al. 2006), a'u cysylltiad â phwysau corff (Lee et al. 2005). Yn ogystal, wrth gyfuno'r PROMs â chostau, edrychodd ymchwilwyr ar effeithiolrwydd cost triniaethau gwahanol (Ackroyd et al. 2006).

Yn anffodus, daeth y prosiect i ben yn 2012 oherwydd materion ariannu, wedi casglu dros 96,000 PROMs oddi wrth gleifion ar draws ardal y bwrdd iechyd (Quality and Safety Commitee 2010). Nid ychwanegwyd unrhyw beth i'r gronfa ddata ers hynny, ond mae'r bwrdd iechyd yn parhau i dderbyn ceisiadau i ddefnyddio'r gronfa ddata er mwyn dechrau astudiaethau newydd. Yn ategol at hynny, gofynnodd o leiaf un bwrdd iechyd arall yng Nghymru i BIP Caerdydd a'r Fro i brosesu ei holl holiaduron PROMs ar ei ran.

Enghraifft arall o gasglu PROMs a PREMs ar raddfa fwy yw'r rhaglen *Value-Based Health Care* (VBHC) a ddechreuodd yn 2014 yn BIP Aneurin Bevan (Cahill et al. 2019). Yn hytrach na dim ond lleihau ei wariant, penderfynodd y bwrdd iechyd gyfeirio adnoddau at yr ardaloedd sy'n gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion y mwyaf. Hynny yw, sicrhau bod pob triniaeth a dull gofal yn werth am arian. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen mesur 'gwerth' triniaethau a dulliau gofal, a oedd yn golygu canfod data cost ar lefel y claf a chasglu PROMs a PREMs mewn nifer o ardaloedd gwahanol.

Dechreuodd y rhaglen VBHC gan gasglu PROMs mewn dau glinig clefyd Parkinson, ac ymddangosodd yn syth fod casglu data o'r fath yn werth yr ymdrech. Gan fod y data ar gael iddynt yn syth yn y clinig, llwyddodd y clinigwyr i ganolbwyntio ar yr materion a oedd bwysicaf i'w cleifion yn ystod eu trafodaeth (Arora et al. 2017). Yn ogystal, ailgynlluniwyd y gofal a ddarparwyd gan gynnig clinig arbenigol, ac o ganlyniad, gwelwyd gwelliant ym mhrofiadau cleifion ac effeithlonrwydd y clinig (The Economist Intelligence Unit 2019). Ers hynny, casglwyd dros 13,000 PROMs gan gleifion o 140 clinig mewn 18 ardal wahanol, gan gynnwys cleifion sydd ag epilepsi, myeloma a dementia ar draws de-ddwyrain Cymru (Cahill et al. 2019) trwy ddefnyddio system electronig gan DrDoctor (DrDoctor 2019).

## Y Rhaglen PROMs, PREMs ac Effeithiolrwydd

Mae llwyddiant y prosiectau hyn wedi profi bod gan gasglu data a adroddir gan gleifion ar raddfa eang y potensial i helpu i wireddu gofal iechyd darbodus yng Nghymru. Mae casglu data ar draws bwrdd iechyd unigol wedi caniatáu cymariaethau rhwng nifer o adrannau, ac arweiniodd y drafodaeth yn naturiol at allu cymharu data rhwng byrddau iechyd ledled Cymru ar gyfer dysgu ehangach. Yn dilyn arolwg seneddol (Hussey et al. 2018), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun hir-dymor er mwyn galluogi gofal iechyd darbodus ar draws y wlad (Llywodraeth Cymru 2018). Un elfen o'r cynllun hwn oedd ymestyn y rhaglen VBHC ar draws GIG Cymru (Prif Swyddog Meddygol Cymru 2019). Ei phwrpas yw darparu'r gofal iechyd gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael, gan ystyried canlyniadau cleifion a chost. O ganlyniad, dymunwyd dechrau casglu PROMs a PREMs yn genedlaethol, a sefydlwyd y Rhaglen PROMs, PREMs ac Effeithiolrwydd (*PROMs, PREMs and Effectiveness*

*Programme*) (PPEP) yn 2016. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru, fe'i cefnogir gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru, ac yn ddiweddar fe'i hymgyfunwyd â'r rhaglen VBHC estynedig. Ceir tîm gweithredu o BIP Caerdydd a'r Fro, tîm datblygu o'r Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC), a thîm dadansoddi o Cedar, sef canolfan ymchwilio technoleg iechyd a gofal sydd hefyd yn rhan o BIP Caerdydd a'r Fro.

Bwriad a phrif ddamcaniaeth y PPEP a'r gwaith hwn yw:

1. Datblygu'r system gasglu PROMs a PREMs genedlaethol gyntaf yng Nghymru er mwyn casglu data yn gyson ar raddfa eang.
2. Creu cronfa fawr o ddata PROMs a PREMs a fydd yn debygol o gryfhau effeithiolrwydd GIG Cymru trwy weithredu gofal iechyd darbodus.

Yn y pen draw, gobeithir y bydd y system yn casglu data gan bob claf eilaidd yn GIG Cymru (sef cleifion a atgyfeirir at yr ysbyty), a bod casglu data o'r fath yn dod yn rhan gyson o lwybr y claf (*patient pathway*).


Mae gweddill yr erthygl hon yn arolygu datblygiad y system electronig casglu PROMs a PREMs cenedlaethol, ac yn rhoi ambell enghraifft o sut y defnyddiwyd y data cynnar a gasglwyd hyd yn hyn.

## Ble i ddechrau?

Dengys y rhestr isod bedair proses allweddol yr oedd eu hangen i greu a gweithredu'r system casglu data:

1. Canfod cytundeb cenedlaethol ar ba holiaduron PROMs i'w defnyddio ar draws Cymru
2. Datblygu holiadur PREMs newydd i'w ddefnyddio ar draws holl ardaloedd gofal eilaidd yng Nghymru
3. Cyfieithu, trawsnewid a dilysu'r holiaduron er mwyn cael holiaduron electronig Cymraeg cywir
4. Adeiladu system electronig sy'n gallu casglu holiaduron dwyieithog yn hunanysgogol.

Rhy Ffigwr 4 y prosesau hyn yn eu cyd-destun.




Ffigwr 4: Diagram o'r camau yr oedd eu hangen er mwyn ychwanegu holiaduron PROMs a PREMs i'r system gasglu electronig

## Pa PROMs y dylid eu defnyddio?

Er mwyn gwneud y gorau o unrhyw system gasglu PROMs, dylid casglu PROMs cyflwr-benodol a chyffredinol, a dyna'r hyn a fabwysiadwyd. Y gorchwyl gan Lywodraeth Cymru oedd canolbwyntio ar gasglu data mewn orthopaedeg, canser yr ysgyfaint, cardioleg (yn canolbwyntio ar fethiant y galon), ac offthalmoleg (yn canolbwyntio ar gataractau), ond cafodd cyflyrau eraill eu hystyried yn ogystal. Gofynnwyd i grwpiau cynrychiolaidd o glinigwyr arbenigol gytuno ar ba holiaduron PROMs cyflwr-benodol y dylid eu defnyddio er mwyn casglu data ar gyfer pob cyflwr. Ystyriwyd a oedd yr holiadur yn addas i'w cleifion, pa mor ddefnyddiol fyddai'r data a gesglid gan yr holiadur, ac ar ba adegau y dylid casglu'r data. Unwaith y cytunodd y clinigwyr, seiliwyd y dderbyniaeth derfynol ar:

1. A yw'r holiadur wedi cael ei ddilysu?
2. A ellir cael trwydded i ddefnyddio'r holiadur?
3. A ellir cael caniatâd i gyfieithu'r holiadur i'r Gymraeg?
4. A yw nifer y cwestiynau yn yr holiadur yn dderbyniol?

Ar gyfer y PROMs cyffredinol, penderfynwyd y dylai pob claf eilaidd lenwi'r un holiaduron, sef yr EQ-5D-5L (Herdman et al. 2011) a'r holiadur *Work Productivity and Activity Impairment* (Reilly et al. 1993). Cyfunwyd y rhain â mwy o gwestiynau am bwysau, taldra, hanes ysmygu, lefelau ymarfer corff ac yfed alcohol, yn ogystal â chwestiwn ar gydglefydeddau meddygol (*medical comorbidities*).

## Pa PREMs y dylid eu defnyddio?

Gan fod holiaduron PREMs yn tueddu i fod yn benodol i'r lleoliad, adran neu'r staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal y claf, yn aml mae adrannau gwahanol o fewn yr un ysbyty yn casglu PREMs cwbl wahanol i'w gilydd. Yn draddodiadol mae hyn wedi golygu na ddatblygwyd holiaduron PREMs sy'n addas i bawb. Gyda'r nod o gasglu data yn gyson ar draws Cymru, dymunwyd cael holiadur a fyddai'n addas mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol. Yn wahanol i PROMs lle yr oedd angen dewis pa holiaduron y dylai cleifion yng Nghymru eu llenwi, ar gyfer PREMs roedd rhaid canfod pa gwestiynau unigol y dylai cleifion Cymru eu hateb.

Cynhaliwyd gwaith hanesyddol gan adran '1000 o Fywydau' yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2013, sef gwaith o ddatblygu holiadur cenedlaethol PREMs i Gymru, gan arwain at set wreiddiol o un cwestiwn ar ddeg (1000 Lives Improvement 2013, Williams et al. 2013). Er y treialwyd y cwestiynau gwreiddiol hyn ar draws nifer o sefyllfaoedd gofal iechyd yng Nghymru, ni ddilyswyd hwy'n ffurfiol fel set gyfan, ac o ganlyniad darganfu darparwyr gofal iechyd bod rhai cwestiynau'n anaddas i'w cyd-destun neilltuol. O ganlyniad, roedd y broses o gasglu data yn dameidiog oherwydd bod darparwyr yn dewis a dethol y cwestiynau a oedd fwyaf addas iddynt.

Anelodd y PPEP at ddatblygu'r set wreiddiol o un cwestiwn ar ddeg ymhellach er mwyn eu defnyddio ar ein system gasglu electronig, gan sicrhau bod pob cwestiwn yn addas ar gyfer holl sefyllfaoedd gofal iechyd yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2016, ac roedd yn cynnwys:

1. Gweithdy gyda thimau profiad cleifion ar draws Cymru er mwyn trafod cyfyngiadau a methodoleg
2. Grwpiau ffocws gyda chleifion ar draws Cymru er mwyn darganfod pa gwestiynau oedd bwysicaf iddynt, pa gwestiynau sy'n berthnasol i bob math o sefyllfaoedd gofal iechyd yng Nghymru, a pha faterion pwysig nad ydynt wedi eu codi eto
3. Cadarnhad gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu cyflwyno'r holiadur ar draws Cymru.

O ganlyniad i'r broses hon, datblygwyd holiadur PREMs newydd a oedd yn cynnwys naw cwestiwn, yn barod i'w ddefnyddio ar draws y wlad (Withers et al. 2018).

## Cyfieithu, trawsnewid a dilysu

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (UK Government 2014) yn golygu ei bod yn ofyniad cyfreithiol i bob dogfen gyhoeddus a ddefnyddir gan GIG Cymru fod ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg. Cyfieithwyd pob holiadur gan ddefnyddio prosesau llym a bennir gan ddeiliaid trwydded yr holiaduron, neu wrth ddilyn canllawiau'r *International Society for Pharmacoeconomics and Outcomes Research* (Coons et al. 2009). Roedd pob proses yn cynnwys blaen-gyfieithu (*forward translation*), ôl-gyfieithu (*back translation*), harmoneiddio a chywiriadau parhaus cyn cyrraedd fersiwn derfynol yn y Gymraeg.

Ar ôl eu cyfieithu, trosglwyddwyd pob holiadur i ffurflen electronig er mwyn ei gynnwys ar y system gasglu electronig. Gall cleifion gyrraedd y ffurflenni electronig trwy wefannau sydd wedi eu hoptimeiddio ar gyfer y cyfrifiadur, neu ar gyfer dyfeisiau symudol, ar gyfer mynediad haws.


Roedd datblygwyr yr holiadur eisoes wedi profi cywirdeb y fersiynau papur Saesneg o bob holiadur PROMs. Fodd bynnag, ar ôl eu trawsnewid i ffurflen electronig neu eu cyfieithu i'r Gymraeg roedd angen profion ychwanegol. Roedd angen profi am ddefnyddioldeb, darllenadwyedd a natur ymarferol pob holiadur gyda chleifion perthnasol. Er enghraifft, roedd angen dilysu Sgôr Clun Rhydychen gyda chleifion a oedd am dderbyn clun newydd. Enw'r broses hon yw 'dilysiad wyneb' (*face validation*), sy'n sicrhau bod cleifion yn deall cwestiynau a chyfarwyddiadau'r holiadur er mwyn gallu ei lenwi heb drafferth. Roedd angen y dilysiadau canlynol ar gyfer pob holiadur ar y system:

1. Dilysiad wyneb ar gyfer pob holiadur electronig Saesneg
2. Dilysiad yr iaith Gymraeg ar gyfer pob holiadur a gyfieithwyd
3. Dilysiad wyneb ar gyfer pob holiadur electronig Cymraeg.

Ymgymerwyd â'r dilysiadau hyn mewn cyfres o ymweliadau clinig a chyfweliadau gyda chleifion ar draws Cymru. Hyd yn hyn, mae dros 300 claf wedi cymryd rhan yn y broses hon. Bydd mwy o waith profi a dilysu unwaith y cesglir mwy o ddata.

## Y system gasglu data electronig

Datblygwyd ein system gasglu electronig genedlaethol gan y GGGC. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2016, ac mae'r system nawr yn gallu casglu PROMs a PREMs dwyieithog ar draws Cymru, gan ddarparu'r data i garfannau perthnasol fel clinigwyr a dadansoddwyr data. Canolbwyntir y system o gwmpas dwy wefan hawdd i'w defnyddio, un ar gyfer casgliad o bell (GIG Cymru 2016), ac un ar gyfer casgliad o'r clinig. Dangosir diagram o'r system electronig yn Ffigwr 5.





Ffigwr 5: Diagram o'n system gasglu electronig

Dyluniwyd y wefan casglu o bell fel y gall cleifion lenwi eu holiaduron perthnasol o gysur eu cartref eu hunain, gydag ychydig iawn o fewnbwn gan staff clinigol. Mae hyn yn osgoi tarfu ar glinigau sydd eisoes yn brysur. Pan gyfeirir claf at ofal eilaidd yng Nghymru, gosodir hwy ar lwybr claf (*patient pathway*) ar SGCC (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2019b), sy'n trefnu'r camau gweithredu nesaf i'r claf hwnnw. Cysylltir ein system gasglu electronig i'r SGCC ac o ganlyniad danfonir cod llwybr y claf yn syth i'n system gweinyddu holiaduron. Caniatâ hyn i'n system wybod yr atebion i'r cwestiynau canlynol heb unrhyw fewnbwn gan staff:

1. Pa holiaduron y dylai'r claf hwn eu llenwi?
2. Pryd y dylai'r claf hwn lenwi'r holiaduron?

Gofynnir i gleifion lenwi holiaduron PROMs cyn derbyn triniaeth, a chyfuniad o holiaduron PROMs a PREMs ar ôl triniaeth. Dengys Ffigwr 6 enghreifftiau o ysgogiadau casglu PROMs ar gyfer tri chyflwr gwahanol.




Ffigwr 6: Diagram o'r ysgogiadau casglu PROMs gwahanol ar gyfer cyflyrau gwahanol

Pan ddaw'r amser i glaf lenwi holiadur, mae angen i gleifion gael hysbysiad o'n system weinyddu holiaduron, sy'n gofyn iddynt lenwi eu holiaduron perthnasol ac sy'n cynnwys dolen i'r wefan casglu o bell a manylion mewngofnodi. Derbyniant eu hysbysiad cyntaf gyda'u gohebiaeth ysbyty, a all fod yn llythyr, yn e-bost neu'n neges destun. Yn dilyn hynny, gofynnir am eu cyfeiriad e-bost, sy'n caniatáu'r opsiwn o dderbyn pob hysbysiad arall drwy e-bost os dymunant.

Yn achos y wefan casglu o'r clinig, gofynnir i gleifion lenwi eu holiaduron ar gyfrifiadur, ar dabled neu ar ffôn symudol yn y clinig wrth eistedd yn yr ystafell aros, naill ai cyn neu ar ôl eu hapwyntiad. Yn wahanol i'r dull casglu o bell, mae angen i aelod o'r staff ddewis pa holiadur y dylai'r claf ei lenwi, oherwydd nad yw'r dull hwn wedi ei gysylltu â'r SGCC. Defnyddiwyd y dull casglu hwn fel datrysiad pwysig dros dro tra bod gwaith ar y system electronig yn parhau, ond mae manteision i'w ddefnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys peidio â gorfod aros i gysylltu â'r SGCC cyn gallu casglu data, yn ogystal â gwell cyfradd ymateb gan gleifion am y gofynnir iddynt wyneb yn wyneb gan aelod o'r staff i gwblhau'r holiadur.

Ar ôl llenwi holiadur ar-lein, o bell neu o'r clinig, anfonir data'r claf i'r GGGC i'w storio yng nghronfa ddata PROMs a PREMs. Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru, yn ogystal â Cedar (tîm dadansoddi'r PPEP) fynediad at y gronfa ddata hon, ac mae hyn yn caniatáu dadansoddiad o ddata cyfartalog ar y lefelau adrannol, sefydliadol, cenedlaethol a thriniaethol. Mae gan glinigwyr hefyd fynediad at y data ar lefel y claf ym Mhorth Clinigol Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2019c), sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddeall ymatebion eu cleifion yn well er mwyn eu trafod mewn apwyntiadau clinig.

Roedd datblygu'r system electronig hon yn broses hynod o gymhleth ac mae'n parhau i gael ei diweddaru'n rheolaidd (O'Connell et al. 2018).

## Beth yr ydym wedi ei gasglu?

Hyd yn hyn, mae'r holiadur PREMs newydd, dau holiadur PROMs cyffredinol, a naw ar hugain o holiaduron PROMs cyflwr-benodol ar gael ar ein system gasglu electronig. Lle bo angen, sicrhawyd trwyddedau, cyfieithwyd pob un i'r Gymraeg a thrawsnewidiwyd i ffurflenni electronig gan ddilyn y canllawiau perthnasol. Dilyswyd hefyd y mwyafrif helaeth o holiaduron gyda chymorth cleifion ar draws Cymru, ac mae'r gwaith o ddilysu'r rhai sy'n weddill yn parhau.

Dyluniwyd ein holiadur PREMs newydd, a ddangosir yn Nhabl 3, ynghyd â'n holiaduron PROMs cyffredinol, ar gyfer eu defnyddio gan unrhyw glaf eilaidd sy'n oedolyn ar draws Cymru.

| PREMs | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cwestiynau** | **Atebion** | |
| 1. | Oeddech chi'n teimlo bod pobl wedi gwrando arnoch? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 2. | Oeddech chi'n teimlo y gofalwyd amdanoch yn dda? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 3. | O'r adeg y gwnaethoch sylweddoli bod angen i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, a oedd yr amser y gwnaethoch aros: | • Yn fyrrach na'r disgwyl<br>• Tua'r amser cywir | • Ychydig yn rhy hir<br>• Yn llawer rhy hir |
| 4. | Os gwnaethoch chi ofyn am help, a gawsoch chi help ar yr adeg iawn? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 5. | Oeddech chi'n teimlo eich bod yn deall beth oedd yn digwydd o ran eich gofal? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 6. | A gafodd pethau eu hesbonio i chi mewn ffordd y gallech ei deall? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 7. | Oeddech chi'n gallu cyfrannu at benderfyniadau am eich gofal cymaint ag yr oeddech eisiau? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth |
| 8. | Oeddech chi yn gallu siarad Cymraeg â staff os oedd angen? | • Bob amser<br>• Fel arfer | • Weithiau<br>• Byth<br>• Ddim yn berthnasol |
| 9. | Gan ddefnyddio'r raddfa 0-10, lle mae 0 yn golygu gwael iawn, a 10 yn golygu ardderchog, sut fyddech chi'n sgorio eich profiad cyffredinol? | | |

Tabl 3: Yr holiadur PREMs newydd ar ein system gasglu electronig

Mae'r naw ar hugain o holiaduron PROMs cyflwr-benodol ar gael i'w defnyddio gan gleifion sydd â chyflyrau perthnasol ar draws Cymru. Cytunodd grwpiau clinigol y gallai un holiadur PROMs cyflwr-benodol fod yn addas ar gyfer mwy nag un cyflwr mewn rhai achosion, tra bod angen i gyflyrau eraill gael mwy nag un holiadur er mwyn casglu'r holl ddata angenrheidiol. Rhestra Tablau 4 a 5 yr holiaduron PROMs cyflwr-benodol ar ein system, yn ogystal â'r cyflyrau y cesglir hwy ar eu cyfer.

Er yr ychwanegwyd nifer fawr o holiaduron i'r system electronig hyd yn hyn, mae'r gwaith hwn yn parhau, a disgwylir ychwanegu holiaduron newydd maes o law.

| Holiaduron PROMs Cyflwr-benodol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr Clun Rhydychen** (Dawson et al., 1996a) | **Gwerthusiad Pen-glin Goddrychol IKDC** (Irrgang et al., 2011) | **Sgôr Ansefydlogrwydd Ysgwydd Rhydychen** (Dawson et al., 1999) | **Cat-PROM 5** (Sparrow et al., 2017) | **Mynegai Cyfansawdd Estynedig Canser y Prostad (EPIC 26)** (Szymanski et al., 2010) | **Mesuriad Gwerthuso Cleifion (PEM)** (Burke et al., 1995) |
| **iHOT 12 Offeryn Canlyniad Clun Rhyngwladol** (Griffin et al., 2012) | **Graddfa Gweithgaredd Tegner** (Tegner et al., 1985) | **Sgôr Ysgwydd Rhydychen** (Dawson et al., 1996b) | **Tonsilectomi 14** (Hopkins et al., 2010) | **EORTC QLQ-GI NET 21** (Davies et al., 2006) | **Holiadur Syndrom Twnnel Carpal Boston** (Levine et al., 1993) |
| **Sgôr Pen-glin Rhydychen** (Dawson et al., 1998a) | **Graddfa Poen Blaen y Pen-glin** (Kujala et al., 1993) | **Holiadur Cardiomyopathi Kansas City** (Green et al., 2000) | **Prawf Canlyniad Sino-Drwynol (SNOT-22)** (Hopkins et al., 2009) | **Ffurflen Graddfa Garthion Bryste** (O'Donnell et al., 1990) | **Graddfa Unite´ Rhumatologique des Affections de la Main (URAM)** (Beaurdeuil et al., 2011) |
| **Arolwg Pen-glin KOOS** (Roos et al., 2003) | **Holiadur Troed Manceinion-Rhydychen** (Garrow et al., 2000) | **PROMIS Gweithrediad Corfforol - Ffurf Fer 4a** (DeWalt et al) | **EORTC QLQ-C30** (Aaronson et al., 1993) | **Holiadur canlyniadau llaw Michigan Byr** (Waljee et al., 2011) | **Mesur Canlyniad Quick DASH** (Beaton et al., 2005) |
| **Sgôr Pen-glin Rhydychen – Gweithgaredd a Chyfranogiad** (Dawson et al., 2014) | **Sgôr Penelin Rhydychen** (Dawson et al., 2008) | **Holiadur Iechyd Cleifion 2** (Kroenke et al., 2003) | **EORTC QLQ-LC13** (Bergman et al., 1994) | **Gwerthusiad Arddwrn/Llaw a Raddir gan Glaf (PRWHE)** (Angst et al., 2005) | |

Tabl 4: Yr holiaduron PROMs cyflwr-benodol sydd ar gael ar ein system gasglu electronig

| Cyflyrau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arthroplasti'r glun** | **ACL (anterior cruciate ligament) y ben-glin** | **Triniaeth di-arthroplasty'r benelin** | **Cataract** | **Tiwmorau neuroendocrine (NETs)** | **Trawma anaf yr arddwrn neu twnnel carpal** |
| **Triniaeth di-arthroplasty'r glun** | **Cyflyrau patelofemoral y ben-glin** | **Ysgwydd ansefydlog** | **Tonsilectomi** | **Arthroplasti arthritis y llaw** | **Syndrom twnnel carpal** |
| **Arthroplasti'r ben-glin** | **Arthroplasti'r droed neu'r ffêr** | **Arthroplasti'r ysgwydd** | **Rhinosinwsitis** | **Triniaeth di-arthroplasti arthritis y llaw** | **Dupuytrens** |
| **Triniaeth di-arthroplasty'r ben-glin** | **Triniaeth di-arthroplasty'r droed neu'r ffêr** | **Triniaeth di-arthroplasti'r ysgwydd** | **Canser yr ysgyfaint** | **Rhiwmatoid yr arddwrn** | **Cyflyrau cyffredinol y llaw** |
| **Osteotomi'r ben-glin** | **Arthroplasti'r benelin** | **Methiant y galon** | **Canser y brostad** | **Cyflyrau'r arddwrn** | |


Tabl 5: Y cyflyrau lle y gofynnir i gleifion lenwi holiadur PROMs cyflwr-benodol mewn lleoliadau gwahanol ar draws Cymru

Gofynnwyd i gleifion lenwi holiaduron yn y lle cyntaf ym mis Mehefin 2016 wrth gasglu data o glinig orthopaedeg yn BIP Betsi Cadwaladr. Casglwyd y data cyntaf o bell yn BIP Caerdydd a'r Fro ym mis Rhagfyr 2016. Ers hynny, casglwyd data o ryw fath, naill ai o bell neu o'r clinig, o adrannau gwahanol yn BIP Aneurin Bevan, BIP Bae Abertawe (yn wreiddiol BIP Abertawe Bro Morgannwg), BIP Cwm Taf Morgannwg (yn wreiddiol BIP Cwm Taf), BIP Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Gofynnir i gleifion eilaidd yng Nghymru lenwi'r holiaduron PROMs cyffredinol, ynghyd â holiaduron PROMs cyflwr-benodol os ydynt ar gael ar y system. Llenwyd y rhain cyn i'r claf dderbyn triniaeth ac ar nifer o adegau ar ôl triniaeth, yn dibynnu ar yr amserlen gasglu y cytunwyd arni.

Hyd at 07/2019, casglwyd dros 66,000 PROMs a PREMs oddi wrth dros 25,000 claf eilaidd ledled Cymru. O'r rhain, roedd dros 280 yn PREMs, dros 60,200 yn PROMs cyffredinol a thros 6,200 yn PROMs cyflwr-benodol. Daeth y mwyafrif helaeth o'r PROMs cyflwr-benodol oddi wrth gleifion sydd ag un o'r pedwar cyflwr dan sylw, sef 69% o orthopaedeg, 14% o ganser yr ysgyfaint, 8% o gardioleg a 5% o offthalmoleg. Dengys Ffigwr 7 ein casgliad cenedlaethol. Gan fod ein system electronig yn system fyw, cesglir mwy o ddata bob diwrnod.

Yn 2017/18, roedd 978,400 episod ymgynghorydd gorffenedig (*finished consultant episode*) yng Nghymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2019a), sy'n awgrymu bod cyfradd ymateb y PPEP yn eithaf isel. Serch hynny, nid yw ein gwaith casglu eto'n hollgynhwysol, ac yn ystod y cyfnod gweithredu hwn gall byrddau iechyd gasglu data ar gyflyrau gwahanol i'w gilydd, naill ai trwy'r dulliau o bell neu o'r clinig. Yn ogystal, dechreuwyd dau dreial yn gofyn i gleifion lenwi'r holiadur PREMs ar ôl derbyn triniaeth. Mae'r gwaith o sicrhau casglu cyson a hollgynhwysol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru yn parhau.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl pennu cyfradd ymateb fanwl ar gyfer ymateb holiadur am nifer o resymau, gan gynnwys:




Ffigwr 7: Diagram yn dangos beth rydym wedi ei gasglu ar draws Cymru hyd at 07/2019[1]

[1] Nodwch y dosbarthwyd y canlyniadau hyn gan system ffiniau'r byrddau iechyd blaenorol. Daeth ffiniau newydd i rym yn swyddogol ar 01/04/2019 (Llywodraeth Cymru 2019) ac mae'r gwaith o ddiweddaru'r data yn parhau.

1. Yn achos y wefan gasglu o'r clinig, mae'n rhaid dibynnu ar staff y clinic i gadw cofnod o ba gleifion sydd wedi eu gwahodd i gwblhau holiadur. Nid yw hyn wedi ei gofnodi yn gywir neu wedi ei gofnodi o gwbl mewn rhai ardaloedd, felly nid yw nifer y cleifion a wrthododd lenwi holiadur yn hysbys. Gall hyn oramcangyfrif y gyfradd ymateb.
2. Yn achos y wefan gasglu o bell, os yw'r amser rhwng claf yn cael ei atgyfeirio at yr ysbyty a chael triniaeth yn fyr, nid yw'r claf yn derbyn gohebiaeth ysbyty bob tro. Yn yr achosion hyn, bydd holiadur wedi ei sefydlu iddynt ar y system ond ni ofynnir i'r claf lenwi'r holiadur, sy'n gallu tanamcangyfrif y gyfradd ymateb.

Parha'r gwaith i gyfrifo a gwella'r gyfradd ymateb trwy weithio gydag adrannau gwahanol ar draws Cymru.

Serch hyn, credwn fod cronfa ddata'r PPEP ar y ffordd i fod y gronfa fwyaf o PROMs a PREMs yng Nghymru, a dyma'r system gyntaf i gasglu ar draws nifer o gyflyrau gwahanol ar lefel cenedlaethol. Yn draddodiadol, mae casglu ar raddfa eang yn anodd, a heb raglen i gasglu'n genedlaethol mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yng Nghymru. Y gronfa fwyaf o PROMs yng Nghymru yr ydym yn ymwybodol ohoni yw'r gronfa ddata HODaR, sy'n cynnwys dros 96,000 PROMs a gasglwyd dros gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2002 a 2012 yn ardal Caerdydd gan y prosiect HIPO (Quality and Safety Commitee 2010). Casglodd system electronig y PPEP dros 66,000 PROMs a PREMs ar draws Cymru mewn tair blynedd, a chredir y bydd y gronfa ddata hon yn fwy na'r HODaR yn fuan. Yn ogystal, casglodd y rhaglen genedlaethol yn GIG Lloegr (Devlin et al. 2010) gannoedd o filoedd o PROMs yn achos pedwar cyflwr yn unig: arthroplasti'r glun a'r pen-glin, llawdriniaeth y groin/hernia a gwythiennau faricos (*varicose veins*) (NHS Digital 2019a). Yn wahanol i hyn, casgla'r PPEP ddata o dros 29 cyflwr gwahanol i gyd. Mae maint ac amrywiaeth cronfa ddata'r PPEP wedi ei wneud yn atyniadol iawn i'w defnyddio mewn gwaith ymchwil a gwella gwasanaethau, a bydd yn adnodd pwysig iawn wrth i'r gronfa dyfu.

## A ddefnyddiwyd y data cynnar hyn?

Cyn gallu defnyddio'r data i wneud penderfyniadau o ran gweithredu gofal iechyd darbodus, mae angen ystyried nifer o ffactorau er mwyn sicrhau bod unrhyw ddadansoddiad o'r data yn gywir ac yn gadarn.

Mae angen delio â data coll mewn dau achos, sef pan fydd cleifion yn methu â llenwi holiadur, neu'n methu cwestiynau unigol o fewn holiadur. Mae'r dull o ddelio â data coll (e.e. priodoliad lluosog (*multiple imputation*), rhyngosodiad (*interpolation*), dileu mewn parau (*pairwise deletion*) a.y.b.) yn dibynnu ar y math o ddadansoddi data a wneir, a'r mwyaf o ddata a fydd ar gael, y mwyaf cywir y bydd unrhyw ganlyniad o ddelio â data coll.

Ffactor arall i'w ystyried yw osgoi gogwydd (*bias*) trwy ddefnyddio addasiad achosion cymysg (*case-mix adjustment*). Er enghraifft, os dymunwn ddarganfod a yw oedran yn

effeithio ar sgoriau ai peidio, bydd angen diystyried effaith cydrannau eraill fel pwysau, cydglefydeddau, amserau aros a'r clinigwr triniaethol. Mae angen llawer o ddata priodol er mwyn datblygu dulliau priodol, yn ogystal â gwaith dadansoddi ystadegol a gwybodaeth arbenigol gan glinigwyr. Er bod dull penodol yn cael ei ddefnyddio yn Lloegr (NHS Digital 2019b), mae angen creu dull penodol newydd er mwyn cyd-fynd â'r data sydd ar gael yng Nghymru. Dechreuir y gwaith hwn unwaith y bydd digon o ddata priodol wedi eu casglu.

Yn olaf, mae angen ystyried natur oddrychol PROMs a PREMs. Er enghraifft, gall syniad poen un claf fod yn gwbl wahanol i glaf arall. Dylai datblygwyr yr holiaduron PROMs wneud ymdrech i leihau'r goddrycholdeb hyn trwy addasu'r holiadur, ond serch hynny, mae'n rhaid cydnabod bod dileu goddrycholdeb yn gyfan gwbl yn anodd iawn. Yn aml, nid yw gwerthoedd absoliwt sgoriau claf unigol mor bwysig â'i berthynas â'r sgôr blaenorol, er mwyn gweld a yw'r claf yn gwella neu'n gwaethygu. Ond, mae angen cymryd gofal wrth ddadansoddi data cydgasgledig oherwydd gall cronfeydd data bach ddangos amrywiad mawr. Gall dadansoddi cronfeydd data mwy osgoi hyn.

Er nad ydym yn casglu data mewn perthynas â phob cyflwr ym mhob adran drwy gydol yr amser, ac er bod yn rhaid bod yn hynod o ofalus wrth ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn, mae defnyddio'r data eisoes wedi arwain at nifer o oblygiadau clinigol cynnar. Mae trafodaethau â chlinigwyr hefyd ar y gweill er mwyn penderfynu pa fath o ddadansoddi data y gellir ei wneud unwaith y cesglir digon o ddata yn y mannau priodol. Yn raddol, dechreuir defnyddio'r data gan Cedar, y GGGC, a'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae dadansoddiad presennol o ddata orthopaedeg yn cynnwys sefydlu adolygiadau rhithwir (*virtual reviews*) trwy fonitro cynnydd cleifion ar ôl triniaeth wrth edrych ar ymatebion eu holiadur PROMs yn unig. Golyga hyn mai'r unig dro y bydd angen i'r cleifion fynd i'r clinig yw os yw eu PROMs yn achosi pryder, sy'n hwyluso amser staff, amser y claf ac yn lleihau costau. Fel arfer, bydd cleifion yn mynd i'r clinig orthopaedeg chwe mis a ddeuddeg mis ar gyfer archwiliad (*check-up*) ar ôl derbyn clun neu ben-glin newydd. Fodd bynnag, er y gwelwyd cynnydd mewn ansawdd bywyd cleifion yn eu PROMs chwe mis ar ôl triniaeth, ni welwyd unrhyw ddirywiad ddeuddeg mis ar ôl triniaeth. Gan hynny, awgrymodd clinigwyr nad oedd angen i'r mwyafrif o gleifion fynd i'r clinig ddeuddeg mis ar ôl triniaeth, a mynegodd ambell fwrdd iechyd eu bwriad i edrych ar hyn yn fwy manwl, gan, o bosibl, newid y ffordd y rhedir eu clinigau orthopaedeg yn y dyfodol.

Enghraifft arall o waith cynnar yw datblygu dangosfyrddau delweddu data (*data visualisation dashboards*) gan ddefnyddio'r PROMs a gwblhawyd gan gleifion canser yr ysgyfaint a chardioleg. Datblygwyd y dangosfyrddau hyn gan dîm delweddu data'r GGGC, gyda chymorth arbenigol gan glinigwyr o BIP Hywel Dda. Dangosir PROMs claf unigol a PROMs wedi eu grwpio ar y dangosfyrddau, yn ogystal â chyfuno'r PROMs â data clinigol arall fel meddyginiaethau a delweddau meddygol. Bydd y dangosfyrddau hyn yn caniatáu clinigwyr i edrych yn rhyngweithiol ar PROMs y claf yn y clinig er mwyn monitro ei gynnydd iechyd a'i symptomau. Dechreua clinigwyr ddefnyddio'r dangosfyrddau yn y clinig, a bydd y gwaith i werthuso'r dechnoleg hon yn parhau.

Yn ogystal, mae clinigwyr a thimau gwybodaeth BIP Bae Abertawe wedi dechrau defnyddio'r PROMs cardioleg er mwyn sicrhau y rhoddir cleifion ar y llwybr triniaethol cywir, trwy ddadansoddi cyfuniadau o atebion PROMs megis 'diffyg anadl' a chydglefydeddau (Jenkins et al. 2019). Credir nad yw hyd at 15% o gleifion cardioleg posibl wedi eu rhoi ar lwybr triniaethol priodol oherwydd diagnosis aneglur neu ddiagnosis a gollwyd. Dengys arwyddion cynnar fod defnyddio PROMs yn y ffordd hon wedi lleihau'r pwysau ar dimau ecocardiograff a oedd yn cael eu defnyddio pan oedd y diagnosis gwreiddiol yn aneglur. Yn ogystal, gall PROMs arwain at fyrhau arhosiad claf yn yr ysbyty.

Wrth i ragor o ddata gael eu casglu gan y system electronig, y mwyaf cynhwysfawr y bydd unrhyw waith posibl o ddadansoddi ar gyfer gwella gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru.

## Beth nesaf?

Yn y pen draw, gobeithir y bydd y broses gyson o gasglu PROMs a PREMs gan ein system electronig yn dod yn rhan arferol o brosesau GIG Cymru, gyda phob claf eilaidd yn llenwi holiaduron wrth gael eu hatgyfeirio at yr ysbyty ac ar ôl derbyn triniaeth. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod bod y gwaith hwn yn uchelgeisiol, a bod nifer o faterion i fynd i'r afael â hwy cyn y gall hyn ddigwydd.

Er bod maint y data a gasglwyd yn sylweddol o'i gymharu â chronfeydd PROMs eraill yng Nghymru, nid yw'r casgliad yn hollgynhwysol. Defnyddia GIG Cymru nifer o fersiynau o'r SGCC, a bu cysylltu ein system electronig â hwy yn heriol. Mae'r gwaith yn parhau o sicrhau bod ein system electronig yn cydweithio â phob system berthnasol yn GIG Cymru. Dechreuir casglu data o adrannau clinigol newydd yn barhaus, ac mae'r system yn tyfu'n raddol o ddydd i ddydd.

Cynhwysir cleifion trwy gydol proses ddatblygu'r system gasglu electronig; maent yn dewis pa holiaduron PROMs i'w defnyddio, yn dilysu holiaduron a rhoi adborth cyffredinol, a defnyddir adborth y cleifion er mwyn creu holiadur PREMs newydd. Noder gofynion defnyddwyr ein system yn barhaol gyda chydweithrediad arweinwyr clinigol, rheolwyr gwasanaethau a thimau gwybodaeth ar draws pob bwrdd iechyd. Derbynnir unrhyw broblemau gyda'r system gan y datblygwyr yn y GGGC ac fe'u datrysir drwy gyfres o bwyntiau diweddaru rheolaidd neu drwy ddatganiadau newydd. Unwaith y defnyddir y system mewn adran neu glinig newydd am gyfnod o bedair i chwe wythnos, gwerthusir y system a nodir unrhyw wersi a ddysgwyd. Profir a dilysir pob agwedd ar y PPEP yn rheolaidd, a gall cleifion a chlinigwyr gynnig adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Bydd y prosesau hyn yn parhau fel y tyfa'r rhaglen.

Bydd gwaith y dyfodol hefyd yn cynnwys ymgysylltu â chleifion a chlinigwyr gan bwysleisio'r budd o gasglu PROMs a'r PREMs er mwyn ceisio cynyddu'r gyfradd ymateb genedlaethol. Yn y pen draw, y mwyaf o gleifion sy'n llenwi'u holiaduron a'r mwyaf yw'r gronfa ddata hon, y mwyaf cynhwysol y bydd unrhyw ddarn o waith dadansoddi data.

Er y cyfunir y PROMs a'r PREMs â chronfeydd data cenedlaethol, fel data gweinyddu

cleifion mewnol a data gweinyddu cleifion allanol, canolbwyntia gwaith y dyfodol hefyd ar sefydlu prosesau cyfuno data (*data linkage*) mwy parhaol â chronfeydd data eraill. Bydd hyn yn galluogi ymchwilwyr a dadansoddwyr i wneud y gorau o gyfuno data a adroddir gan gleifion â chronfeydd data clinigol a diglinigol am well dealltwriaeth. Enghreifftiau o'r cronfeydd data posibl hyn yw data cost, yn ogystal â data mwy arbenigol fel y gofrestrfa cymalau cenedlaethol (National Joint Registry 2008) a data archwilio canser yr ysgyfaint (Royal College of Physicians 2019). Gall cyfuniadau data o'r fath ein caniatáu i gymharu asesiadau cleifion o'u cyflyrau ag asesiadau eu meddygon.

## Casgliad

Mae'r erthygl hon wedi darparu trosolwg o PROMs a PREMs, a datblygiad y system gasglu genedlaethol gyntaf yng Nghymru a aeth yn fyw yn 2016. Ers hynny, casglwyd dros 66,000 darn o ddata PROMs a PREMs ledled Cymru ac ar draws nifer o gyflyrau gwahanol. Mae'r goblygiadau cynnar o ddefnyddio'r data hyn yn cynnwys osgoi apwyntiadau diangen trwy gynnal adolygiadau rhithwir (*virtual reviews*), datblygu dangosfyrddau delweddu data (*data visualisation dashboards*) er mwyn monitro cynnydd cleifion yn haws, a sicrhau rhoi cleifion cardioleg ar y llwybr triniaeth cywir. Mae'r gwaith cynnar hwn wedi uwcholeuo'r budd a ddaw o gasglu PROMs a PREMs yn genedlaethol yng Nghymru ac mae wedi dangos addewid bod ein prif ddamcaniaeth yn gywir, sef bod creu cronfa fawr o'r data hyn yn debygol o gryfhau effeithiolrwydd GIG Cymru yn yr hir-dymor.

Wrth lenwi eu holiaduron PROMs a PREMs gan ddefnyddio ein system gasglu electronig, gall cleifion chwarae rôl hollbwysig wrth wella'r system gofal iechyd yng Nghymru.

## Cydnabyddiaethau

Cyflwyna'r awduron yr erthygl hon fel rhan o'r PPEP, a hoffem gydnabod y cyfraniadau gan bawb a fu ynghlwm wrth y gwaith. Hoffai'r awduron hefyd ddiolch i'r holl gleifion a chlinigwyr a roddodd eu hamser i'r rhaglen. Yn olaf, hoffai'r awduron ddiolch i Dr Sara Orwig am ei chymorth ieithyddol wrth ysgrifennu'r erthygl hon.

## Llyfryddiaeth

1000 Lives Improvement (2013), *Co-producing services – Co-creating health*, <http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/T4I%20%288%29%20Co-production.pdf> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

Aaronson, N. K., et al. (1993), 'The European Organization for Research and Treatment of Cancer QLQ-C30: a quality-of-life instrument for use in international clinical trials in oncology', *Journal of the National Cancer Institute*, 85 (5), 365–76.

Ackroyd, R., et al. (2006), 'Cost-effectiveness and budget impact of obesity surgery in patients with type-2 diabetes in three European countries', *Obesity Surgery*, 16 (11), 1488–1503.

Amplitude Clinical Outcomes (2019), *Amplitude Clinical Outcomes*, <https://amplitude-clinical.com/> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2019].

Angst, F., et al. (2005), 'Comprehensive assessment of clinical outcome and quality of life after resection interposition arthroplasty of the thumb saddle joint', *Arthritis Care & Research*, 53 (2), 205–13.

Arora, J., Lewis, S., a Cahill A. (2017), *Implementing ICHOM's Standard Sets of Outcomes: Parkinson's Disease at Aneurin Bevan University Health Board in South Wales, UK*, <https://ichom.org/files/case-studies/ABUHB_Case_Study_v11.pdf> [Cyrchwyd: 23 Gorffennaf 2019].

Aylward, M., Phillips, C., a Howson, H. (2013), *Simply Prudent Healthcare–achieving better care and value for money in Wales–discussion paper*, <http://www.ctrtraining.co.uk/documents/BevanCommissionSimplyPrudentHealthcarev104122013.pdf> [Cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2019].

Baker, P., et al. (2012), 'The effect of surgical factors on early patient-reported outcome measures (PROMS) following total knee replacement', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 94 (8), 1058–66.

Baker, P. N., et al. (2014), 'Early PROMs following total knee arthroplasty—functional outcome dependent on patella resurfacing', *The Journal of Arthroplasty*, 29 (2), 314–19.

Basser, M. R. (2015), 'PROMs benefits case study: Patient Reported Outcome Measures (PROMs) outputs', <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20180328131500/http://content.digital.nhs.uk/benefitscasestudies/proms> [Cyrchwyd: 20 Ionawr 2020].

Batalden, M., et al. (2016), 'Coproduction of healthcare service', *BMJ Quality & Safety*, 25 (7), 509–17.

Beaton, D. E., et al. (2005), 'Development of the QuickDASH: comparison of three item-reduction approaches', *Journal of Bone and Joint Surgery*, 87 (5), 1038–46.

Beaudreuil, J., et al. (2011), 'Unité Rhumatologique des Affections de la Main (URAM) scale: Development and validation of a tool to assess Dupuytren's disease–specific disability', *Arthritis Care & Research*, 63 (10), 1448–55.

Bergman, B., et al. (1994), 'The EORTC QLQ-LC13: a modular supplement to the EORTC core quality of life questionnaire (QLQ-C30) for use in lung cancer clinical trials', *European Journal of Cancer*, 30 (5), 635–42.

Bevan Commision (2015a), *Prudent Health Principles*, <http://www.bevancommission.org/en/publications?start=5&count=5&year=2015&d=1> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

Bevan Commision (2015b), *Prudent Healthcare one year on*, <http://www.bevancommission.org/en/publications?year=2015> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

Burke, F., a Macey A. (1995), 'Outcomes of hand surgery. British Society for Surgery of the Hand', *Journal of Hand Surgery*, 20 (6), 841–55.

Cahill, A., et al. (2019), *Value Based Health Care in Aneurin Bevan University Health Board*, <https://issuu.com/danbdavies/docs/the_evolution_of_vbhc_final> [Cyrchwyd: 23 Gorffennaf 2019].

Calvert, M., et al. (2015), 'Putting patient-reported outcomes on the "Big Data Road Map"', *Journal of the Royal Society of Medicine*, 108 (8), 299–303.

Coons, S. J., et al. (2009), 'Recommendations on evidence needed to support measurement equivalence between electronic and paper-based patient-reported outcome (PRO) measures: ISPOR ePRO Good Research Practices Task Force report', *Value in Health*, 12 (4), 419–29.

Currie, C. J., et al. (2005), 'The routine collation of health outcomes data from hospital treated subjects in the Health Outcomes Data Repository (HODaR): descriptive analysis from the first 20,000 subjects', *Value in Health*, 8 (5), 581–90.

Darzi, L., a Johnson A. (2008), *High quality care for all: NHS next stage review final report*, <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/228836/7432.pdf> [Cyrchwyd: 12 Gorffennaf 2019].

Davies, A., et al. (2006), 'Development of a disease-specific quality of life questionnaire module for patients with gastrointestinal neuroendocrine tumours', *European Journal of Cancer*, 42 (4), 477–84.

Dawson, J., et al. (2014), 'Development of a patient-reported outcome measure of activity and participation (the OKS-APQ) to supplement the Oxford knee score', *The Bone & Joint Journal*, 96 (3), 332–8.

Dawson, J., et al. (2008), 'The development and validation of a patient-reported questionnaire to assess outcomes of elbow surgery', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 90 (4), 466–73.

Dawson, J., Fitzpatrick R., a Carr., A. (1996a), 'Questionnaire on the perceptions of patients about shoulder surgery', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 78 (4), 593–600.

Dawson, J., Fitzpatrick R., a Carr, A. (1999), 'The assessment of shoulder instability: the development and validation of a questionnaire', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 81(3), 420–6.

Dawson, J., et al. (1996b), 'Questionnaire on the perceptions of patients about total hip replacement', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 78 (2), 185–190.

Dawson, J., et al. (1998), 'Questionnaire on the perceptions of patients about total knee replacement', *The Journal of Bone and Joint Surgery. British Volume*, 80 (1), 63–9.

Department of Health (2008), *Guidance on the routine collection of patient reported outcome*

*measures (PROMs)*, <https://www.racp.edu.au/docs/default-source/default-document-library/guidance-on-the-routine-collection-of-patient-reported-outcome-measures-(proms)-(pdf-1184-kb)-nhs-(2008).pdf?sfvrsn=4> [Cyrchwyd: 23 Ionawr 2020].

Department of Health (2011), *Patient Reported Outcome Measures (PROMs) in England: A Methodology for Identifying Outliers*, <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/216250/dh_133579.pdf> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2019].

Devlin, N., ac Appleby J. (2010), *Getting the most out of PROMs: Putting health outcomes at the heart of NHS decision making* <https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/Getting-the-most-out-of-PROMs-Nancy-Devlin-John-Appleby-Kings-Fund-March-2010.pdf> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

DeWalt, D. A., et al. (2007), 'Evaluation of item candidates: the PROMIS qualitative item review', *Medical Care*, 45 (5), 12–21.

DrDoctor (2019), *DrDoctor*, <https://www.drdoctor.co.uk/> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2019].

EuroQol (2020), *EQ-5D*, <https://euroqol.org/> [Cyrchwyd: 20 Ionawr 2020].

Garrow, A. P., et al. (2000), 'Development and validation of a questionnaire to assess disabling foot pain', *Pain*, 85 (1–2), 107–13.

GIG Cymru (2016), *Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion* <https://proms-cy.nhs.wales/> [Cyrchwyd: 12 Gorffennaf 2019].

Green, C. P., et al. (2000), 'Development and evaluation of the Kansas City Cardiomyopathy Questionnaire: a new health status measure for heart failure', *Journal of the American College of Cardiology*, 35 (5), 1245–55.

Griffin, D. R., et al. (2012), 'A short version of the International Hip Outcome Tool (iHOT-12) for use in routine clinical practice', *Arthroscopy: The Journal of Arthroscopic & Related Surgery*, 28 (5), 611–18.

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (2019a), *Annual PEDW Data Tables* <http://www.infoandstats.wales.nhs.uk/page.cfm?pid=41010&orgid=869> [Cyrchwyd: 2 Gorffennaf 2020].

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (2019b), *Gofal Eilaidd* <https://gggc.gig.cymru/systemau-a-gwasanaethau/gofal-eilaidd/> [Cyrchwyd: 30 Gorffennaf 2019].

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (2019c), *Porth Clinigol Cymru* <https://gggc.gig.cymru/carousel/porth-clinigol-cymru1/> [Cyrchwyd: 12 Gorffennaf 2019].

Herdman, M., et al. (2011), 'Development and preliminary testing of the new five-level version of EQ-5D (EQ-5D-5L)', *Quality of Life Research*, 20 (10), 1727–36.

Hopkins, C., et al. (2010), 'The 14-item Paediatric Throat Disorders Outcome Test: a valid, sensitive, reliable, parent-reported outcome measure for paediatric throat disorders', *The Journal of Laryngology & Otology*, 124 (3), 306–14.

Hopkins, C., et al. (2009), 'Psychometric validity of the 22-item Sinonasal Outcome Test', *Clinical Otolaryngology*, 34 (5), 447–54.

Hussey, R., et al. (2018), *Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru - Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru* <https://

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/Adolygiad-o-Iechyd%20a-Gofal-Cymdeithasol-adroddiad-terfynol.pdf> [Cyrchwyd: 19 Gorffennaf 2019].

Irrgang, J. J., et al. (2001), 'Development and validation of the international knee documentation committee subjective knee form', *The American Journal of Sports Medicine*, 29 (5), 600–13.

Jenkins, G., Haxton, A., a Kalra, N. (2019), *A Value-Based Healthcare approach to diagnosis, treatment of heart failure*, cyflwynwyd fel poster yng nghynhadledd 'Improvement Cymru Conference 2019'.

Kroenke, K., Spitzer, R. L., a Williams, J. B. (2003), 'The Patient Health Questionnaire-2: validity of a two-item depression screener', *Medical Care*, 1284–92.

Kujala, U. M., et al. (1993), 'Scoring of patellofemoral disorders', *Arthroscopy: The Journal of Arthroscopic & Related Surgery*, 9 (2), 159–63.

Lee, A., et al. (2005), 'Evaluation of the association between the EQ-5Dindex (health-related utility) and body mass index (obesity) in hospital-treated people with Type 1 diabetes, Type 2 diabetes and with no diagnosed diabetes', *Diabetic Medicine*, 22 (11), 1482–6.

Leng, G., et al. (2017), 'National commitment to shared decision making. The only way to achieve truly person centred care', *British Medical Journal*, 2017 (359), 4746.

Levine, D. W., et al. (1993), 'A self-administered questionnaire for the assessment of severity of symptoms and functional status in carpal tunnel syndrome', *The Journal of Bone and Joint Surgery. American Volume*, 75 (11), 1585–92.

Llywodraeth Cymru (2018), *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf> [Cyrchwyd: 18 Gorffennaf 2019].

Llywodraeth Cymru (2019), *Datganiad Ysgrifenedig: Newid y ffin rhwng byrddau iechyd: Pen-y-bont ar Ogwr*, <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newid-y-ffin-rhwng-byrddau-iechyd-pen-y-bont-ar-ogwr?_ga=2.76078294.2115555057.1562843706-841335728.1541670164> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

MI-Cym (2019), *Croeso i MI-CYM!*, <http://www.micym.org/llais/static/indexCym.html> [Cyrchwyd: 12 Gorffennaf 2019].

Morgan, C. L., et al. (2006), 'Characterization and comparison of health-related utility in people with diabetes with various single and multiple vascular complications', *Diabetic Medicine*, 23 (10), 1100–05.

National Institute for Health and Care Excellence (2012), *Patient experience in adult NHS services*, <https://www.nice.org.uk/guidance/qs15/resources/patient-experience-in-adult-nhs-services-pdf-2098486990789> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

National Institute for Health and Care Excellence (2013), *Guide to the methods of technology appraisal 2013*, <https://www.nice.org.uk/process/pmg9/chapter/the-reference-case> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

National Joint Registry (2008), *National Joint Registry* <http://www.njrcentre.org.uk/njrcentre/default.aspx> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

NHS Digital (2019a), *Patient Reported Outcome Measures (PROMs)* <https://digital.nhs.uk/data-and-information/data-tools-and-services/data-services/patient-reported-outcome-measures-proms> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

NHS Digital (2019b), *PROMs Methodologies* <https://digital.nhs.uk/data-and-information/data-tools-and-services/data-services/patient-reported-outcome-measures-proms/proms-methodologies#case-mix> [Cyrchwyd: 03 Ionawr 2020].

O'Donnell, L., Virjee J., a Heaton, K. W. (1990), 'Detection of pseudodiarrhoea by simple clinical assessment of intestinal transit rate', *British Medical Journal*, 300 (6722), 439.

O'Connell, S., et al. (2018), 'Requirements for the collection of electronic PROMS either "in clinic" or "at home" as part of the PROMs, PREMs and effectiveness Programme (PPEP) in Wales: A feasibility study using a generic PROM tool', *Pilot and Feasibility Studies*, 4 (1), 90.

Patients Know Best (2019), *Patients Know Best: Manage Your Health* <https://patientsknowbest.com/> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2019].

Prif Swyddog Meddygol Cymru (2019), *Gwerthfawrogi ein hiechyd: Adroddiad Blynyddol 2018/19* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwerthfawrogi-ein-hiechyd.pdf> [Cyrchwyd: 18 Gorffennaf 2019].

Prifysgol Bangor (2019), *LLAIS: Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith* <http://nworth-ctu.bangor.ac.uk/llais/mesurau-iechyd.php.cy> [Cyrchwyd: 12 Gorffennaf 2019].

Quality and Safety Commitee (2010), *Health Improvement Patient Outcome (HIPO) Annual Report* <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/2%204%20HIPO%20Annual%20Report.pdf> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

Reilly, M. C., Zbrozek A. S., a Dukes, E. M. (1993), 'The validity and reproducibility of a work productivity and activity impairment instrument', *Pharmacoeconomics*, 4 (5), 353–65.

Roos, E. M., a Lohmander L. S. (2003), 'The Knee injury and Osteoarthritis Outcome Score (KOOS): from joint injury to osteoarthritis', *Health and Quality of Life Outcomes*, 1 (1), 64.

Rothrock, N. E., Kaiser, K., a Cella D. (2011), 'Developing a valid patient-reported outcome measure', *Clinical Pharmacology & Therapeutics*, 90 (5), 737–42.

Royal College of Physicians (2019), *National Lung Cancer Audit* <https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-lung-cancer-audit> [Cyrchwyd: 02 Awst 2019].

Sparrow, J., et al. (2018), 'Cat-PROM5: a brief psychometrically robust self-report questionnaire instrument for cataract surgery', *Eye*, 32 (4), 796.

Szymanski, K. M., et al. (2010), 'Development and validation of an abbreviated version of the expanded prostate cancer index composite instrument for measuring health-related quality of life among prostate cancer survivors', *Urology*, 76 (5), 1245–50.

Tegner, Y., a Lysholm, J. (1985), 'Rating systems in the evaluation of knee ligament injuries', *Clinical Orthopaedics and Related Research*, 198, 43–9.

The Economist Intelligence Unit (2019), *Aneurin Bevan University Health Board, Wales: Putting value-based care into practice* <http://vbhcglobalassessment.eiu.com/

aneurin-bevan-university-health-board-wales-putting-value-based-care-into-practice/> [Cyrchwyd: 23 Gorffennaf 2019].

UK Government (2014), *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2019].

Van Der Wees, P. J., et al. (2014), 'Integrating the use of patient-reported outcomes for both clinical practice and performance measurement: Views of experts from 3 countries', *The Milbank Quarterly*, 92 (4), 754–75.

Waljee, J. F., et al. (2011), 'Development of a brief, 12-item version of the Michigan Hand Questionnaire', *Plastic and Reconstructive Surgery*, 128 (1), 208.

Ware Jr, J. E., a Sherbourne, C. D. (1992), 'The MOS 36-item short-form health survey (SF-36): I. Conceptual framework and item selection', *Medical Care*, 473–83.

Weinstein, M., Torrance, G., a McGuire, A. (2009), 'QALYs: the basics', *Value in Health*, 12, 5–9.

Weldring, T., a Smith, S. (2013), 'Patient-reported outcomes (PROs) and patient-reported outcome measures (PROMS)', *Health Services Insights*, 6, 61–8.

Williams, A., et al. (2013), *The Listening Organisation: Ensuring care is person-centred in NHS Wales*, <http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/1000%20Lives%20Plus%20-%20%27The%20Listening%20Organisation%27%20white%20paper%20WEB.pdf> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2019].

Withers, K. L., et al. (2018), 'Standardising the collection of patient-reported experience measures to facilitate benchmarking and drive service improvement', *Patient Experience Journal*, 5 (3), 16–24.

# Gogwydd hanesyddol ar astudiaethau cynhyrchu: ail gyfnod cwmni Teliesyn drwy fframweithiau Cottle, Bourdieu a Berne

Dafydd Sills-Jones

*Auckland University of Technology, Seland Newydd*

Cyflwynwyd: 9 Hydref 2018; Derbyniwyd: 3 Hydref 2019

**Crynodeb**: Dros y deng mlynedd diwethaf, mae 'astudiaethau cynhyrchu cyfryngau' wedi tyfu'n sylweddol fel is-ddisgyblaeth. Yn sgil hyn, mae'r drafodaeth arferol ar y ddynameg rhwng technoleg, economi, ffurfiau diwylliannol, creadigrwydd a gyrfaoedd proffesiynol wedi eu trawsnewid, gan herio hen begynau disgyrsiol economi gwleidyddol ac astudiaethau diwylliannol. Er hynny, mae gogwydd cyfoes i'r datblygiadau hyn, sy'n aml yn anwybyddu hanes y cyfryngau. Mae'r erthygl hon yn ceisio defnyddio agwedd 'astudiaethau cynhyrchu cyfryngau' (wrth ddefnyddio fframweithiau cysyniadol Simon Cottle, Pierre Bourdieu ac Eric Berne) er mwyn olrhain hanes un o brif gwmnïau teledu Cymru, Teliesyn.

**Allweddeiriau**: Teliesyn, cynhyrchu cyfryngau, Bourdieu, Berne, hanes.

## Historicising production studies: Teliesyn's second stage through the lenses of Cottle, Bourdieu and Berne

**Abstract**: Over the last ten years 'media production studies' has grown substantially as a sub-discipline. As a result, the usual discussion of the dynamics between technology, economy, cultural forms, creativity and professional careers have been transformed, challenging the established poles of political economy and cultural studies. Despite this, there is a contemporary tendency within 'production studies' that tends to ignore media history. This article seeks to adopt the attitude of media production studies (by using the theoretical frameworks of Cottle, Bourdieu and Berne) to trace the history of one of Wales' foremost production companies, Teliesyn.

**Key words**: Teliesyn, media production, Bourdieu, Berne, history.

Rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn ddiweddar i is-faes 'astudio cynhyrchu cyfryngau'. Ers i lyfr herfeiddiol John Thornton Caldwell ymddangos yn 2008, mae nifer o gyfrolau eraill wedi ceisio ymateb i'r her o ddamcaniaethu cynhyrchu cyfryngau mewn modd amgen. Y teimlad canolog yn y prosiect ymchwiliol hwn yw bod pegynau arferol dadansoddi cynnwys

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

a chynhyrchiad cyfryngol – economi gwleidyddol ac astudiaethau diwylliannol – yn methu delio â'r doreth o fanylder cain sy'n rhan annatod o'r broses gynhyrchu, a sut mae'r broses honno'n wead o nifer o lefelau gwahanol ar yr un pryd. Ateb pobl megis Caldwell a Mayer yw edrych ar fframweithiau cysyniadol a methodolegau o draddodiad cymdeithaseg er mwyn esbonio cymhlethdod y prosesau hyn.

I ryw raddau, mae hyn yn beth i'w ganmol, ond mae tueddiad cryf yn y math hwn o ddadansoddi i organolbwyntio ar y presennol, ac i golli golwg ar sut mae prosesau cynhyrchu wedi newid dros amser. Un canlyniad posibl i hynny yw y gallai hanes datblygiad y cyfryngau aros yn gaeth mewn rhyw 'rew' methodolegol, gyda datblygiadau newydd yn cael sylw llawer mwy soffistigedig na phrosesau'r gorffennol. Wrth astudio cynhyrchu cyfryngau yng Nghymru, sydd yn barth heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y maes, mae hyn yn medru arwain at seilio trafodaethau cyfoes ar ragdybiaethau a naratifau gorsyml a chamarweiniol.

Un naratif hanesyddol ymrewiedig posibl ynglŷn â'r cyfryngau Cymraeg yw bod marchnadeiddio darlledu yn y 1990au wedi arwain yn anochel at ddirywiad rhai ffurfiau diwylliannol, fel pe bai hynny'n esblygiad naturiol. Heb ofal, fedr naratif o'r fath ddyfod yn naturiol ohoni ei hun, gan arwain at agweddau pur wrthgymunedol a gwrthddemocrataidd tuag at reoleidd-dra'r cyfryngau yn y Gymru gyfoes. Yr hyn sy'n gudd mewn naratif o'r fath yw manylion trawsffurfiad sector o dan bwysau'r farchnad, a'r ffactorau cymhleth niferus sydd ar waith mewn sefyllfa benodedig, unigryw.

Mae hanes cwmni ffilm a theledu Teliesyn yn ymgorfforiad o'r peryglon hyn. Ar yr arwyneb, caeodd y cwmni yn 2002 wrth iddo fethu â goroesi amgylchiadau cystadleuol darlledu cyhoeddus y cyfnod. Y rheswm dros dranc y cwmni yw am iddo fod yn henffasiwn. Ond wrth edrych yn agosach, mae modd gweld yn hanes cwmni Teliesyn – ac mae'n debyg mewn unrhyw gwmni arall pe byddai amser ar gyfer hynny – densiynau annisgwyl wrth i ffactorau wrthddweud ei gilydd wrth iddynt weithio drwodd yn hanes datblygiad y cwmni.

Wedi ysgrifennu'n flaenorol am ddechreuadau Teliesyn a'r syniad cydweithredol wrth ei wraidd (Sills-Jones 2013), a'i leoliad paradocsaidd yn sffêr cyfryngau Cymru yn yn ystod y 1980au (Sills-Jones 2015), perwyl yr erthygl hon yw herio'r naratif hawdd ynglŷn â thranc Teliesyn, gan edrych arni drwy dair hidlen wahanol, sef syniadau Cottle, Bourdieu a Berne. Cyn medru gwneud hynny, mae'n rhaid rhoi cwmni Teliesyn mewn cyd-destun addas.

## Teliesyn: yr ail gyfnod

Sefydlwyd y cwmni cynhyrchu ffilm a theledu annibynnol, *Teliesyn*, yng Nghaerdydd ym mwrlwm diwylliannol dechrau'r 1980au. Er ei bod yn adeg pan welwyd gwleidyddiaeth yn symud i'r de neo-ryddfrydol, roedd lansio S4C a Channel 4 yn enghreifftiau prin o fuddugoliaethau lleisiau radicalaidd a'r adain chwith. Wrth i S4C gael ei sefydlu yn 1982, a chyda'r twf cyfatebol yn y sector cynhyrchu annibynnol, fe'i cafodd Teliesyn ei hunan ar dir canol rhwng sawl croesffordd ddiddorol; rhwng yr entrepreneuraidd a'r cydweithredol, rhwng y poblogaidd a'r *avant-garde*, rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a rhwng y diwylliannau newydd ym maes cynhyrchu'r cyfryngau a'r diwylliannau cynhyrchu mwy traddodiadol.

Roedd ymateb Teliesyn i'r croesffyrdd hyn yn hynod ddiddorol. O ddyddiau cyntaf y cwmni yn 1982, roedd Teliesyn wedi herio prosesau ac estheteg draddodiadol cynhyrchu teledu drwy ddefnyddio strwythur cwmnïol cydweithredol a llorweddol. O ganlyniad, cafodd llawer o'r rolau cynhyrchu eu cyfnewid yn rhwydd ar draws aelodaeth y cwmni, gan gynnwys rôl y cynhyrchydd. Ond, yn sgil y newidiadau a welwyd yn ecoleg ddarlledu Cymru yn ystod yr 1990au, atgyfodwyd rôl draddodiadol y cynhyrchydd teledu, yn enwedig o ran ei swyddogaethau rheoli llinell a datblygu busnes.[1]

Mae'r erthygl hon yn craffu ar 'ail gyfnod' yn hanes y cwmni, sef rhwng 1990 ac 1997. Yn y cyfnod cyntaf (1982–9), sefydlwyd y cwmni ar sylfaen gydweithredol, ac roedd ei strwythurau llorweddol yn hwyluso cymysgedd o raglenni arbrofol a rhaglenni'r brif ffrwd.[2] Yn ystod y cyfnod hwn, tyfodd trosiant y cwmni o £35,000 i £3,500,000 (Staniforth 2011). Roedd 'trydydd cyfnod' i hanes Teliesyn (1998–2002), pan weithredai ar lefel wannach, cyn iddo ddirwyn i ben yn 2002.

Yn ystod yr 'ail gyfnod' hwn, roedd darlledu yng ngwledydd Prydain mewn cyflwr cythryblus. Roedd Deddf Darlledu 1990 wedi sbarduno'r dirywiad hir yn narlledu rhanbarthol ITV (Johnson a Turnock 2005: 14–36), yn ogystal â newid ethos yn Channel 4, wrth iddi ddod yn gyfrifol ei hunan am yr hysbysebu ar y sianel honno. Ar yr un pryd, newidiwyd ethos yn y BBC drwy doriadau ar ei chyllideb ac wrth i'r system reoleiddiol '*Producer Choice*' ddod i'r amlwg.[3]

Serch hynny, daeth S4C i'w haeddfedrwydd yn ystod y cyfnod hwnnw, ar gefn ei chyfran o lwyddiant masnachol annisgwyl Channel 4 yn ystod yr 1980au, yn ogystal â'r cytundebau cynhyrchu hir sefydlog a ffafriol â HTV a BBC Cymru (Williams 2010). Aeddfedu a wnaeth y sector annibynnol hefyd ar draws Prydain yn ystod yr 1990au, gan greu marchnad fwyfwy cystadleuol am syniadau am raglenni, a olygai fod gwaith datblygu rhaglenni'n cymryd mwyfwy o amser wrth i'r degawd fynd yn ei flaen (TRC, 2002).

Cafwyd sawl newid mawr ymhlith rheolwyr y prif sianeli a oedd yn gleientiaid i Teliesyn ac effeithiodd hynny yn ei dro ar lif gwaith ac incwm Teliesyn. Roedd hi'n anos i Teliesyn gael comisiynau gan Channel 4, yn enwedig ar ôl i olygydd comisiynu addysg y sianel, Gwyn Pritchard, adael y Sianel yn 1992 er mwyn cymryd yr awenau fel pennaeth rhaglenni

[1] Yn draddodiadol, mae gan gwmnïau cynhyrchu ffilm a theledu hierarchaethau caeth, ac roedd rôl draddodiadol y cynhyrchydd teledu yn rhan bwysig o hyn gan fod y cynhyrchydd yn rheoli cyllid, llogi a phrynu adnoddau, cyflogi gweithwyr llawrydd, ac o ganlyniad yn effeithio ar estheteg allbwn cwmnïau, gyrfaoedd gweithwyr, a blas yr hyn a oedd yn ymddangos ar y teledu. Am ddadansoddiad dyfnach o natur y cynhyrchydd ar y pryd, gwelwch: Tunstall, J. (2003), *Television Producers* (London: Routledge).

[2] Roedd gan Teliesyn strwythur cydweithredol, lle yr oedd pob aelod o'r cwmni'n cael pleidlais ar benderfyniadau'r cwmni, gan gynnwys strategaethau busnes a pholisi datblygu rhaglenni. Am fwy o wybodaeth, gweler Sills-Jones, D. (2013), 'Rhwng dau faes: Teliesyn a strwythurau cynhyrchu radical yn hanes cynnar S4C', Cyfrwng, 10(a), 18–34.

[3] Marchnad fewnol a grëwyd yn y BBC oedd *Producer Choice*, er mwyn ceisio rheoli costau a newid ethos rhyddfrydol y BBC gan lywodraeth Torïaidd y cyfnod. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfansoddiad ac effaith 'Dewis y Cynhyrchydd', gweler Born, G. (2003), 'From Reithian ethic to managerial discourse accountability and audit at the BBC Georgina Born', Javnost-The Public, 10 (3), 63–80.

Cymraeg y BBC yng Nghaerdydd (Pritchard 2010). Am y rhan fwyaf o'r 1990au, prin oedd y cyfleoedd yn y BBC i gynrychioli Cymru y tu hwnt i'w ffiniau hi (Geraint 2011: t. 49). Wrth i'r cyllidebau a'r oriau rhanbarthol a oedd ar gael i'r cwmnïau annibynnol yn HTV barhau i grebachu, roedd y gwaith comisiwn yno hefyd yn lleihau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, wrth i ddarlledu digidol ddatblygu, law yn llaw â chysyniad 'clwstwr' o syniadau rhaglenni (S4C 2001: t. 7), daeth tro ar fyd i gomisiynu ac ariannu yn S4C (Evans 2009; Simmonds 2009).

Ar ddechrau ail gyfnod Teliesyn, recriwtiwyd nifer o fenywod i'r cwmni a fyddai'n ymgymryd â sawl swydd gyfarwyddo a chynhyrchu ar lefel uwch-reoli (gan gynnwys Mary Simmonds, Michelle Ryan ac Angela Graham). Cawsai'r newydd-ddyfodiaid hyn i gyd eu denu i'r cwmni gan ei ethos cychwynnol a'i enw da proffesiynol a feithrinwyd gan Colin Thomas a Paul Turner yn yr 1980au, ac aeth Teliesyn ymlaen i gynhyrchu corpws arloesol o waith ar hanes menywod yng Nghymru a thu hwnt.[4]

Gwnaeth Teliesyn ymdrechion i addasu i'r newidiadau a oedd yn digwydd yn y farchnad drwy roi mwy o sylw i chwaeth golygyddion comisiynu unigol, a thrwy gyflwyno mwy o syniadau i'r comisiynwyr (Thomas 2011). Serch hynny, datblygodd tensiwn rhwng rheolaeth gorfforaethol ganolog Teliesyn a'r creadigrwydd cydweithredol ac annibynnol oedd yn rhan o'i syniadaeth hanfodol. Wrth i'r angen i ymateb i anghenion y darlledwyr ddisodli'r ddealltwriaeth flaenorol, roedd gan aelodau Teliesyn lai o ryddid i ddatblygu a chynnig y math o syniadau arloesol a oedd wedi dwyn ffrwyth yn y gorffennol.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu farw un o'i aelodau pwysicaf a'i leisiau mwyaf blaenllaw, sef yr hanesydd Gwyn Alf Williams. Collodd y fenter gydweithredol aelodau newydd addawol hefyd, ar ôl iddynt adael i gychwyn eu cwmnïau eu hunain wrth i batrymau cyflogaeth dros dro ddod yn fwyfwy cyffredin ym myd darlledu (BFI 1999; Paterson 2001), a datblygai'r sector i fod yn fwy cystadleuol, gyda'r posibilrwydd hefyd o fod yn fwy proffidiol (Lee 2008, t. 252). Roedd y datblygiadau hyn yn rhan o nifer o ddigwyddiadau a gyfunodd i greu rhyw ymdeimlad o argyfwng yn y cwmni, yn greadigol ac yn rheolaethol fel ei gilydd. Wrth i'r ail gyfnod ddirwyn i ben, collodd Teliesyn ei bennaeth gweithredu, gan adael y cwmni yn ansicr ynghylch cyfeiriad y dyfodol.

Yr her, gyda'r math hwn o bwnc, sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd ac ar draws llawer o wahanol lefelau a haenau o ddylanwadau a rhyngweithio dynamig, yw pennu'r fframwaith ar gyfer dadansoddi hanes cwmni o'r fath. Galwai Cottle am ddull o ddadansoddi a fyddai'n osgoi'r problemau sy'n codi o economeg wleidyddol ar y naill law, ac astudiaethau diwylliannol ar y llall. Fel modd o droedio ffordd ganol, cynghorodd Cottle y dylid dysgu gwersi o draddodiad astudiaethau cynhyrchu'r newyddion, sy'n pwysleisio prosesau, rolau a chodau proffesiynol.

Yn syml, mae Cottle yn gofyn am driniaeth sy'n ailystyried gweithred – o fewn cyd-destun cynhyrchu cyfryngau – fel rhywbeth bwriadol, er nad yw'r unigolyn sy'n gweithredu

[4] Gweler cyfresi megis *Codi Clawr Hanes* (S4C), a rhaglenni unigol megis *Milena Jesenska – The Art of Standing Still* (Channel 4 1993).

yn hollol ymwybodol o'r canlyniadau, nac yn wir yn hollol sicr o'r cymhellion y tu ôl i weithred. Er hynny, mae bwriad yno o hyd, ac yn aml mae bwriad yn taro'r nod cywir. Mae Cottle yn dadlau dylai dadansoddiad gyfuno'r 'disgyrsiol' (*discursive*) a'r 'gweinyddol' (*administrative*) (sydd i'w cael yn nealltwriaeth Foucault o gysyniad 'ymarfer' (*practice*), sef gweithred nad yw'n ffug ymwybyddiaeth, nac yn ymreolaeth greadigol) â chysyniad Scannel o 'fwriadoldeb cyfathrebol' (*communicative intent*), er mor anghyflawn y gallai'r bwriad hwnnw fod yn y pen draw (Cottle 2003: 16–18).

Wrth wneud hyn mae modd cael disgrifiad mwy cymhleth o sut a pham y gwnaethpwyd rhywbeth, a dadansoddiad o'r cysylltiad rhwng yr effaith a'r bwriad. Gall hyn helpu i bwyso a mesur yr elfennau sy'n cyfrannu at weithredoedd cynhyrchwyr unigol a'r gwasgeddau niferus sy'n effeithio arnynt, heb fod yn rhy absoliwt ynglŷn â pha mor effeithiol yw agendâu o'r fath.

Mae safbwynt Cottle felly'n addasiad o'r safbwynt economeg wleidyddol feirniadol (gweler Golding a Murdock 2005). Y gwahaniaeth yw bod Cottle yn cymhlethu'r drafodaeth o ran ystyriaeth o fwriad a chanlyniad, gan ymestyn yn bellach na'r cymelliadau cyffredinol a monolithig a welwyd o fewn rhai dadansoddiadau economeg wleidyddol. Mewn dadansoddiad economeg wleidyddol o'r math gall ystyriaeth o broses o fewn cyd-destun cynhyrchu cyfryngau gael ei effeithio'n ormodol gan ystrydebau a rhagdybiaethau ynglŷn ag arferion unigolion a chwmnïau mewn categorïau mawr megis 'perchnogion', 'cynhyrchwyr', 'llafurwyr' ac ati.

Mae Cottle yn gosod fframwaith dadansoddi tridarn 'macro-meso-micro', sy'n tanlinellu pwysigrwydd yr haenen 'feso', sy'n trosglwyddo gweithgarwch a disgyrsiau gwleidyddol ac economaidd y 'macro' i'r prosesau micro niferus, sy'n ymwneud â chreu testun y cyfryngau a'r derbyniad y mae'n ei gael.

## Cottle: macro, meso, micro

Yn nhermau Cottle, mae'r ail gyfnod yn hanes Teliesyn yn gyfnod lle y mae amodau 'macro' darlledu yng ngwledydd Prydain mewn cythrwfl mawr, gyda symudiad cyffredinol oddi wrth ethos gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes o gonsensws a fu ar ôl y rhyfel ac oddi wrth sbectrwm cyfyngedig iawn, i ethos darlledu mwy neo-ryddfrydol a marchnadol sy'n gogwyddo tuag at bwysigrwydd atebolrwydd ariannol, a osodir yng nghyd-destun '*the age of plenty*' (Ellis 2000: tt. 61–73). Yn yr oes honno, roedd ymdeimlad cyffredinol o sofraniaeth y cwsmer yn araf ddisodli ymroddiad y darlledwr i wasanaeth cyhoeddus (O'Malley a Jones 2009).

Adlewyrchid y newid hwnnw yng Nghymru hefyd. Achosodd arwerthiant trwydded ITV yn 1992 broblemau ariannol i HTV Cymru a chollwyd llawer o swyddi yn sgil hynny (Nisse 1992). Arweiniodd '*Producer Choice*' at doriadau enbyd ar gyllidebau a staff BBC Cymru (Davies 2006). Ar y llaw arall, ychwanegwyd at aeddfedu ariannol S4C gan y rheidrwydd ar Channel 4 i werthu ei gofod hysbysebu ei hun, er bod hyn yn rhagflas o'r ymwahanu rhwng y ddwy sianel, a'r lleihad yn y comisiynau a roddwyd gan Channel 4 i gwmnïau annibynnol yng Nghymru (Evans 2012, Pritchard 2010, Thomas 2011).

Crebachodd cyllidebau HTV a BBC Cymru tua diwedd y trydydd cyfnod, ac roedd

effaith ar gyllidebau rhaglennu S4C oherwydd y gost o fuddsoddi yn y system darlledu digidol newydd. O edrych yn ôl â synnwyr trannoeth, mae'n amlwg ei bod hefyd yn adeg pan yr ildiai amrywiaeth anarchaidd cynhyrchu annibynnol y 1980au i sector cyfryngau darlledu annibynnol a oedd yn fwy cyfunol a rhyng-genedlaethol ac yn cael ei yrru gan y farchnad, a symudai aelodau mwyaf grymus y sector yn raddol i sefyllfa lle y gallasent osod y telerau i ddarlledwyr o ran y rhaglennu ac ynghylch yr amserlen ei hun (Mediatique 2005).

O ran y lefel 'feso', roedd denu'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl yn mynd yn fwyfwy o flaenoriaeth i'r darlledwyr, ac roedd y pwyslais hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol hwythau. Yn eu tro, addasai'r cwmnïau hynny eu strategaethau datblygu rhaglenni (TRC 2002). I gwmni Teliesyn, roedd hynny'n golygu newid y diwylliant ynghylch sut yr ymdrinnid â'r cyllidebau a'r atebolrwydd ariannol, a ddeilliodd yn rhannol o'r elw sylweddol ar ddiwedd yr 1980au (Staniforth 2011), a gorwariant mawr ar y gyfres *Cracking Up*, a gynhyrchwyd i Channel 4 (Thomas 2011). Er bod y ddau ddigwyddiad hyn i'w gweld yn baradocsaidd, dangosasant sut roedd ysbardunau masnachol yn mynd yn bwysicach, er gwaethaf honiad Teliesyn ei fod yn ymwrthod â'r pwysau masnachol hwnnw.

Yn gyffredinol roedd y farchnad swyddi'n mynd yn fwy hyblyg, ac roedd hynny'n golygu bod staff yn symud o swydd i swydd yn gyflymach (Paterson 2001), gan gynnwys y modd y gwelwyd llif o gynhyrchwyr benywaidd newydd yn dod i mewn i Teliesyn yn hanner cyntaf y cyfnod, a gynhyrchodd gorpws arloesol ar hanes menywod[5]. Erbyn hyn ni welid Teliesyn yn 'fawr' o'i gymharu â chwmnïau annibynnol eraill y bu'n cystadlu yn eu herbyn o'r blaen (Williams 2010), ac roedd hynny'n amlwg yn yr adnoddau a oedd ar gael i'r cwmni i ddatblygu a gweithio ar syniadau am raglenni newydd.

Yn ei dro, arweiniodd hynny at gynnydd pwysigrwydd y cynhyrchwyr o fewn cwmni Teliesyn, a oedd yn amlwg yn nhwf y gwaith yr oedd ei angen er mwyn ennill comisiynau drwy weithdrefnau megis trefn bwndeli S4C,[6] ynghyd â'r drefn newydd gysylltiedig o roi 'bonws cynhyrchydd' am ddod â gwaith newydd i'r cwmni (Graham 2012). O ganlyniad, bu llai o gomisiynau rhwydweithiol, a mwy o ddibyniaeth ar HTV ac S4C, a hynny yn ei dro yn golygu cyllidebau llai.

O ran categori 'micro' Cottle, roedd y gyfres o astudiaethau academaidd a gynhaliwyd yn ystod yr 1990au, megis y rhai a wnaed gan y BFI (BFI 1999) neu gan Barnett, Seymour, Ramsey a Gaber (Barnett a Seymour 1999, Barnett, Ramsey a Gaber 2012) yn dangos bod natur darlledu yng ngwledydd Prydain yn mynd yn fwyfwy byr-dymor, a bod mathau o raglenni a fu gynt yn cael eu diffinio fel rhai 'o safon' neu 'o ddifrif' yn 'ysgafnhau'. Ar ben hynny, roedd y technolegau fideo newydd a digidol cynnar yn newid rhythm y prosesau

---

[5] Roedd Teliesyn yn gwmni cydweithreol, yn llawn gweithwyr llawrydd, gydag ychydig o aelodau llawn amser.

[6] Bwndeli oedd y broses a ddefnyddiwyd gan S4C i annog cwmnïau annibynnol i gynnig syniadau mewn pecynnau – bwndeli – yn hytrach nag yn unigol. Comisiynwyd y bwndeli yn rhannol oherwydd darbodion maint ar draws y bwndel cyfan. Roedd yn gred gyffredinol bod yr arfer hon yn anfanteisiol tuag at gwmnïau bychain, a'r rhai oedd yn arbenigo mewn cynhyrchu rhaglenni unigol o ansawdd uchel, megis Teliesyn.

cynhyrchu, a hynny yn aml yn hwyluso prosesau ôl-gynhyrchu ac effaith weledol, wrth arwain at gwtogi cyfnodau ymchwil ac ysgrifennu.

Ond nid oedd hynny'n wir i'r un graddau yn Teliesyn; datblygwyd corpws arloesol ar hanes menywod a hanes y werin bobl ar yr adeg honno, ac roedd y gwaith arbrofol â rhaglenni croesfrid cyfranogol (e.e. *Answering Back* 1996) a drama-ddogfennol (e.e. *Branwen* 1996) yn parhau. Yn hyn o beth, glynai Teliesyn yn gadarn wrth y fformiwla a fu'n llwyddiannus yn ystod yr 1980au.

Er bod dadansoddiad o'r fath yn datgelu unigrywiaeth Teliesyn, yn hytrach na'i osod mewn categori monolithig megis 'cwmni cynhyrchu', neu 'cwmni cynhyrchu Cymraeg' hyd yn oed, mae problem yn codi. Pan wneir dadansoddiad o'r fath, mae'r canolbwyntio ar adeg y cynhyrchu yn gallu golygu ei bod yn anodd gweld y tu hwnt i'r adeg honno, neu'r hyn a ddigwyddodd o'i blaen. Nid yw hynny'n annhebyg i'r tueddiad a ddisgrifir gan Hesmondhalgh (2006) fel '*charismatic ideology of creation*' lle y mae '*pluralist sociology of culture*' yn rhoi mwy o sylw i ennyd creu'r testun nag i'r cyd-destun ehangach y crëir testunau o'i fewn. O ganlyniad collir golwg ar y grymoedd o dan yr wyneb sy'n annog a rheoli creu'r testunau. Mae'r math hwn o safbwynt yn '*alert to the many influences possible in any situation of cultural production, but can offer no systematic theory of interconnectedness*' (Hesmondhalgh 2006: 217).

Mae rhoi cyd-destun diwylliannol hollgynhwysol i hanes cynhyrchu yn gallu teimlo'n dasg amhosibl oherwydd manylder angenrheidiol y dadansoddi. Ond rywsut mae angen cydio yn y manylion a'r unigrywiaeth heb golli golwg ar y patrymau diwydiannol a chymdeithasol sy'n gyrru Teliesyn ymlaen. Er nad yw'n ei dderbyn yn ei gyfanrwydd, mae Hesmondhalgh yn awgrymu bod fframwaith Bourdieu, ac yn enwedig y modd y mae'n canolbwyntio ar syniad 'ymreolaeth' (a'r diffyg ymreolaeth), yn ffordd o ddod â'r grymoedd ehangach hyn i mewn i'r darlun dadansoddol, heb golli'r manylder a geir drwy fframwaith tridarn Cottle.

## Bourdieu: maes a chyfalaf

Mae'n amlwg sut mae Bourdieu yn sylfaenol berthnasol i Teliesyn; fel grŵp o ddarlledwyr roedd ganddynt safle breintiedig o fewn yr hyn y bydd Bourdieu yn ei alw'n 'faes cynhyrchu diwylliannol', yn enwedig felly yn un o'i is-feysydd, sef darlledu yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl Bourdieu, mae perthynas rhwng 'maes cynhyrchu diwylliannol' a 'maes grym' sy'n ymestyn o'i gwmpas yn ehangach, ac yn rheoli'r parthau gwleidyddol ac economaidd. Mae'r berthynas honno'n rhoi i'r cynhyrchwyr diwylliannol – megis aelodau Teliesyn – lwyfan bosibl o flaen cynulleidfa, yn ogystal â'r posibilrwydd o gael rhywfaint o ymreolaeth artistig. Mae'r cydbwysedd rhwng y ddau ffactor hynny'n cael ei ddisgrifio drwy ddadansoddiad Bourdieu o'r berthynas rhwng dau is-faes o faes cynhyrchu diwylliannol, sef is-faes cynhyrchu ar raddfa fechan (neu gynhyrchu cyfyngedig), ac is-faes cynhyrchu ar raddfa fawr (cynhyrchu *grande*) a sut yr oedd cynhyrchwyr yn eu lleoli eu hunain yn y ddau is-faes hyn (Hesmondhalgh 2007: 214).

Roedd Teliesyn, ar yr un pryd, yn gwmni cynhyrchu ar raddfa gymharol fechan, yn creu

rhaglenni a fyddai'n cael eu gweld yn bennaf ar ymylon cyfrwng torfol y teledu, ac nid yn unig yn nhermau'r rhannau 'o ddifrif' o'r amserlen deledu, ond hefyd o ran yr ymrwymiad i elfen ymylol, yn ddaearyddol ac yn ieithyddol, sef Cymru a'r Gymraeg. Enillodd ei raglenni wobrau yn y diwydiant, ac ystyrid bod ganddynt 'gyfalaf diwylliannol' uchel a 'chyfalaf economaidd' isel. Ar y llaw arall, cynhyrchwyd rhaglenni gan Teliesyn hefyd a gafodd eu cyd-gynhyrchu'n rhyngwladol, eu gwylio gan gynulleidfaoedd mawr rhyngwladol, ac a gynhyrchodd incwm sylweddol, gan ddarparu bywoliaeth i lawer o weithwyr proffesiynol creadigol dros gyfnod o 20 mlynedd.

Yn achos ail gyfnod Teliesyn, gellir gweld yn glir y cwmni yn ceisio sefydlu safle i'w hun mewn maes cynhyrchu anwadal, yn yr ymdrech a wnaed gan Teliesyn i fabwysiadu rhai o'r arferion a oedd yn dechrau dod i'r amlwg ym maes cynhyrchu diwylliannol o safbwynt masnachol ac atebolrwydd ariannol (Born 2005; Born 2010). Ond ym mha le y gellir lleoli Teliesyn mewn maes o'r fath?

Mae'r dadansoddiad Bourdieuaidd a wnaed gan Lopez ar gerddoriaeth Jazz Americanaidd yn gallu cynnig rhai enghreifftiau y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi Teliesyn. Mae Lopez yn disgrifio sut yr oedd Jazz Americanaidd yn groesfrid o ffurfiau poblogaidd a '*high art practices and claims to high art*' a bod ymarferwyr Jazz Americanaidd yn eu gweld eu hunain yn wrthryfelwyr '*against the popular and the commercial*' (Lopez 2000: 165). Â Lopez yn ei flaen i ddisgrifio sut yr oedd Jazz Americanaidd wedyn yn ei gael ei hunan yn sownd rhwng categorïau Bourdieuaidd o '*restricted high art*' a '*bourgeois high art*', gan fod arferion Jazz wedi eu gwrthod gan gymunedau'r brif ffrwd a chelfyddyd aruchel fel ei gilydd.

Ar yr un pryd felly roedd Jazz Americanaidd yn sownd rhwng meysydd Bourdieu – 'cynhyrchu cyfyngedig' a 'chynhyrchu *grande*' – oherwydd poblogrwydd y miwsig. Atgyfnerthwyd y sefyllfa honno ymhellach gan y ffaith fod cerddorion du yn America hwythau wedi eu gwthio i'r ymylon. Dyna'r amodau lle y teimlai Lopez fod ganddo gyfiawnhad i ddweud bod Jazz Americanaidd wedi creu categori newydd yn fframwaith Bourdieu, sef '*restricted popular art*'; cyfuniad felly o *genre* a oedd ar yr ymylon, ond hefyd yn cyrraedd cynulleidfa helaeth.

Gellir cymhwyso'r dadansoddiad hwn i esiampl Teliesyn. Deilliasai Teliesyn, yn enwedig ar y cychwyn, o'r *Independent Filmmakers' Association*[7] a rhannau anfodlon o'r deuopoli darlledu prif-ffrwd. Nid oedd y cymysgedd hwnnw'n gweddu i'r hyn y byddai Bourdieu yn ei ddisgrifio'n '*restricted high art*', sef y maes cynhyrchu lle y mae cynnyrch diwylliannol tra-fodernaidd yn cael ei greu gan ddiystyru cyfalaf economaidd a ffafrio cyfalaf diwylliannol. Ac ni fu Teliesyn yn y categori '*industrial art*' ychwaith, lle y mae'r elfen economaidd yn goresgyn pob ystyriaeth ddiwylliannol. Yng nghyd-destun darlledu ym Mhrydain, heriai

[7] Roedd yr IFA (*Independent Filmmakers' Association*) yn gorff a grëwyd yn 1974 er mwyn hybu a chynrychioli'r sector bach o wneuthurwyr ffilm annibynnol a dyfodd yn y Deyrnas Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd yr IFA yn gefnogol iawn o gwmnïau neu weithdai ffilm gydweithredol yn hytrach na cheisio ail-greu strwythurau mawr y diwydiant stiwdio. Gweler: Thomas, P. (2012), 'The British workshop movement and Amber film', *Studies in European Cinema*, 8 (3), 195–209.

Teliesyn y normau esthetaidd, ond nid i'r un graddau â, dyweder, *Black Audio Film Collective* John Akomfrah.[8]

Ar y llaw arall, apeliai Teliesyn at gynulleidfaoedd eang drwy gyfundrefn ddarlledu a oedd, yn enwedig yng nghyfnod cyntaf hanes y cwmni, ychydig yn wahanol a llai masnachol a chystadleuol nag yr oedd hi erbyn yr 1990au. Yn achos sawl agwedd, roedd Teliesyn, gyda'i ymdrechion i gyfuno technegau ffilmaidd *ostranenie* mewn cynyrchiadau megis *Cracking Up* (Channel 4 1989),[9] a dulliau mwy confensiynol o ddramateiddio mewn cynyrchiadau megis *Wil 6* (S4C, 1983), yn ymdebygu i gategori 'celfyddyd boblogaidd gyfyngedig' Lopez, sef categori a oedd yn bosib oherwydd diffyg capasiti am 'gelfyddyd aruchel gyfyngedig' ym meysydd sinema a theatr Cymru, a chyfundrefn ddarlledu a oedd, er bod ganddi apêl boblogaidd, wedi ei diogelu rhag marchnadeiddio.

Ond roedd newid yn yr arfaeth. Mae'r ymagwedd/dadansoddiad Bourdieuaidd yn golygu bod modd olrhain ail gyfnod Teliesyn, a'i ymaddasiadau yn wyneb y newidiadau anferth a ddigwyddodd yn yr is-faes darlledu ym Mhrydain yn yr 1990au, lle yr oedd gan y cynhyrchwr ran ganolog i'w chwarae. Fel y dywedwyd eisoes, yn ystod yr 1990au, roedd yn rhaid i Teliesyn fabwysiadu strwythurau ac arferion newydd er mwyn aros yn gystadleuol mewn cyfundrefn ddarlledu a oedd yn cael ei marchnadeiddio fwyfwy.

Os canolbwyntiwn ar y cyfnod 1994–1996, ac ar fater datblygu rhaglenni yn benodol, gellir gweld Teliesyn yn symud o fewn y maes cynhyrchu, yn bennaf o ganlyniad i symudiadau ym *maes grym* cyffredinol ar draws llywodraethau ac economïau gorllewin Ewrop a Gogledd America, yn rhannol oherwydd newidiadau yn yr is-faes cynhyrchu diwylliannol, ac felly yn ei dro yn is-faes Teliesyn, sef darlledu'r Deyrnas Unedig.

Fel y dywedwyd eisoes, yn ystod y cyfnod hwn roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i systemeiddio sut yr oedd syniadau am raglenni yn cael eu cynhyrchu a'u rhoi gerbron y golygyddion comisiynu: roedd hyn yn rhagflas o'r hyn a ddeuai'n ymarfer safonol i gwmnïau annibynnol y Deyrnas Unedig tua diwedd yr 1990au ac wedi hynny (Zoellner 2009). Cyflwynwyd y posibilrwydd o gyfuno Teliesyn â chwmnïau eraill yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn gwella gallu'r cwmni i fuddsoddi mewn datblygu rhaglenni yn y dyfodol (Evans 2009). Byddai hynny wedi bod yn fanteisiol o ran creu mwy o fusnes drwy symleiddio'r prosesau datblygu busnes.

Hyd yn oed tua diwedd y 1990au, rhywbeth cymunedol, llorweddol, o ran hierarchaeth y cwmni oedd creu syniadau, ond erbyn hyn roedd y pwyslais wedi newid o greu syniadau i hybu syniadau, gan gynnwys yr angen i ennill ffafr comisiynwyr golygyddol (a âi yn fwyfwy

[8] Roedd y *Black Audio Film Collective* yn weithdy ffilm gydweithredol a dyfodd o'r IFA, a ddaeth i sylw cenedlaethol drwy ei waith arloesol i'r Channel 4 cynnar. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus o'i waith oedd ffilm ddogfen heriol John Akomfrah, *Handsworth Songs* (1986). Gweler: Akomfrah, J. (2015), 'Black Independent Filmmaking: A Statement by the Black Audio Film Collective', *Black Camera: An International Film Journal (The New Series)*, 6 (2), 58–60.

[9] *Ostranenie* yw term Schlovsky am y dechneg ffurfiolaidd o achosi i bethau cyfarwydd ymddangos yn rhyfedd, yn aml drwy eu gosod mewn cyd-destun anghyfarwydd. Mae i'w weld yn *Cracking Up* pan mae'r cymeriad hanesyddol yn sydyn yn 'dianc' rhag yr ail-greu dramatig ac yn siarad yn uniongyrchol â'r cyflwynydd (Gwyn Alf Williams) neu'r criw teledu, neu'r gynulleidfa.

pwysig). Y cynhyrchwyr a gymerodd awenau'r swyddogaeth honno, wrth iddynt gasglu syniadau am raglenni, a phenderfynu pa rai i'w hanfon at y comisiynwyr. Y cynhyrchwyr a fyddai wedyn yn ymdrin â'r prosesau datblygu angenrheidiol a oedd yn gyfrwng i drafod ac addasu'r syniadau am raglenni yn ôl gofynion y sianeli, sef swyddogaeth a fyddai'n dod yn rhan fwyfwy helaeth o gynhyrchu annibynnol dros y deng mlynedd nesaf (Zoellner 2009).

Ni allai'r prosesau datblygu syniadau hyn fod yn rhan o gylch gwaith holl aelodau Teliesyn, fel yr oedd yn yr 1980au, gan fod angen i'r syniadau ymateb i amserlenni'r comisiynwyr. Yn ategol at hynny, yr oedd sawl aelod o Teliesyn yn gweithio ar eu liwt eu hunain, heb allu gollwng eu gwaith yn ddirybudd i droi at waith datblygu syniadau. Ac nid oedd datblygu syniadau yn gyfrifoldeb ar un rheolwr cynhyrchu canolog yn unig, megis Richard Staniforth yn yr 1980au, ond rhoddodd rheolwr cyfatebol y cwmni system olrhain datblygu rhaglenni ar waith, a oedd yn cael ei gweithredu gan amryw gynhyrchwyr o fewn Teliesyn. Yn sgil hyn, tyfodd swyddogaeth y cynhyrchydd i gynnwys negodi ac ennill gwaith i'r cwmni, ar ben y gwaith rheoli a dosbarthu cynyrchiadau i'r comisiynwyr a'r sianeli.

Ar ben hynny, er mwyn ennill gwaith gan gomisiynwyr newydd, wrth i'r rhai hŷn symud ymlaen, ceisiwyd arloesi â dull a chynnwys y rhaglenni, er bod hynny'n aml yn tynnu'n groes i ethos y cwmni. Roedd hynny'n arbennig o wir yn achos gwaith ar gyfer gwylwyr ar draws y ffin yn Lloegr a'r Alban, ar rwydweithiau ITV, BBC a Channel 4. Mae adroddiadau o gyfarfodydd y cwmni rhwng 1994 a 1996 yn dangos bod Teliesyn wedi gwneud ymdrechion i beidio â chael ei gysylltu â'r label '*restricted high art*' yn unig, ac i symud tuag at fathau o raglenni '*industrial art*', megis rhaglenni sgwrsio a rhaglenni cwis, gan ymdrechu – heb lwyddiant – i'w symud ei hun o fewn y maes cynhyrchu diwylliannol.

Serch hynny, nid arweiniodd hyn yn gyfan gwbl at farchnadeiddio'r cwmni. Ar yr un pryd â chyflwyno diwylliant systematig, masnachol ac archwiliadol i'r cwmni, gwnaeth y rheolwr hefyd hyrwyddo sawl cynhyrchydd benywaidd y soniwyd eisoes am eu corpws o waith hanesyddol arloesol. Ar y pryd, prin iawn y gwelid menywod mewn swyddi cynhyrchu a chyfarwyddo teledu ym maes darlledu yn y Deyrnas Unedig, ac roedd y sefyllfa yn Teliesyn yn cyd-fynd yn union â'i egwyddorion gwreiddiol.

Rhwng 1990 a 1997, roedd y cyfundrefnau archwilio a datblygu newydd, a'r amgylchedd y tu allan i'r cwmni, a oedd yn mynd yn fwyfwy cystadleuol ac yn symud tuag at gontractau gwaith dros dro, wedi arwain at swyddogaeth y cynhyrchydd yn codi o'r newydd yn y cwmni. Ond ni lwyddodd systemau datblygu newydd Teliesyn i adleoli'r cwmni'n ddigonol i allu ail-greu llwyddiant creadigol ac ariannol yr 1980au. Erbyn 1997, roedd Teliesyn yn straffaglu mewn maes cynhyrchu y tu allan i'w gynefin, a straffaglu y byddai nes iddo ddirwyn i ben yn 2002.

Un broblem â'r dull Bourdieuaidd yw ei allu i gysylltu 'cynefin' unigolyn, cwmni, neu ffurf ar gelfyddyd megis Jazz Americanaidd, hyd yn oed, â dealltwriaeth fwy cyffredinol o rym a dynameg gymdeithasol drwy gysyniad y maes; sef mae'n rhagdybio bod testun yr astudiaeth yn gydlynol iawn. Hynny yw, gellir adnabod Jazz Americanaidd fel un corff cydlynol o gymhelliant, sy'n ddigyfnewid, y gellir olrhain ei drywydd wrth iddo symud o fewn maes penodol. Mae hynny'n bosibl i ryw raddau, ond wrth ystyried swyddogaeth y

cynhyrchydd ar wahân i swyddogaethau eraill o fewn y cwmni, mae gan y dull hwn o weithio ei gyfyngiadau.

Mae angen lefel arall o ddadansoddi felly, a all ddatod y gwahanol gysylltiadau a'r ddynameg rhwng amryw rannau o'r 'corff' wrth iddo weithredu o fewn 'maes'. Mae fframweithiau deuol Eric Berne ar gyfer dynameg drefniadol yn ddefnyddiol iawn yma, sef '*membership, leadership and boundaries*' a '*technics, ettioquette and character*' (Berne 1963: tt. 109–111). Drwy gyfuno'r rhain gallwn dreiddio o dan wyneb dynameg Teliesyn fel cwmni er mwyn cael dealltwriaeth o'i safle cyfnewidiol ym maes cynhyrchu diwylliannol.

## Berne: '*Technics, Ettiquette, Character*'

Mae model Berne o ddynameg drefniadol wedi ei seilio ar gysyniad bod perthynas ddofn rhwng aelodaeth sefydliad a'i arweinydd, sydd yn ei dro yn ysbarduno "canon" o reolau'r sefydliad, neu'n geidwad arnynt. Ceir sawl gwahanol fath o swyddogaeth arwain (cyfrifol, effeithiol, seicolegol) a all i gyd fod yn rhan o swydd un unigolyn, neu gallant gael eu rhannu rhwng gwahanol bobl, e.e. Prif Weinidog (arweinydd cyfrifol ac effeithiol) a Brenin (arweinydd seicolegol). Ond yng ngwaith arferol unrhyw grŵp, yr 'arweinydd effeithiol' yw'r unigolyn '*whose questions are likely to be answered*' a'i '*suggestions likely to be followed*'. Yr 'arweinydd cyfrifol' sy'n '*called to account when something goes wrong*', ond mae gan yr 'arweinwyr seicolegol' neu'r 'arweinwyr euhemerus' nodweddion duwiaidd a gallai eu dylanwad barhau ar ôl iddynt farw, neu ar ôl iddynt adael y grŵp (Berne 1963: t. 106).

Hefyd, ceir lleoliadau arweinyddiaeth (cysefin, gweithredol, personol), ac 'is-arweinwyr' a 'dirprwyon', ac mae gan y ddau olaf hyn gylchoedd awdurdod mwy cyfyng o fewn y grŵp. Gellir adnabod gwir arweinydd y grŵp drwy weld a all yr unigolyn '*make decisions which are not subject to revision or veto*', a/neu wneud penderfyniadau am strwythur y grŵp drwy allu cynnwys aelodau neu eu heithrio. Mae'n bosib i rym arweinydd fod yn dwyllodrus: '*if the so-called leader plays the king but someone else can play the ace … then his is more a sub-leader or delegate than a true leader*' (Ibid).

Yn y pen draw, yr arweinydd yw'r unigolyn sy'n plismona 'canon y grŵp', neu'r gyfres o reolau a gwerthoedd sy'n gweithredu fel cyfansoddiad y grŵp. Mae'n bosib y bydd 'canon cyntaf', sef canon a grëwyd gan yr 'arweinydd/wyr cysefin' neu 'euhemerus', yn ganon nad oes neb yn gallu ei newid heblaw amdanynt hwy. Os oes newidiadau wedyn, mae'n rhaid i unrhyw arweinydd a ddaw wedyn ymosod ar y canon hwnnw.

Mae pwysigrwydd y ddynameg hon yn ei amlygu ei hun wrth drafod ail fframwaith Berne, sef '*Technics, Ettiquette, Character*', a all ddisgrifio sut y gallai'r tair haenen fewnol mewn sefydliad fod yn cydweithio mewn cytgord â'i gilydd, neu yn wir yn tynnu'n groes i'w gilydd. Ystyr yr ymadrodd '*group technics*' yw'r '*practical technics for changing the environment, and can range from daubing pigments to making plutonium*' (Ibid). Mae'r ymadrodd '*group ettiquette*' yn dynodi pob agwedd ar foesau sy'n wahanol i foesau'r grŵp ond yn arferol o fewn y grŵp (Ibid). Mae *group ettiquette* fel rheol yn newid yn araf iawn, yn wahanol i'r *technics* sy'n newid yn gyflymach.

Ac yn olaf, ystyr ‘*group character*’ yw’r gwahaniaethau oddi wrth gontract cymdeithasol a dderbynnir yn gyffredinol, gan gynnwys elfennau o ryddid a allai beri syndod i bobl y tu allan i’r grŵp; mae’r categori hwn yn debyg iawn i fath o ‘*collective unconscious*’, lle y mae elfennau affeithiol gwybyddiaeth ac ymddygiad yn fwyaf cyffredin (ibid.). Yn syml, gallai natur y berthynas rhwng arweinydd y grŵp a’i ganon effeithio ar y berthynas rhwng ‘*technics, ettiquette and character*’ y grŵp, a gallai hynny olygu bod y grŵp yn cael ei redeg yn llyfn, neu’n aneffeithiol.

Mae modd cymhwyso enghraifft Teliesyn i’r strwythur hwn, er bod hynny’n codi nifer o gwestiynau. Mae’n rhaid penderfynu pwy oedd yr arweinydd, beth oedd y canon cyntaf, sut y cafodd grym ei drosglwyddo o gyfnod i gyfnod, a beth oedd yr effaith ar berfformiad y cwmni. Mae natur Teliesyn – a oedd yn gwmni cydweithredol, lle’r oedd ei staff yn gweithio ar eu liwt eu hunain yn bennaf, ond roeddent hefyd yn gweithio i gwmnïau cynhyrchu â hierarchaethau mwy traddodiadol – yn golygu bod y cwestiwn yn o gymhleth. Ar sawl ystyr, y sylfaenwyr, sef Colin Thomas a Paul Turner, oedd arweinwyr gwreiddiol Teliesyn; cyd-awduron y cyfansoddiad, ac yn warchodwyr canon y grŵp. Serch hynny, mae’r sefyllfa honno’n fwy cymhleth gan fod Turner wedi ymddiswyddo o Teliesyn yn 1988.

Nid yw natur rôl Colin Thomas yn hollol glir chwaith, gan fod unigolion grymus wedi ymuno â’r cwmni ar ddechrau’r 1990au, ac oherwydd absenoldebau sylweddol Colin Thomas o’r cwmni wrth iddo weithio ar gyfresi hirion i HTV a’r BBC (ganol y 1980au, a dechrau’r 1990au). Mae’n debygol mai Colin Thomas oedd arweinydd euhemerus ar Teliesyn yn ystod y cyfnodau hyn, gyda’r arweinyddiaeth effeithiol yn cael ei harddel gan wahanol unigolion yn ystod y cyfnodau hyn. Mae’n debygol yn ogystal y cafwyd tensiynau yn deillio o’r berthynas rhwng yr arweinydd effeithiol a chanon y grŵp wrth alinio *technics, ettiquette* a *character* Teliesyn tra oedd Colin Thomas yn absennol.

Efallai y gellir gweld enghraifft o hyn yn y cyfeiriad a gymerodd y cwmni yn hanner cyntaf yr 1990au, tuag at gorfforaetholdeb mwy systematig, ac oddi wrth gyfluniad anffurfiol anarchaidd o leisiau a dulliau o weithio. Wrth reswm, roedd hyn yn angenrheidiol o safbwynt ymarferol, ond mae’n debygol i’r ymdrech i ail-lunio canon y cwmni mewn modd cliriach, i alluogi newid yn *technics* ac *ettiquette* y grŵp, fod braidd yn aflwyddiannus. Yn hytrach, aros yn ddigyfnewid a chynhenid wnaeth y *group character*, yn gwrthsefyll newidiadau effeithiol i’r *technics* a’r *ettiquette*, gan arwain Teliesyn ymhellach oddi wrth norm y diwydiant wrth i ddarlledu yn y Deyrnas Unedig yntau ei adleoli ei hunan.

Ar y llaw arall, gellir gweld ffigurau megis Paul Turner, ac efallai i raddau cliriach byth, Gwyn Alf Williams, fel arweinwyr euhemerus, yn absennol o’u gwirfodd neu oherwydd iddynt farw, ond eto’n bresennol o hyd drwy eu dylanwad dwfn a phellgyrhaeddol ar ganon y cwmni. Efallai mai dyna sy’n esbonio sut roedd cyfluniad yr 1980au, o ran *technics* ac *ettiquette* Teliesyn, yn dal i fod yn bresennol yn nwfn yng ngwead *character* Teliesyn ymhell i’r 1990au.

Efallai mai dyma lle y mae swyddogaeth y cynhyrchydd i’w gweld yn dychwelyd i’r maes. Mae swyddogaeth y cynhyrchydd, fel rhan hanfodol o’r strategaeth datblygu rhaglenni a newidiai wrth i’r sector cynhyrchu fynd yn fwyfwy cystadleuol, ac fel presenoldeb a dyfai o

fewn Teliesyn yn ystod yr 1990au, yn tueddu i dorri ar draws trafodaethau cymhleth o fewn y sefydliad ynghylch alinio a theyrngarwch. Yn achos Teliesyn, roedd y cynhyrchydd yn fath o blaniad trefedigaethol o ecoleg gynhyrchu'r 1990au a oedd yn estron i ganon cychwynnol Teliesyn. Efallai mai'r arweinyddiaeth ddosranedig hon – o'r arweinwyr euhemerus Gwyn Alf Williams a Paul Turner, i arweinyddiaeth wreiddiol (ac weithiau absennol) Colin Thomas, i'r arweinyddiaeth effeithiol olynol, rymus ac arloesol a ddarparwyd gan bobl eraill – oedd dull Teliesyn o amharu ar resymeg trefedigaeth yr ethos newydd ym maes darlledu, drwy resymeg creu swyddogaeth newydd i'r cynhyrchydd.

Nid yw syniadau Berne yn ateb pob cwestiwn. Yn wir, mae defnyddio technegau a fframweithiau o'r fath mewn sefyllfa hanesyddol yn codi rhai problemau a chwestiynau. Er enghraifft, a oes modd dirnad cysylltiadau emosiynol a seicolegol wrth edrych yn ôl drwy foddau archif a chyfweliad? Onid yw'n wir mai arsylwi cyfoes yw'r ffordd orau o gasglu data o'r fath? Efallai fod hyn yn wir i raddau, a bod angen felly bod yn ofalus o ran dod i gasgliadau rhy bendant. Ond ar y llaw arall, mae syniadau Berne yn helpu i godi posibiliadau a chyfoethogi ffyrdd eraill o edrych ar brosesau diwylliannol o'r fath.

## Casgliad

O safbwynt hanesyddol, ac o safbwynt economeg wleidyddol, trawsffurfiwyd darlledu yn y Deyrnas Unedig yn yr 1980au hwyr a thrwy'r 1990au, o system gwasanaeth cyhoeddus gyda nifer bychan o sianeli, i system farchnad gyda thoreth o ddewis. Y tu ôl i'r newidiadau hyn yr oedd grymoedd cyffredinol gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig, datblygiad technolegau cyfryngol digidol, a rhesymeg neo-ryddfrydol ynglŷn â sofraniaeth y cwsmer a natur ansawdd diwylliannol. Effaith hyn oedd hybu cystadleuaeth fel mecanwaith didoli adnoddau, gan arwain at bwysleisio darbodiad maint, a sefydlu patrymau gwaith fwyfwy achlysurol ac ansicr. Ond o dan yr arwyneb monolithig hwn, mae yna ferw o weithgaredd cynhyrchiol. Y cwestiwn yw, sut mae defnyddio'r berw hwn er mwyn trafod yr hanes hwn?

Drwy ddull Cottle, gellir gweld bod yr effeithiau macro a ddisgrifir uchod wedi effeithio ar wahanol rannau o'r sector mewn ffyrdd tra gwahanol. Gellir ystyried taith Teliesyn fel enghraifft o frwydr benodol i gymodi'r haen ficro o greu rhaglenni o fath ac ansawdd arbennig, â'r haen facro sy'n trawsffurfio'n gyflym, â haen feso sy'n ceisio dal y cyfan gyda'i gilydd. Wrth wneud hyn mae modd dod a'r haen feso – sef cwmni Teliesyn – o dan yr ysbienddrych a gweld sut yn union y mae prosesau monolithig yn gweithio mewn enghreifftiau penodol o drawsffurfiad ymarferol. Gwelir nad proses ac effaith undonog sy'n bodoli pan fo'r haen facro yn newid, ac ymhellach cawn weld yn glir bod cysylltiad clir rhwng yr hyn sy'n digwydd rhwng yr haen facro a'r haen ficro yn anodd iawn i'w ddirnad ac i'w ragfynegi. Mae hyn yn addasiad pwysig a sylweddol wrth geisio dirnad sut mae'r diwylliant yn datblygu.

Drwy lens Bourdieu, mae modd mynd ymhellach. Tra bod dull Cottle yn gweld brwydr yr haenau, mae Bourdieu yn gweld natur y grymoedd sy'n pwyso ar Teliesyn yn fanylach. Tra bod dull Cottle yn disgrifio tair haen, mae dull Bourdieu yn datguddio nifer o feysydd sy'n gorgyffwrdd mewn modd dynamig. Mae'r syniad o gyfalaf diwylliannol a'r grymoedd

gwrthwynebol sy'n tynnu ar Teliesyn yn dangos nad statig yw'r *haen facro*, ac yn wir pa mor anodd yw penderfynu ffiniau'r *macro, meso* a *meicro*. Wrth ddilyn dadansoddiad o'r fath mae modd gweld cysylltiad cymharol glir rhwng y maes grym a'r math o raglenni sy'n dyfod o gwmni fel Teliesyn. Yn nhermau Cottle, mae'r cysylltiad rhwng y macro a'r micro yn gliriach gyda Bourdieu oherwydd ei gyfuniad o fanylder cwmnïol, a chyd-destun diwylliannol. Yn ôl dadansoddiad Bourdieuaidd, daliodd Teliesyn ei dir yn nhirwedd gyfnewidfawr is-feysydd cynhyrchu diwylliannol.

Mae Berne yn mynd gam ymhellach. Drwy lens Cottle cawn ddarlun o ddynameg fewnol Teliesyn wrth iddo negodi haenau uwch ei phen ac islaw. Er hynny, nid oes gan ddull Cottle ffordd o ystyried croesddywediadau, sy'n ymddangos fel methiant mewn dadansoddiad o'r fath. Pam na lwyddodd Teliesyn i newid ei *character* yn yr 1990au? Nid oes llawer yn y fantol mewn perthynas â phersbectif Cottle; mae methiant yn fethiant. Yn achos Bourdieu, ceir endid statig o'r enw Teliesyn yn symud fel llong ar ddyfroedd cythryblus, gyda disgrifiadau manwl o'r dyfroedd hynny. Mae methiannau'n rhan o'r naratif, ac yn wir yn nodweddu newidiadau yn y ceryntau cymdeithasol o amgylch Teliesyn. Ond, o bersbectif Bourdieu, ceir perygl ein bod yn anghofio bod modd i Teliesyn newid, a bod y newidiadau hynny'n gymhleth, yn hanesyddol ac yn arwyddocaol.

Gyda Berne, ceir ffordd o weld sut yr oedd Teliesyn yn newid yn fewnol, ac yn ychwanegol, sut yr oedd Teliesyn yn parhau mewn rhai ffyrdd er gwaethaf y gwasgedd arno o amryw gyfeiriadau. O berbectif Berne, mae natur newidiol y berthynas rhwng yr aelodau, yr arweinyddion a'r canon wedi creu dynameg arbennig a adwethiodd mewn modd penodol, hanesyddol, i sefyllfa mwy cyffredinol allanol. Roedd 'methiannau' Teliesyn i ymdopi â newidiadau yn yr haen macro, neu'r maes grym a'r maes diwylliannol yn hannu o'r patrymau paradocsaidd o fewn *technics*, *ettitquette*, a *character* Teliesyn a oedd wedi datblygu'n hanesyddol.

Yn ôl dadansoddiad Bernaidd, roedd arweinyddiaeth ddosranedig ac aelodau'r cwmni a oedd yn ddibynnol arnynt yn fodd i Teliesyn oroesi'n hirach na phob un cwmni cynhyrchu teledu arall o'i fath, heb sôn am y mentrau teledu cydweithredol eraill a ffurfiwyd ym mwrlwm yr 1980au. Yn anad dim, roedd Teliesyn yn gallu gadael y maes heb fradychu ei *group character*, yn gadael gwaddol o raglenni radicalaidd i Gymru a oedd yn apelio at gynulleidfa eang, ac yn rhoi sylfaen i lawer o'r rhai a fu'n rhan o'i waith am 20 mlynedd a mwy i gael bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd yn llwyddiannus.

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i Matthew Clubb am ei gymorth ieithyddol wrth baratoi'r erthygl hon.

## Llyfryddiaeth

Akomfrah, J. (2015), 'Black Independent Filmmaking: A Statement by the Black Audio Film Collective', *Black Camera: An International Film Journal (The New Series)*, 6 (2), 58–60.

Barnett, S., Ramsay, G., a Gaber, I. (2012), *Callaghan to Credit Crunch: Changing Trends in British Television News 1975–2009* (University of Westminster & University of Bedfordshire).

Berne, E. (1963), *Structure and dynamics of groups and organizations* (New York: Ballantine).

Barnett, S., a Seymour, E. (1999), *'A Shrinking Iceberg Travelling South ...': Changing Trends in British Television: a Case Study of Drama and Current Affairs* (London: Campaign for Quality Television).

BFI (1999), *Television Industry Tracking Study: Third Report* (London: BFI).

Born, G. (2003), 'From Reithian ethic to managerial discourse accountability and audit at the BBC', *Javnost-The Public*, 10 (3), 63–80.

Born, G. (2005), *Uncertain Vision: Birt, Dyke and the Reinvention of the BBC* (London: Vintage).

Born, G. (2010), 'Reflexivity and Ambivalence: Culture, Creativity and Government in the BBC', *Cultural Values*, 6 (1–2).

Caldwell, J. T. (2008), *Production culture: Industrial reflexivity and critical practice in film and television* (Duke University Press).

Cottle, S. (2003), 'Media Organization and Production: mapping the field', yn Cottle, S. (gol.), *Media Organization and Production* (London: SAGE).

Davies, Roy (cyn-gomisiynydd rhaglenni hanes y BBC, a chomisiynydd rhaglenni ffeithiol BBC Wales) (2006), cyfweliad â'r awdur, Llundain.

Ellis, J. (2000), *Seeing Things: Television in the Age of Uncertainty* (London: I. B. Tauris).

Evans, David. (2009), cyfweliad teleffôn â'r awdur.

Geraint, J., 'Representing Wales: Experience on Screen', traethawd PhD, Prifysgol Morgannwg, 2011.

Golding, P., a Murdock, G. (2005), 'Culture, Communications and Political Economy, yn Curran, J., a Gurevitch M. (goln), *Mass Media and Society* (London: Arnold).

Graham, Angela (aelod o Teliesyn) (2012), cyfweliad drwy e-bost â'r awdur.

Hesmondhalgh, D. (2006), 'Bourdieu, the media and cultural production', *Media Culture Society*, March, 28 (2), 211–31.

Johnson, C., a Turnock, R. (2005), *ITV cultures: Independent television over fifty years* (McGraw-Hill Education (UK)).

Lee, D. J., 'Precarious Creativity: Working Lives in the British Independent Television Production Industry', traethawd PhD, Goldsmiths, University of London, 2008.

Lopez, P. (2000), 'Pierre Bourideu's Fields of Cultural Production: A case Study of Modern Jazz', yn Brown, N., a Szeman, I. (goln), *Pierre Bourdieu: Fieldwork and Culture* (Maryland: Rowman & Littlefield).

Mediatique (2005), *From the cottage to the City: The evolution of the UK independent production sector* (London: Mediatique).

Nisse, J. (1992), 'Franchise costs force HTV to slash budget', *The Independent*, 26 Medi.

O'Malley, T., a Jones, J. (2009), *The Peacock Committee and UK Broadcasting Policy* (London: Palgrave MacMillan).

Paterson, R. (2001), 'Work histories in television', *Media Culture Society*, July, 23 (4), 495–520.

Pritchard, Gwyn (cyn-gomisiynydd rhaglenni yn Channel 4 a'r BBC) (2010), cyfweliad â'r awdur.

Ryan, Michelle (aelod o Teliesyn) (2009), cyfweliad â'r awdur.

Sills-Jones, D. (2013), 'Rhwng dau faes: Taliesyn a strwythurau cynhyrchu radical yn hanes cynnar S4C', *Cyfrwng*, 10, 18–34.

Sills-Jones, D. (2015), 'The Teliesyn Co-operative: National Broadcasting, Production Organisation and TV Aesthetics', yn Franklin, I., Chignell, H., a Skoog, K. (goln), *Regional Aesthetics: Mapping UK Media Cultures* (London: Palgrave Macmillan), tt. 169–81.

Simmonds, Mary (aelod o Teliesyn) (2009), cyfweliad â'r awdur.

S4C (2001), *Economy and Culture: S4C in Wales – present and future impacts* (Cardiff: S4C).

Staniforth, Richard (aelod o Teliesyn) (2011), cyfweliad â'r awdur.

Thomas, Colin (aelod o Teliesyn) (2011), cyfweliad â'r awdur [Aelod Teliesyn].

Thomas, P. (2012), 'The British workshop movement and Amber film', *Studies in European Cinema*, 8 (3), 195–209.

Television Research Centre (2002), *Risky Business: Inside the Indies* (Glasgow: The Research Centre for Television and Interactivity).

Tunstall, J. (2003), *Television producers* (London: Routledge).

Williams, Euryn Ogwen (cyn-bennaeth rhaglenni S4C) (2010), cyfweliad â'r awdur.

Zoellner A. (2009), 'Professional Ideology and Programme Conventions: Documentary Development in Independent British Television Production', *Mass Communication and Society*, 12 (4), 503–36.

# Cyfranwyr

### *Anwen Jones*

Mae Anwen Jones yn ddarllenydd mewn Astudiaethau Theatr ac wedi cyhoeddi nifer o gyfrolau cyfrwng Cymraeg yn y maes, gan gynnwys *Perfformio'r Genedl: Ar Drywydd Hywel Teifi Edwards* gyda Gwasg Prifysgol Cymru a *Wil Sam: Dyn y Theatr* gyda Gwasg Carreg Gwalch. Mae'n ymddiriedolwraig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ynad heddwch, yn olygydd *Gwerddon* ac yn Ddirprwy Is-ganghellor ar Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar brosiect theatr sy'n archwilio syniadau am ofod a lle gyda disgyblion ysgol o Syria sydd yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif ffrwd yn Nhwrci.

### *Dafydd Sills-Jones*

Mae gwaith ymchwil Dafydd yn croesi is-ddisgyblaethau 'ecoleg y cyfryngau' ac 'ymarfer sgrin fel ymchwil'. Mae'n cydolygu cyfres lyfrau *Documentary Film Cultures* Peter Lang, ac mae ei waith ymarfer-fel-ymchwil wedi ei ddangos mewn cynadleddau a gwyliau ffilm rhyngwladol yng Nghymru, Lloegr, Y Ffindir a Seland Newydd. Ar hyn o bryd, mae Dafydd yn ymchwilio i gynyrchiadau ffilm ddogfen yng Nghymru, y Ffindir a Seland Newydd trwy amrywiaeth o ddulliau, llwyfannau ac ymagweddau. Mae Dafydd yn Athro Cysylltiol ym Mhrifysgol Technoleg Auckland yn Seland Newydd.

### *Robert Palmer*

Magwyd Robert Ieuan Palmer yng Nghwm Rhondda cyn graddio gyda BSc mewn Ffiseg ac MSc mewn Ffiseg Meddygol o brifysgolion Aberystwyth ac Abertawe. Derbyniodd ei ddoethuriaeth o Brifysgol Abertawe yn 2016 am ei draethawd ymchwil ar ddadansoddiad awtomatig o ddelweddau meddygol. Erbyn hyn, mae'n gweithio i Cedar, sef canolfan ymchwil technoleg gofal iechyd sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae'n gymrawd ymchwil anrhydeddus yng Ngrŵp Ymchwil Peirianneg Fiofeddygol Prifysgol Caerdydd. Fel rhan o'i waith, mae'n aelod o dîm dadansoddi'r Rhaglen PROMs, PREMs ac Effeithiolrwydd cenedlaethol GIG Cymru.

### *Peredur Webb-Davies*

Mae Peredur Webb-Davies yn uwch-ddarlithydd mewn Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor, yn arbenigo mewn ieithyddiaeth Gymraeg a dwyieithrwydd. Cwblhaodd ei radd Bagloriaeth (2002) a'i radd Meistr (2004) mewn astudiaethau Eingl-Sacsoneg, Norseg a Chelteg ym Mhrifysgol Caergrawnt, cyn cwblhau doethuriaeth ar ieithyddiaeth dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor (2010). Mae wedi cyhoeddi ymchwil ar bynciau megis cyfnewid cod yn iaith siaradwyr Cymraeg ac mewn amrywiaeth sosioieithyddol mewn gramadeg Cymraeg

cyfoes, ac mae diddordeb arbennig ganddo mewn newid ieithyddol yn y Gymraeg. Cafodd ei fagu ym Modfordd ar Ynys Môn ac mae bellach yn byw ym Mhorthaethwy gyda'i wraig a'i fab.

### *Christopher Shank*

Mae Dr Christopher Shank yn aelod o staff ym Mhrifysgol Bangor ac mae'n ieithydd corpws sy'n edrych ar iaith a gwybyddiaeth trwy lygaid defnydd a swyddogaeth. Mae ei ddiddordebau a'i ffocws ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnydd, amrywiaeth a newid ieithyddol, yn benodol ar amrywiaeth cystrawennol a phatrymau newid, mewn cyd-destunau cydamserol a thrawsamserol, ac mae diddordeb arbennig ganddo mewn gramadegoli. Mae ei waith yn defnyddio modelu ystadegol datblygedig a theorïau, egwyddorion a syniadau sy'n deillio o feysydd ieithyddiaeth hanesyddol, sosioieithyddiaeth, cystrawen, semanteg, dadansoddi disgwrs beirniadol a dadansoddi disgwrs.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

9 771741 426008